

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Proffilio gwallau : dadansoddiad o'r gwallau a wneir gan gyfieithwyr Saesneg-Cymraeg

Wooldridge, Dawn

Award date:
2015

Awarding institution:
Bangor University

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 19. Nov. 2024

Dawn Elizabeth Wooldridge

**PROFFILIO GWALLAU:
DADANSODDIAD O'R GWALLAU
A WNEIR GAN GYFIEITHWYR SAESNEG-
CYMRAEG**

Ysgol Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg

Prifysgol Bangor

PhD

2015

DATGANIAD A CHANIATÂD

Manylion y Gwaith

Rwyf trwy hyn yn cytuno i osod yr eitem ganlynol yn y gadwrfa ddigidol a gynhelir gan Brifysgol Bangor ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall yr awdurdodir ei defnyddio gan Brifysgol Bangor.

Enw'r Awdur: Dawn Elizabeth Wooldridge

Teitl: Proffilio gwallau: dadansoddiad o'r gwallau a wneir gan gyfieithwyr Saesneg-Cymraeg

Goruchwyliwr/Adran: Dr Peredur Davies, Ieithyddiaeth & Mrs Delyth Prys, UTI

Corff cyllido: KESS

Cymhwyster/gradd a enillwyd: PhD

Mae'r eitem hon yn ffrwyth fy ymdrechion ymchwil fy hun ac mae'n dod o dan y cytundeb isod lle cyfeirir at yr eitem fel "y Gwaith". Mae'n union yr un fath o ran cynnwys â'r eitem a osodwyd yn y Llyfrgell, yn amodol ar bwynt 4 isod.

Hawliau Anghyfyngol

Mae'r hawliau a roddir i'r gadwrfa ddigidol trwy'r cytundeb hwn yn gwbl anghyfyngol. Rydw i'n rhydd i gyhoeddi'r Gwaith yn ei fersiwn presennol neu mewn fersiynau i ddod mewn man arall.

Cytunaf y gall Prifysgol Bangor gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Prifysgol Bangor o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

Cadwrfa Ddigidol Prifysgol Bangor

Deallaf y bydd y gwaith a osodir yn y gadwrfa ddigidol ar gael i amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau, yn cynnwys asiantau a pheiriannau chwilio awtomataidd trwy'r We Fyd Eang.

Deallaf unwaith y gosodir y Gwaith, y gellir ymgorffori'r eitem a'i metadata yn y catalogau neu'r gwasanaethau mynediad cyhoeddus, cronfeydd data cenedlaethol theses a thraethodau hir electronig megis EthOS y Llyfrgell Brydeinig neu unrhyw wasanaeth a ddarperir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Deallaf y bydd y Gwaith ar gael trwy Wasanaeth Theses Electronig Ar-Lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan y telerau a'r amodau defnydd a ddatganwyd (<http://www.llgc.org.uk/index.php?id=4676>). Cytunaf fel rhan o'r gwasanaeth hwn y gall Llyfrgell Genedlaethol Cymru gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

Datganiad 1:

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd onid fel y cytunwyd gan y Brifysgol ar gyfer cymwysterau deuol cymeradwy.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

Datganiad 2:

Canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r thesis hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan droednodiadau yn rhoi cyfeiriadau eglur. Mae llyfryddiaeth ynghlwm.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

Datganiad 3:

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar gyfer llungopïo, ar gyfer benthyciad rhynglyfrgellol ac i'w gadw'n electronig (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau fel y nodir yn natganiad 4), ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

Datganiad 4:

Cytunaf i osod copi electronig o'm thesis (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, a lle bo angen wedi cael y caniatâd angenrheidiol i ddefnyddio deunydd trydydd parti.

Yn ogystal â'r uchod rydw i hefyd yn cytuno â'r canlynol:

1. Mai myfi yw'r awdur neu wedi cael awdurdod yr awdur(on) i ddod i'r cytundeb hwn a fy mod i felly'n rhoi'r hawl i Brifysgol Bangor i sicrhau bod y Gwaith ar gael yn y ffordd a ddisgrifiwyd uchod.
2. Bod y copi electronig o'r Gwaith a gadwyd yn y gadwrfa ddigidol ac sydd o dan y cytundeb hwn, yn union yr un fath o ran ei gynnwys â'r copi papur o'r Gwaith a osodwyd yn Llyfrgell Prifysgol Bangor, yn amodol ar bwynt 4 isod.
3. Fy mod i wedi cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod y Gwaith yn wreiddiol a, hyd eithaf fy ngwybodaeth, nad yw'n torri unrhyw gyfreithiau – yn cynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â difenwi, enllib a hawlfraint.
4. Fy mod i mewn achosion lle mae eiddo deallusol awduron eraill neu ddeiliaid hawlfraint wedi ei gynnwys yn y Gwaith, a lle bo'n briodol, wedi cael caniatâd eglur i gynnwys y deunydd hwnnw yn y Gwaith, ac yn ffurf electronig y Gwaith fel y ceir mynediad ato trwy'r gadwrfa ddigidol mynediad agored, *neu* fy mod i wedi canfod ac wedi dileu'r deunydd hwn na roddwyd caniatâd digonol a phriodol ar ei gyfer ac na fydd modd mynd ato trwy'r gadwrfa ddigidol.
5. Nad oes unrhyw ymrwymiad gan Brifysgol Bangor i gymryd camau cyfreithiol ar ran y sawl sy'n cyflwyno'r gwaith, neu ddeiliaid hawliau eraill, os digwydd bod hawliau eiddo deallusol yn cael eu torri, neu unrhyw hawl arall yn y deunydd a gedwir.
6. Y byddaf yn indemnio ac yn cadw wedi ei indemnio Prifysgol Bangor a Llyfrgell Genedlaethol Cymru rhag ac yn erbyn unrhyw golled, atebolrwydd, hawl neu ddifrod, gan gynnwys yn ddigyfyngiad unrhyw ffioedd cyfreithiol a chostau llys cysylltiedig (ar sail indemniad llawn), sy'n gysylltiedig ar unrhyw achos lle'r ydw i wedi torri unrhyw amod yn y cytundeb hwn.

Llofnod: Dyddiad :

CRYNODEB

Cynigir yn y traethawd hir hwn ddadansoddiad o'r math o wallau a wneir yn gyffredin wrth gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, a hynny er mwyn galluogi'r rhai sy'n darparu hyfforddiant yn y maes i gynnig hyfforddiant pwrpasol, sydd wedi'i deilwra'n benodol i anghenion y diwydiant cyfieithu yng Nghymru.

Yn rhan gyntaf y traethawd (Penodau 1 & 2) rhoir gwybodaeth gefndir yr ymchwil. Trafodir, i ddechrau, y diwydiant cyfieithu yng Nghymru a'r heriau y mae'n eu hwynebu; cyflwynir wedyn yr ochr ddamcaniaethol, gan fanylu ar y cysyniad o 'ansawdd' a'r hyn a olygir gan 'wall' yng nghyd-destun cyfieithu.

Yn ail ran y traethawd cyflwynir yr ymchwil ei hun. Amlinellir ym Mhennod 3 y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr ymchwil, sef methodoleg wedi'i seilio ar ieithyddiaeth gorpws, a disgrifir cynnwys y corpws cyfochrog a grëwyd at ddiben y prosiect hwn. Wedyn, yn y ddwy bennod nesaf cynigir dadansoddiad meintiol ac ansoddol o'r gwallau systematig a welwyd yn y corpws, gan ymdrin â gwallau 'iaith' ym Mhennod 4 a gwallau 'cyfieithu' ym Mhennod 5. Trafodir achoseg bosibl y gwallau a'r gwahaniaethau a welir rhwng gwaith cyw gyfieithwyr a gwaith cyfieithwyr profiadol, gan ystyried y goblygiadau o ran hyfforddi cyfieithwyr.

Mae'r traethawd yn cloi, ym Mhennod 6, drwy grynhoi canfyddiadau'r ymchwil, cyn nodi sawl maes lle y gellid gwneud ymchwil pellach.

DIOLCHIADAU

Ariannwyd yr ymchwil hwn gan ysgoloriaeth KESS ac felly mae'n rhaid i fi ddiolch yn gyntaf oll i Lywodraeth Cymru, yr Undeb Ewropeaidd a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru am eu nawdd. Hoffwn ddiolch hefyd i Mrs Nia Wyn Jones, Mr Geraint Wyn Parry, Mr Berwyn Prys Jones a Dr Fiona Gannon o'r Gymdeithas am eu croeso cynnes iawn a'u cymorth parod wrth i'r ymchwil fynd rhagddi. Yn yr un modd, dymunaf ddiolch i Mrs Judith Hughes, Swyddog Gweinyddol Canolfan Bedwyr, am ei help ymarferol drwy gydol y PhD, ond yn enwedig yn ystod fy ymweliadau niferus â Bangor.

Mae fy niolch pennaf, fodd bynnag, i bwyllgor arolygu'r ymchwil, sef Mrs Delyth Prys, Dr Judith Kaufmann a Dr Peredur Davies. Mawr yw fy nyled iddynt am eu cyfarwyddyd cadarn, eu cyngor doeth a'u parodrwydd bob amser i gwrdd, darllen a thrafod y gwaith. Bu yn gymorth amhrisiadwy wrth i mi geisio rhoi trefn ar fy syniadau. Diolchaf hefyd i Mr Robat Trefor, a ymunodd â nifer o gyfarfodydd y pwyllgor, am ei sylwadau craff yntau a'i ddiddordeb yn yr ymchwil. Rwy'n teimlo'n ffodus dros ben fy mod wedi cael cwmni grŵp o bobl mor wybodus, brwdfrydig, a chlên dros y tair blynedd diwethaf.

Last, but not least, I would like to thank my dear parents, Colin and Jean Wooldridge, for their constant support, encouragement and help — in so many different ways. I honestly couldn't have done this without you.



CYNNWYS

Datganiad a chaniatâd	2
Crynodeb	5
Diolchiadau	6
Cynnwys	7
Rhestr tablau a ffigyrau	10
Byrfoddau	12
1. RHAGYMDRODD	13
1.1 Nod yr ymchwil	13
1.2 Rhesymau dros gynnal yr ymchwil	14
1.2.1 Cyfieithu yng Nghymru: diffyg rheoleiddio	15
1.2.2 Cyfieithu yng Nghymru: diffyg hyfforddiant	20
1.3 Trosolwg o'r ymchwil	24
2. AROLWG O'R LLENYDDIAETH	26
2.1 Casglu sampl o iaith wallus	27
2.2 Adnabod a nodi gwallau	28
2.2.1 Theori cyfieithu	29
2.3 Disgrifio a chategoreiddio gwallau	31
2.3.1 Achoseg gwallau	32
3. METHODOLEG	34
3.1 Creu'r corpws cyfochrog	35
3.1.1 Casglu'r sampl	35
3.1.2 Moeseg	43
3.2 Dadansoddi'r data	44

3.2.1	Adnabod/nodi'r gwallau	45
3.2.2	Cyfrif y gwallau	47
3.3	Pennu confensiynau o ran cyflwyno'r data	47
3.3.1	Dyfynnu o'r corpws cyfochrog	47
3.3.2	Dewis termau gramadegol	48
3.4	Nodi cyfyngiadau'r ymchwil	48
4.	CANLYNIADAU I: GWALLAU IAITH	50
4.1	Gwallau treiglo	51
4.1.1	Camdreiglo	52
4.1.2	Diffyg treiglo	55
4.2	Gwallau cystrawennol	62
4.2.1	Camddefnydd o'r fannod	62
4.2.2	Llunio is-gymalau	69
4.2.3	Cyflenwi berfau (ac enwau ac ansoddeiriau)	76
4.3	Gwallau orgraffyddol	78
4.3.1	Camdeipio	79
4.3.2	Camsillafu	81
4.3.3	Cam-atalnodi	88
5.	CANLYNIADAU II: GWALLAU CYFIEITHU	93
5.1	Enwau	96
5.1.1	Ymadroddion enwol	96
5.1.2	Cyfatebiaeth enwau S. a berfenwau C.	99
5.1.3	Cyfatebiaeth enwau unigol/lluosog	99
5.2	Ansoddeiriau	102

5.2.1	Ansoddeiriau sy'n dangos cenedligrwydd	102
5.2.2	Cyfatebiaeth ffurf gymharol S. a ffurf eithaf G.	102
5.3	Berfau ymadroddol	103
5.4	Priod-ddulliau a throsiadau	104
6.	DIWEDDGLO	110
6.1	Crynodeb o'r canlyniadau	110
6.2	Ymchwil pellach posibl	112
	LLYFRYDDIAETH	114
	ATODIADAU	125
	Atodiad 1: Canllawiau i ymgeiswyr arholiadau CCC Cyf	126
	Atodiad 2: Esiampl o adroddiad unigol gan Fwrdd Arholi CCC Cyf	132
	Atodiad 3: Esiampl o adroddiad gan Brif Arholwr CCC Cyf	133
	Atodiad 4: Y darnau Saesneg [1-18 AS; 19-36 AG]	134
	Atodiad 5: Noddwyr yr ymchwil	155

RHESTR TABLAU A FFIGYRAU

Tablau

Tabl 1	Cynnwys y sampl	37
Tabl 2	Y darnau Saesneg (AS)	39
Tabl 3	Y darnau Saesneg (AG)	40
Tabl 4	Nifer y gwallau treiglo	52
Tabl 5	Y treigladau	53
Tabl 6	Nifer y gwallau cystrawennol	62
Tabl 7	Nifer y gwallau orgraffyddol	79
Tabl 8	Nifer y gwallau o ganlyniad i gyfieithu llythrennol	95

Ffigyrau

Ffigwr 1	Cyfraddau llwyddo yn arholiadau CCC Cyf (AS)	18
Ffigwr 2	Cyfraddau llwyddo yn arholiadau CCC Cyf (AG)	19
Ffigwr 3	Yr hyfforddiant a gafwyd gan aelodau CCC Cyf (cyn ymaelodi)	21
Ffigwr 4	Astudiaeth achos A	29
Ffigwr 5	Astudiaeth achos B	30
Ffigwr 6	Astudiaeth achos C	31
Ffigwr 7	Y corpws cyfochrog	38
Ffigwr 8	Y broses o ddwbl-anonymeiddio	44
Ffigwr 9	Enghraifft o waith marcio Arholwr A	45
Ffigwr 10	Enghraifft o waith marcio Arholwr B	46
Ffigwr 11	Enghraifft o waith marcio Arholwr C	46
Ffigwr 12	Dyfynnu o'r corpws	47

Ffigwr 13	Coeden wallau, cainc 1: Gwallau iaith	50
Ffigwr 14	Enghraifft o Cysill ar waith	58
Ffigwr 15	Brawddeg gymhleth	71
Ffigwr 16	Coeden wallau, cainc 2: Gwallau cyfieithu	93
Ffigwr 17	Trafodaeth am 'eich barnau' ar W-T-C	101

BYRFODDAU

AG	Aelod/Aelodaeth Gyflawn
APAAG	Adroddiad y Prif Arholwr (Aelodaeth Gyflawn)
APAAS	Adroddiad y Prif Arholwr (Aelodaeth Sylfaenol)
AS	Aelod/Aelodaeth Sylfaenol
C.	Cymraeg
CCC Cyf	Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
cyf.	cyfrol
e.e.	er enghraifft
G	arholiadau'r Gwanwyn
gol.	golygydd, golygwyd gan
GPC	Geiriadur Prifysgol Cymru
gw.	gweler
GyrA	Geiriadur yr Academi
H	arholiadau'r Hydref
ll.	lluosog, llinell
llau.	llinellau
OED	<i>Oxford English Dictionary</i>
rhn./rn.	rhywun/rywun
S.	Saesneg
S-C	(cyfieithu) Saesneg i Gymraeg
ST	Testun Ffynhonnell (<i>Source Text</i>)
td.	tudalen
TLI	treigladd laes
TM	treigladd meddal
tt.	tudalennau
TT	Testun Targed (<i>Target Text</i>)
W-T-C	Fforwm trafod Welsh-Termau-Cymraeg

PENNOD 1

RHAGYMADRODD

1.1 Nod yr ymchwil

Prif nod yr ymchwil hwn yw cyflwyno dadansoddiad o'r gwallau a geir mewn cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg (S-C), a hynny er mwyn galluogi'r rhai sy'n cynnig hyfforddiant yn y maes i gynnig hyfforddiant pwrpasol, sydd wedi'i deilwra'n benodol i anghenion y diwydiant cyfieithu yma yng Nghymru.

Un o sgîl-ffeithiau'r nod hwn fydd darganfod mwy am yr hyn sy'n digwydd wrth gyfieithu i iaith leiafrifol.¹ Mae ieithoedd lleiafrifol wedi cael eu hesgeuluso i raddau helaeth iawn gan ymchwilwyr ac ysgolheigion ym maes astudiaethau cyfieithu, fel y noda Cronin (1995: 94):

Translation theory itself remains hostage to the perceptions and interests of major languages ... Translation conferences are generally noteworthy for the lack of attention paid to minority languages and the dominance of theories predicated on the historical experience and insights of the translation triumvirate, English, French and German.

Bydd tystiolaeth o'r hyn sy'n digwydd wrth gyfieithu i'r Gymraeg, felly, yn gyfraniad pwysig i'r maes.

I gyrraedd y nod hwn, bydd gan y prosiect dri phrif amcan. Yn y lle cyntaf, mae ganddo amcan empirig o greu corpws cyfoes o gyfieithiadau S-C, a hynny er mwyn casglu'r data a fydd yn sylfaen i'r gwaith dadansoddi. Yn ail, drwy ddefnyddio methodoleg wedi'i seilio ar ieithyddiaeth gorpws, amcenir at gynnal dadansoddiad meintiol ac ansoddol o'r gwallau a geir yn y corpws. Ac yn olaf, bwriedir categorioedd a phroffilio'r gwallau gan ystyried eu cyd-destun ehangach, sef trosi i iaith leiafrifol, a'r heriau sy'n codi o'i herwydd.

Ymhlith y cwestiynau ymchwil y bydd y gwaith yn mynd i'r afael â nhw, felly, fydd y canlynol:

¹ Esbonia Kaufmann (2009: 54) fod 'lleiafrifol' "yn derm eiddil sydd yn disgrifio sefyllfa gymdeithasol a gwleidyddol iaith mewn cymhariaeth â statws iaith arall (sy'n gymydog iddi ac a siaredir yn yr un ardal). Nid yw 'lleiafrifol' yn derm sy'n mynegi barn ar werth yr iaith."

- Pa gategorïau o wall sydd fwyaf cyffredin yng ngwaith cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg? A oes patrwm i'r gwallau? Ac a oes modd dirnad achosog y gwallau?
- Ydy cyfieithwyr profiadol yn tueddu i wneud gwallau gwahanol i gyw gyfieithwyr, ynteu ydy hi'n fater o gyfieithwyr profiadol yn gwneud yr un gwallau ond llai ohonynt?
- O gofio natur y cyfieithu, hynny yw cyfieithu o iaith fwyafrifol i iaith leiafrifol, a oes mwy o wallau iaith yng ngwaith cyfieithwyr Cymru na gwallau cyfieithu?

Yn hyn o beth bydd yr ymchwil yn adeiladu ar brosiect ymchwil arall a gyflawnwyd gan yr un ymchwilydd, gw. Wooldridge (2011), lle cynigiwyd dadansoddiad o gategori arbennig o wallau a geir mewn cyfieithiadau Cymraeg, sef y gwallau hynny sy'n digwydd oherwydd ymyrraeth gan y testun Saesneg a gyfieithir. Disgrifiwyd y gwaith hwnnw gan yr arholwyr fel un "arloesol, a dorrodd dir newydd" a mawr y gobeithir y bydd yr ymchwil newydd hwn yn ymestyn y maes ymhellach ac yn esgor ar drafodaeth ehangach ar natur a realiti cyfieithu yn y Gymru sydd ohoni.

Ond cyn dechrau arni, mae'n bwysig amlinellu cefndir y gwaith a'r rhesymau dros gynnal y prosiect ymchwil penodol hwn.

1.2 Rhesymau dros gynnal yr ymchwil

Yn 1966, pan benodwyd y cyfieithydd amser-llawn cyntaf gan y Swyddfa Gymreig, mae'n annhebyg y byddai neb wedi gallu rhagweld y twf aruthrol sydd wedi bod ers hynny yn y sector cyfieithu yng Nghymru.²

Erbyn heddiw, mae'n "sector sylweddol" yn economi'r wlad (Prys et al. 2009: 4), gyda channoedd o gyfieithwyr ar hyd a lled y wlad — unigolion llawrydd a gweithwyr cyflogedig fel ei gilydd — yn ennill bywoliaeth drwy drosi rhwng y Saesneg a'r Gymraeg (Jones 2005b: 8). Yn wir, mae Berwyn Prys Jones, Cadeirydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru tan 2013, wedi disgrifio bwrlwm y sector fel a ganlyn (Jones 2005a: 6):

² Wrth sôn yn y traethawd hwn am 'y sector/diwydiant/proffesiwn cyfieithu yng Nghymru', cyfeirir bob amser at gyfieithu Saesneg-Cymraeg-Saesneg. Caiff nifer o ieithoedd eraill eu cyfieithu yn y Gymru sydd ohoni, wrth reswm, ond rhwng y Saesneg a'r Gymraeg y mae'r rhan fwyaf o gyfieithwyr yn trosi (Prys et al. 2009: 10). Â gwaith y cyfieithwyr hyn, a'r cyfieithwyr hyn yn unig, y mae a wnelo'r ymchwil.

O ystyried yr holl waith sy'n cael ei wneud ym myd cyfieithu, mae'n ddigon posibl bod mwy'n cael ei gyfieithu heddiw mewn diwrnod nag a gyfieithwyd mewn canrif a rhagor gynt.³

Ymddengys i bob golwg, felly, fod gan Gymru ddiwydiant cyfieithu ffyniannus a gweithgar. Ond o grafu dan yr wyneb, gwelir o leiaf ddau ddiffyg y mae angen i'r sector fynd i'r afael â nhw os ydy'r diwydiant am ddatblygu'n effeithiol a sicrhau ansawdd y cyfieithiadau a gynhrychir o ddydd i ddydd.

Yn gyntaf, ceir diffyg rheoleiddio yn y sector, sy'n golygu y gall unrhyw un ymsefydlu'n gyfieithydd heb unrhyw brofiad yn y maes a heb unrhyw gymwysterau cyfieithu ychwaith. Yn ail, hyd yn oed pan fydd rhywun yn ystyried hyfforddi cyn ymsefydlu'n gyfieithydd, nid oes bob amser hyfforddiant addas ar gael (Jones 2005a: 7).

Ymhelaethir ar y ddau ddiffyg hyn yn 1.2.1 a 1.2.2 isod, gan ddangos sut maent wedi sbarduno'r ymchwil hwn.

1.2.1 Cyfieithu yng Nghymru: diffyg rheoleiddio

Gall pawb sy'n medru dwy iaith gyfieithu. Yn wir, cyfeirir at bobl ddwyieithog yn aml fel 'cyfieithwyr naturiol'.⁴ Ond nid yw hynny'n golygu y gall pawb sy'n ddwyieithog gyfieithu i'r un safon ac yn sicr ni all pawb gyfieithu'n broffesiynol (Pym 2011: 475). Gwyddys, er enghraifft, fod gallu ieithyddol pobl ddwyieithog yn amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar nifer fawr o ffactorau megis oedran caffael y ddwy iaith a'r peuoedd y mae'r ieithoedd yn cael eu defnyddio ynddynt.⁵ Ar wahân i hynny, mae angen ystod eang o sgiliau anieithyddol i fedru cyfieithu'n broffesiynol, megis meddu ar wybodaeth ddiwylliannol a'r gallu i ymchwilio i drawstoriad o bynciau (Newmark 1991: 49-50), yn ogystal â bod yn drylwyr a chreadigol (Presas 2000: 28). Fel y mae Chriss (2006: 14) yn datgan:

³ Am grynodeb hwylus a hynod ddifyr o hanes cyfieithu yng Nghymru gw. erthygl Jones (2005a) a hefyd Kaufmann (2009: 17-42) ac Andrews (2010: 17-75).

⁴ Cyflwynwyd y cysyniad o 'traduction naturelle' gyntaf gan Brian Harris i ddisgrifio gallu pobl ddwyieithog i gyfieithu heb hyfforddiant, gw. Harris (1973) am fwy o wybodaeth. Yn Ffrangeg yn unig.

⁵ Am ddisgrifiad o'r graddau o ddwyieithrwydd sy'n bodoli, a'r ffactorau sy'n chwarae rhan wrth eu pennu, gw. Baker, C. (2011: 2-17).

A good translator is by definition bilingual. The opposite is not necessarily true, however. A born and bred bilingual will still need two things to become a translator: first, the skills and experience necessary for translation; second, knowledge of the field in which he or she will translate.

Ond eto disgwylir i bobl ddwyieithog wneud bob math o gyfieithu heb eu bod yn gymwys i'w wneud, fel y noda Gouadec (2007: 101):

Translations are ... frequently carried out by people with some vague knowledge of languages but lacking any kind of training or qualification in translation. It is a well known fact that, in many companies, translations are done by whoever happens to be free or willing to do the work: the manager's personal secretary ... an engineer or technician who is "*perfectly bilingual*".

Yng Nghymru, lle mae 14.6% o'r boblogaeth yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg⁶ a Saesneg,⁷ mae'r sefyllfa a ddisgrifir gan Gouadec yn gyfarwydd ac yn un a ddaw â phob math o broblemau o ran ansawdd y gwaith a gynhrychir. Yn wir, mae cyfieithwyr proffesiynol wedi bathu'r ymadrodd 'The Welsh speaker in the office' wrth gyfeirio at y cyfieithwyr 'naturiol' hyn, gyda Berwyn Prys Jones yn datgan, "Does neb sy'n beryclach na'r *Welsh-speaker in the office!*" (W-T-C 28.10.2002). Cadarnheir hyn yn y strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygu'r proffesiwn cyfieithu Cymraeg/Saesneg a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith (2006: 11):

Gwelir gwaith cyfieithu yn llawer rhy aml yn cael ei gyflawni gan yr unig berson sy'n digwydd bod yn medru siarad Cymraeg. Disgwylir i'r siaradwr Cymraeg fedru cyflawni'r gwaith heb unrhyw hyfforddiant, ac yn aml heb gael unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol am wneud hynny. Y mae hyn yn niweidiol i swydd y cyfieithydd ac i'r iaith fel ei gilydd.

Cyfyd y broblem, yn y bôn, o achos y diffyg rheoleiddio yng Nghymru, gyda swydd y cyfieithydd yn cael ei dibrisio o'i herwydd. Ond nid yn unig y cyflogwyr a'r comisiynwyr cyfieithu sydd yn euog o beidio â deall a pharchu gwaith y cyfieithydd, ond yn aml iawn y rhai sy'n gwneud y cyfieithu hefyd. Ceir ledled Cymru gyfieithwyr sy'n

⁶ Ystadegau o gyfrifiad 2011. Gw. gwefan Swyddfa Ystadegau Gwladol yn <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/cyfrifiad-2011/ystadegau-allweddol-ar-gyfer-awdurdodau-unedol-yng-nghymru/stb-2011-key-statistics-for-wales---welsh.html#tab---Medrusrwydd-yn-y-Gymraeg> Cyrchwyd 2.08.2014.

⁷ Mae nifer y Cymry Cymraeg sydd hefyd yn medru'r Saesneg wedi bod yn cynyddu yn raddol yng Nghymru ers dechrau'r ugeinfed ganrif. Yn 1901 roedd y gyfradd yn 69.8%, erbyn 1981 roedd wedi codi i 95.8% ac erbyn cyfrifiad 1991 rhagdybiwyd y gallai pob Cymro Cymraeg fedru'r Saesneg yn ogystal (Davies 2010: 17).

ennill eu bywoliaeth drwy drosi rhwng y Saesneg a'r Gymraeg ond sydd heb eu hyfforddi yn y maes ac sydd heb fod yn aelodau o unrhyw gorff proffesiynol — mae diffyg rheoleiddio yng Nghymru, fel mewn gwledydd eraill, yn golygu nad oes rhaid ymaelodi â chorff proffesiynol cyn ymsefydlu'n gyfieithydd a cheir, felly, y sefyllfa a ddisgrifir isod gan Jones (2005a: 7):

Gall unrhyw Dwm, Dic a Harri – ac ambell Anwen, Llinos a Meleri – ymhoni'n gyfieithydd a chael tomen o waith fwy neu lai dros nos gan gymaint y pwysau am gyfieithiadau.

Mae'n amhosibl gwybod faint yn union o gyfieithwyr sydd yn y categori hwn ac nid yw'n bosibl sicrhau safon gwaith y cyfieithwyr hyn, heb sôn am wneud arolwg ohonynt, er y cydnabyddir bod nifer o unigolion sy'n cyfieithu i safon uchel nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn aelodau o gorff proffesiynol.

Serch hynny, ceir cyfieithwyr yng Nghymru sydd yn ymaelodi â chorff cyfieithu proffesiynol. Ceir tri sefydliad sy'n derbyn cyfieithwyr Saesneg/Cymraeg, sef Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (CCC Cyf),⁸ The Chartered Institute of Linguists⁹ a The Institute of Translation and Interpreting.¹⁰ Dynaid yn unig o gyfieithwyr Cymru sydd yn aelodau o'r ddau sefydliad olaf, ond mae CCC Cyf yn denu cyfieithwyr o Gymru gyfan a'r tu hwnt. Fe'i sefydlwyd ym 1976 gyda'r nod o "sicrhau safonau proffesiynol ym maes cyfieithu Cymraeg/Saesneg a sicrhau hefyd fod y diwydiant cyfieithu'n datblygu'n effeithiol fel rhan o'r broses o hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd".¹¹ Erbyn hyn, mae gan y Gymdeithas 335 o aelodau unigol.¹² O'r cyfanswm hwnnw, mae 194 yn Aelodau Cyflawn, 126 yn Aelodau Sylfaenol a 71 (15)¹³ yn Aelodau Cyfieithu ar y Pryd.

Drwy arholiad yn unig y gall cyfieithwyr ymaelodi â CCC Cyf, a thra bod nifer o gyfieithwyr yn llwyddo yn yr arholiadau, fel y nodwyd uchod, ceir hefyd nifer fawr o gyfieithwyr sydd yn ymgeisio ond sydd yn methu'r arholiadau. Dengys Ffigur 1 isod, er enghraifft, y cyfraddau llwyddo yn arholiadau Aelodaeth Sylfaenol y Gymdeithas dros

⁸ Gw. <http://www.cyfieithwycymru.org.uk>

⁹ Gw. <http://www.ciol.org.uk>

¹⁰ Gw. <http://www.iti.org.uk/>

¹¹ Gw. gwefan y Gymdeithas yn <http://www.cyfieithwycymru.org.uk/> Cyrchwyd 4.09.2014.

¹² Gwybodaeth gan Swyddfa CCC Cyf. Nifer yn gywir ar 4.09.2014.

¹³ Mae'r ffigur rhwng cromfachau yn dynodi nifer yr aelodau sy'n Aelodau Cyfieithu ar y Pryd yn unig. Mae'r lleill naill ai'n Aelodau Cyflawn neu'n Aelodau Sylfaenol hefyd.

gyfnod o 3 blynedd o 2009 i 2011, sef union gyfnod yr ymchwil hwn. Dyma'r lefel broffesiynol sylfaenol i gyfieithwyr testun sydd ar ddechrau eu gyrfaedd ac sydd yn cael eu harolygu gan gyfieithwyr profiadol ers blwyddyn a rhagor. Cynhelir yr arholiadau ddwywaith y flwyddyn fel arfer ac fel y gwelir, 50% oedd y ganran llwyddo uchaf yn yr arholiadau, a hynny yn arholiadau'r Gwanwyn 2010, ond roedd y ganran wedi cwmpo i 11% erbyn arholiadau'r Hydref y flwyddyn honno.

Nid oes modd dweud i sicrwydd pam y ceir y fath amrywio yn y cyfraddau llwyddo o rownd i rownd, ac o flwyddyn i flwyddyn, ond gwyddys bod nifer o gyfieithwyr yn dewis ailymgeisio yn y rownd neu'r flwyddyn olynol ac mae'n ddigon posibl, felly, fod y cyfieithwyr hyn yn trefnu hyfforddiant cyn ailymgeisio (a llwyddo), gan wthio'r cyfraddau llwyddo i fyny yn y rownd honno.

Mae'n bosibl hefyd fod y darnau Saesneg a osodir yn yr arholiadau yn dylanwadu ar y cyfraddau llwyddo. Gall pwnc neu eirfa darn mewn un rownd fod yn anghyfarwydd neu'n astrus, er enghraifft, gan achosi problemau mawr i'r ymgeiswyr, tra gall darn mewn rownd arall siwtio'r ymgeiswyr yn well. Yn ôl y Prif Arholwr, dewisir un darn ar bob papur arholiad i adlewyrchu'r gorchwylion y gallai cyfieithydd profiadol eu disgwyl yn ei waith bob dydd, ond dewisir darn arall nad yw o reidrwydd yn debyg i waith beunyddiol y cyfieithydd, a hynny oherwydd bod disgwyl i ymgeiswyr am gymhwyster proffesiynol mewn cyfieithu allu ymdopi gydag unrhyw ddarn (APAAG09G).

Ond hyd yn oed os ydy'r ffactorau hyn yn esbonio rhywfaint ar yr amrywio yn y cyfraddau llwyddo, erys y ffaith fod y cyfraddau'n dal i fod yn isel, fel y gwelir isod:

Ffigwr 1: Cyfraddau llwyddo yn arholiadau testun Saesneg-Cymraeg CCC Cyf (AS)


2009 (G)	2009 (H)	2010 (G)	2010 (H)	2011 (G)
27%	33%	50%	11%	23%

Ffynhonnell: Gwefan Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru¹⁴

¹⁴ Gw. Adroddiadau'r Prif Arholwr am y blynyddoedd perthnasol, sydd ar gael yn http://www.cyfieithwycymru.org.uk/cyn_bapurau-40.aspx Cyrchwyd 16.09.2014.

Ceir darlun tebyg iawn o edrych ar ganlyniadau'r arholiadau Aelodaeth Gyflawn a gynhaliwyd yn ystod yr un cyfnod, ond yn achos yr arholiadau hyn cafwyd un rownd (Gwanwyn 2011) pan fethodd pob un ymgeisydd (gw. Ffigwr 2 isod). Dyma'r lefel broffesiynol i gyfieithwyr testun sydd â thair blynedd o brofiad o gyfieithu'n amser-llawn, neu sydd â phrofiad cyfatebol o gyfieithu'n rhan-amser. Disgwylir iddynt allu gweithio heb unrhyw oruchwyliaeth a'u bod yn gallu cynhyrchu cyfieithiadau sy'n barod i'w hanfon at y cwsmer heb fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Ffigwr 2: Cyfraddau llwyddo yn arholiadau testun Saesneg-Cymraeg CCC Cyf (AG)



Ffynhonnell: Gwefan Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru¹⁵

Mae'n eglur, felly, fod y diwydiant cyfieithu yng Nghymru yn wynebu sawl her o ran codi statws y proffesiwn, cynnal safonau proffesiynol a sicrhau bod y diwydiant yn datblygu'n effeithiol. Ond sut mae rhywun dwyieithog, sydd yn gyfieithydd 'naturiol', yn llwyddo i ddod yn gyfieithydd proffesiynol?

Ceir ambell ymarferwr ac ymchwilydd yn y maes sydd yn dadlau bod rhaid geni dyn yn gyfieithydd. Hynny yw, credant fod rhai pobl ddwyieithog yn meddu ar y ddawn i allu cyfieithu i safon uchel tra bo pobl eraill heb feddu arni, gw. er enghraifft, sylwadau Nida yn ei erthygl o dan y teitl 'Translators are born not made' (1981) ac eto yn (2001: 88) isod. Mae arddel y fath farn yn golygu na welir gwerth mewn hyfforddiant cyfieithu:

... some people seem to have a special gift for interlingual communication, and without any formal training in translating they become first-rate translators. They appear to have an exceptional aptitude for effective interlingual communication, and they simply do not need years of training.

Fodd bynnag, er nad oes gwadu'r ffaith y gall rhai pobl gyfieithu i safon uchel heb hyfforddiant, eithriadau ydynt. Fel arfer, mae'n rhaid i gyfieithwyr 'naturiol' gael

¹⁵ Gw. Adroddiadau'r Prif Arholwr am y blynyddoedd perthnasol, sydd ar gael yn http://www.cyfieithwycymru.org.uk/cyn_bapurau-40.aspx Cyrchwyd 16.09.2014.

hyfforddiant cyn gallu dod yn gyfieithwyr proffesiynol.¹⁶ Yng ngeiriau Pym (2011: 475), “We train people [bilinguals] not just to translate, which they can already do, but to translate *well* ...”.

A dyna'r broblem a geir yng Nghymru. Er bod digon o gyfieithwyr 'naturiol', nid oes bob tro hyfforddiant digonol ar gael iddynt, fel y trafodir yn yr adran nesaf.

1.2.2 Cyfieithu yng Nghymru: diffyg hyfforddiant

O gofio mai i iaith leiafrifol y mae cyfieithwyr Cymru yn trosi, efallai nad yw'n syndod bod diffyg hyfforddiant cyfieithu i'w gael. Oherwydd, fel yr esbonia Raine (2011: 126), mae'n beth cyffredin i siaradwyr ieithoedd lleiafrifol gael eu hesgeuluso pan ddaw hi'n fater o hyfforddiant cyfieithu, a hynny o achos statws is yr iaith leiafrifol a nifer lai o siaradwyr i ofyn am y fath hyfforddiant:

Minority language users are often among the least served in terms of translator training programmes, due to their language's weakened status in relation to the major language, as well as to the mere fact of having a smaller population to demand such training.

Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na ddarperir unrhyw hyfforddiant cyfieithu o gwbl. Yn wahanol i ddyddiau cynnar cyfieithu yng Nghymru, pan fu rhaid i'r ychydig gyfieithwyr a fu ddysgu eu hunain fel petai,¹⁷ dangosodd arolwg diweddar o aelodau CCC Cyf bod nifer yn eu plith wedi cael rhywfaint o hyfforddiant cyn ymaelodi â'r Gymdeithas, fel y dengys Ffigur 3 isod.

¹⁶ A phwysleisia *The Chartered Institute of Linguists* nad yw hyd yn oed meddu ar radd mewn ieithoedd yn hyfforddiant digonol, fel rheol. Yn ei lawlyfr i'r rhai sy'n ymgeisio am ei ddiploma mewn cyfieithu, sydd wedi ei derbyn fel cymhwyster safon aur ar gyfer cyfieithwyr proffesiynol ledled y byd, dywed: “It must be stressed that candidates, even those holding a degree in languages, generally require additional experience or training”.

Gw. <https://www.ciol.org.uk/images/Qualifications/DipTrans/DipTransHandbook.pdf>, tudalen 5. Cyrchwyd 16.09.2014.

¹⁷ Mae'n werth dyfynnu geiriau Mary Jones, Cadeirydd cyfredol CCC Cyf, wrth iddi roi teyrnged i Berwyn Prys Jones, a ymddeolodd fel Cadeirydd y Gymdeithas ym mis Medi 2013 wedi cyfnod o dros chwarter canrif yn y swydd: “Roedd Berwyn ... ymhlith y bobl gyntaf yng Nghymru i gael eu cyflogi fel cyfieithwyr Cymraeg. **Felly, bwriodd ei brentisiaeth fel cyfieithydd yn ystod y cyfnod pan oedd yn rhaid dysgu'r grefft o gyfieithu heb gymorth llawlyfrau na rhestri termau, na llawer o gefnogaeth o'r tu allan ychwaith.** (Adroddiad Blyneddol Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru 2013-14, td. 3. Heb ei gyhoeddi). Arloesodd y cyfieithwyr cynnar hyn yn y maes, a mawr yw dyled y proffesiwn cyfieithu yng Nghymru iddynt.

Ffigwr 3: Yr hyfforddiant a gafwyd gan aelodau CCC Cyf cyn ymaelodi â'r Gymdeithas

Hyfforddiant coleg/prifysgol

19%	• Modiwl cyfieithu
1%	• Gradd mewn astudiaethau cyfieithu
16%	• Tystysgrif/diploma mewn cyfieithu
2%	• Gradd Feistr mewn cyfieithu

Hyfforddiant yn y gweithle

14%	• Hyfforddiant strwythuredig yn y gweithle
37%	• Hyfforddiant <i>ad hoc</i> yn y gweithle
39%	• Gweithdy CCC Cyf
25%	• Darllen cyffredinol am gyfieithu
30%	• Defnyddio Welsh-Termau-Cymraeg
57%	• Trafod gyda chyfieithwyr eraill

Ffynhonnell: Wooldridge (2012: 39)

O edrych ar ganlyniadau'r arolwg, gwelir y ceir dau fath o hyfforddiant cyfieithu yng Nghymru, sef hyfforddiant academiaidd mewn coleg/prifysgol a hyfforddiant yn y gweithle, ac yn wir mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa a welir yn rhyngwladol ac a ddisgrifir gan Pym (2005: 3):

Many translators are still trained on-the-job; others learn a great deal from practicums; some are trained at postgraduate level (having done a first degree in something else), and still others are professionals who constantly retrain, taking a series of short-term courses. There is a whole range of possible training situations, some in universities, a lot outside universities, and an increasing number involve practitioners training practitioners.

Trafodir y ddau fath o hyfforddiant yn fanylach isod, ond mae'n bwysig cofio nad yw'r ddau yn gategorïau ar wahân mewn gwirionedd: nododd sawl cyfieithydd a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod wedi cael hyfforddiant coleg yn ogystal â

hyfforddiant yn y gweithle, ac yn yr un modd roedd nifer wedi manteisio ar fwy nag un o'r opsiynau hyfforddi ym mhob categori.

- *Hyfforddiant coleg/prifysgol*

Yn ôl canlyniadau'r arolwg a ddangosir yn Ffigur 3 uchod, 1% yn unig o aelodau CCC Cyf sydd wedi gwneud cwrs gradd israddedig mewn astudiaethau cyfieithu. Ond efallai nad yw hynny'n syndod o ystyried mai dim ond un cwrs a gaed yng Nghymru pan gomisiynwyd Merfyn Morgan gan CCC Cyf i adrodd ar gyrsiau cyfieithu yn 2010. Roedd y cwrs hwnnw ym Mhrifysgol Abertawe ac yn un gweddol newydd bryd hynny. Nododd Morgan (2010: 2) fod cyfieithu Cymraeg-Saesneg yn un o'r llwybrau a gynigiwyd yn Abertawe, ond "Ni wyddys faint o ddiddordeb a fu yn y llwybr hwnnw".

Fodd bynnag, mae sawl cwrs cyfieithu ôl-radd wedi cael eu cynnig ym mhrifysgolion Cymru dros y blynyddoedd a gwelir bod 2% o aelodau CCC Cyf wedi nodi bod ganddynt radd Feistr mewn cyfieithu. Ond yn fwy poblogaidd ymhlith cyfieithwyr oedd y cwrs ôl-radd 'Tystysgrif mewn cyfieithu' y mae Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor wedi ei gynnig ar y cyd ers sawl blwyddyn, gyda 16% yn adrodd eu bod wedi dilyn y cwrs.

Mae pob adran Gymraeg yn cynnig elfen neu fodiwl yn eu cyrsiau gradd israddedig sy'n ymdrin â chyfieithu Cymraeg-Saesneg, wrth reswm, ac roedd 19% o aelodau CCC Cyf wedi gwneud modiwl o'r fath, yn ôl yr arolwg.

- *Hyfforddiant yn y gweithle*

O droi at hyfforddiant yn y gweithle, nododd 37% o'r cyfieithwyr a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod wedi cael hyfforddiant *ad hoc* yn y gweithle cyn ymuno â CCC Cyf. Roedd nifer is, sef dim ond 14%, wedi elwa ar hyfforddiant strwythuredig yn y gweithle. Gwyddys o hysbysebion yn y wasg fod swyddi 'cyfieithwyr dan hyfforddiant' yn cael eu cynnig gan y sector o bryd i'w gilydd, swyddi sydd fel arfer yn darparu hyfforddiant strwythuredig, ond mae'n eglur o'r arolwg mai hyfforddiant *ad hoc* oedd y dull mwyaf cyffredin o'r ddau o ddysgu'r grefft o gyfieithu yn y gweithle.

Yn ddiddorol, nododd canran uchel o gyfieithwyr (57%) eu bod wedi dysgu wrth drafod gyda chyfieithwyr eraill, gyda 30% yn dweud eu bod wedi defnyddio Welsh-Termau-Cymraeg, sef fforwm trafod termau a geirfa ar y we y gall unrhyw un ymaelodi ag ef. Mae gan y fforwm 245 o aelodau ar hyn o bryd ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gyfieithwyr proffesiynol.¹⁸

Adroddodd chwarter o'r cyfieithwyr yn yr arolwg eu bod wedi darllen yn gyffredinol am gyfieithu fel rhan o'u hyfforddiant. Mae llwyth o lyfrau cyfieithu ar gael sy'n delio ag egwyddorion, strategaethau a heriau cyfieithu, wrth reswm, ond un llyfr yn unig a geir sydd yn ymdrin â chyfieithu i'r Gymraeg, sef llyfr gan Heini Gruffudd o'r enw *Dechrau cyfieithu*.¹⁹ Er bod y llyfr yn un gwerthfawr iawn, mae gwir angen llyfr cynhwysfawr ar y sector, fel y mae Gruffudd (2005: 3) ei hun yn nodi:

Nid oes gwerslyfr cyfieithu i'r Gymraeg ar gael ar hyn o bryd: mae angen dirfawr am lyfr o'r fath i oleuo'r rhai sydd â'u bryd ar gyfieithu. Yn niffyg hyn, y gobaith yma yw cynnig llyfryn hwylus a fydd o ddefnydd i fyfyrwyr ysgol a choleg ac eraill sydd am gychwyn ar gyfieithu, neu sydd am wella'u Gymraeg.

Yn olaf, gwelir bod 39% o aelodau CCC Cyf wedi elwa ar hyfforddiant mewn un o'r gweithdai a drefnwyd gan CCC Cyf, boed yn un o'u gweithdai cyfieithu dros y we neu yn un wyneb yn wyneb. Cynhelir y rhan fwyaf o'r gweithdai hyn mewn mwy nag un lleoliad yng Nghymru ac yn ystod 2013-14 roedd pynciau'r gweithdai'n cynnwys:²⁰

- Golygu'r gwallau mân
- Sicrhau cysondeb, cydlynid ac ergyd
- Cyfieithu peirianyddol
- Techneg llais (cyfieithu ar y pryd)

Mae'n eglur, felly, fod rhai cyfieithwyr proffesiynol Cymru (ond nid pob un o bell ffordd) wedi manteisio ar yr hyfforddiant sydd ar gael naill yn y gweithle neu yn y coleg.

¹⁸ Caiff y fforwm ei redeg gan yr Uned Technolegau Iaith yng Nghanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor. Diolch i Mrs Delyth Prys am gadarnhau nifer aelodau'r fforwm. Roedd y nifer yn gywir ar 27.10.2014.

¹⁹ Cymharer hyn â nifer y lyfrau cyfieithu sydd ar gael ar gyfer prif iaith megis Ffrangeg. Cafwyd, er enghraifft, hyd i restr hir o lyfrau cyfieithu Ffrangeg wrth deipio 'traduire', 'français' a 'traduction' ar wefan Amazon. (27.10.2014)

²⁰ Gw. Adroddiad Blynyddol Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru 2013-14, td. 6.

Ond erys y ffaith bod yr hyfforddiant hwnnw yn annigonol, yn enwedig wrth ystyried yr hyn sydd ar gael ar gyfer y prif ieithoedd. Mae Llywodraeth Cymru (2012: 50) wedi cydnabod hyn yn 'iaith fyw: iaith byw', sef ei dogfen strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg (2012-17), gan bwysleisio'r angen i fynd i'r afael â'r ddwy her sy'n wynebu'r diwydiant cyfieithu yng Nghymru, sef rheoleiddio a hyfforddiant:

Mae'r diwydiant [cyfieithu yng Nghymru] wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac rydym yn cydnabod bod angen parhau â'r gwaith hwn, gan wneud yn siŵr fod yna strwythurau achredu a rheoleiddio cadarn yn eu lle i sicrhau ansawdd. Yn ogystal â hynny, mae angen datblygu ymhellach yr hyfforddiant sydd ar gael i gyfieithwyr.

Mae pethau yn dechrau gwella, felly, ac mae'r prosiect ymchwil hwn yn rhan o'r datblygiadau a welir yn y maes (Wooldridge 2013: 31). Wedi amlinellu nod y prosiect hwn, ac wedi egluro'r rhesymau dros gynnal yr ymchwil, diwedda'r bennod gyntaf hon drwy gynnig trosolwg bras o'r hyn y bydd yr ymchwil yn ymdrin ag ef a strwythur y traethawd.

1.3 Trosolwg o'r ymchwil

Nid peth hawdd yw dadansoddi gwallau cyfieithu, a hynny yn bennaf oherwydd nad oes cytundeb ymhlith ymarferwyr ac ysgolheigion yn y maes ynghylch beth yn union a olygir gan y term 'gwall'.

Egyr y bennod nesaf, felly, drwy bwysu a mesur y llenyddiaeth yn y maes, gan ystyried y gwahanol safbwyntiau a geir parthed natur cyfieithu a'r cysyniad o ansawdd a derbynioldeb. Trafodir pwysigrwydd ystyried swyddogaeth a diben y cyfieithu a defnyddir tair astudiaeth achos i ddangos sut y gall rhywbeth a gaiff ei ystyried yn wallus mewn un cyfieithiad fod yn dderbyniol mewn cyfieithiad arall. Canolbwyntir wedyn ar sut y mae gwallau yn cael eu categoreiddio, gan ystyried eu hachoseg bosibl.

Ar ôl gosod y sylfaen ddamcaniaethol hon i'r gwaith a dangos cyfraniad yr ymchwil at y maes, cyflwynir yn y drydedd bennod y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal y prosiect ymchwil, sef methodoleg wedi'i seilio ar ieithyddiaeth gorpws. Disgrifir cynnwys y corpws cyfochrog a grëwyd at ddiben y prosiect, gan drafod yn fanwl y 36 o ddarnau Saesneg a'r 140 o gyfieithiadau Cymraeg a geir ynddo. Esbonnir

wedyn sut y dadansoddwyd a chategoreiddiwyd y gwallau cyn creu coeden wallau wedi'i hollti yn ddwy brif gainc, hynny yw Cainc 1: gwallau iaith a Chainc 2: gwallau cyfieithu.

Gan ymdrin â'r ddwy gainc mewn penodau ar wahân, cyflwynir ym Mhennod 4 y gwallau iaith a gafwyd yn y corpws wedi'u dilyn ym Mhennod 5 gan rai o'r gwallau cyfieithu. Cynigir dadansoddiad meintiol ac ansoddol o'r gwallau, gan ymdrin â phob gwall yn ei dro.

Mae'r traethawd yn cloi, ym Mhennod 6, drwy grynhoi canfyddiadau'r ymchwil, cyn awgrymu sawl maes lle y gellid gwneud ymchwil pellach.

PENNOD 2

AROLWG O'R LLENYDDIAETH

Tueddir i feddwl am wallau bob tro mewn termau negyddol, ond rhaid cofio bod hyd yn oed y cyfieithwyr gorau yn gwneud gwallau (Hung 2001: 187), a gall y gwallau hynny fod yn rhai difrifol weithiau (Séguinot 1990: 68, Mossop 2014: 19). A'r rheswm? Am fod cyfieithwyr yn fodau dynol, fel y mae Robinson (2011: 1) yn esbonio:

... translators make mistakes because all human beings make mistakes; because to err is human. Translators don't always know enough: they confuse the meaning of a sentence in the source text; they miss allusions; they fail to hear certain connotations or nuances of the target-language word or phrase they use.²¹

Mae gwallau hefyd, wrth reswm, yn rhan anhepgor o'r broses o ddysgu sut i gyfieithu'n broffesiynol (Al-Jarf 2007: 299), gan ddangos i'r cyfieithydd (a'i athro) lle mae bylchau yn ei wybodaeth a lle mae angen gwella.

Ond y tu hwnt i hynny, mae gwallau yn ffynhonnell bwysig iawn o wybodaeth i'r ymchwilydd a'r ieithydd (Spillner 1991: xi), gan amlygu'r prosesau sydd wrth wraidd cyfieithu. Fel yr eglura Séguinot (1990: 68): "Errors obviously tell us something about the quality of a translation, but they are also windows into the translating process itself." Nod unrhyw ddadansoddiad o wallau ym maes astudiaethau cyfieithu, felly, yw deall mwy am y broses gyfieithu a'r problemau a all godi.

Fel arfer, dilynir tri cham wrth ddadansoddi gwallau (Ellis 1999: 15-20), sef:

- casglu sampl o iaith wallus,
- adnabod a nodi'r gwallau a geir yn y sampl, a
- disgrifio a chategoreiddio'r gwallau.

Bwriedir yn y bennod hon edrych yn fanwl ar y tri cham hyn, a hynny er mwyn dod o hyd i enghreifftiau o arfer da yn y maes ac egwyddorion cyffredinol y bydd modd

²¹ Ceir, yn ogystal, gyfieithwyr 'peirianyddol', wrth gwrs, ond mae'r ymchwil hwn yn canolbwyntio ar gynnyrch cyfieithwyr dynol yn unig (er y byddai astudiaeth o'r gwallau a welir mewn cyfieithu peirianyddol S-C yn werthfawr hefyd).

eu haddasu a'u defnyddio wrth fynd ati i gynnal dadansoddiad o'r gwallau a geir yng ngwaith cyfieithwyr Saesneg-Cymraeg.

Egyr y bennod drwy ystyried sut y cesglir samplau o iaith wallus, gan ganolbwyntio ar faint a chynnwys y samplau sy'n cael eu defnyddio gan ymchwilwyr **(2.1)**. Wedyn, gan ystyried y gwahanol safbwyntiau a geir parthed natur cyfieithu a'r cysyniad o ansawdd a derbynioldeb, trafodir y problemau a geir wrth geisio adnabod a nodi gwallau. Dangosir, gyda chymorth tair astudiaeth achos, sut y gall rhywbeth a gaiff ei ystyried yn wallus mewn un cyfieithiad fod yn dderbyniol mewn cyfieithiad arall **(2.2)**. Ac i gloi'r bennod, trafodir sut y mae gwallau yn cael eu categorio **(2.3)**.

2.1 Casglu sampl o iaith wallus

Wrth fynd ati i ddadansoddi gwallau, mae'n rhaid dechrau drwy gasglu enghreifftiau o iaith wallus i'w rhoi mewn corpws (ll. corpora). Mae ystyr y term 'corpws' wedi newid dros y blynyddoedd (e.e. Francis 1982: 7 ac Atkins et al. 1992: 1), ond erbyn heddiw cytuna arbenigwyr yn y maes fod y term yn cyfeirio at gasgliad electronig o destunau (gan gynnwys trawsgrifiadau o iaith lafar) sydd wedi'u dewis i gynrychioli iaith benodol neu amrywiad ar iaith benodol (McEnery et al. 2006: 5).

Mae maint y corpora a ddefnyddir gan ymchwilwyr iaith wedi bod yn cynyddu'n gyson. Mae corpws 'The Bank of English', er enghraifft, yn cynnwys 450 miliwn o eiriau²² ac mae hyd yn oed y we fyd-eang wedi cael ei defnyddio fel corpws gan rai ymchwilwyr (Facchinetti 2007: 28). Ond mae'n rhaid pwysleisio nad rhywbeth newydd yw defnyddio corpora wrth ddadansoddi iaith; dim ond math a maint y corpora sy'n newydd.

Yn wir, gellir olrhain astudiaethau wedi'i seilio ar gorpora yn ôl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (Baker 2006: 2). Serch hynny, nid oedd astudiaethau o'u bath yn niferus ac erbyn pumdegau'r ganrif ddiwethaf taflodd Chomsky ac eraill amheuan difrifol ar y defnydd o gorpora. O ganlyniad i'r feirniadaeth honno, roedd astudiaethau wedi'u seilio ar gorpora yn weddol amhoblogaidd drwy gydol y chwedegau a'r saithdegau. Ond gyda dyfodiad cyfrifiaduron personol yn yr wythdegau, mae'r defnydd o gorpora wedi bod yn ffynnu (McEnery a Wilson 2001: 24-5). Mae meysydd megis

²² Gw. www.titania.bham.ac.uk/docs/svenguide.html. Cyrchwyd 21.11.2011.

ieithyddiaeth fforensig (Woolls a Coulthard 1998), gramadegu (Oostdijk a de Haan 1994), tafodieitheg (Biber 1988), geiriadura (McEnery a Wilson 2001: 106-9), dadansoddi llenyddiaeth (Louw 1997) a dysgu ieithoedd (Johns 1997) i gyd wedi astudio iaith ar sail corpws neu gorpora.

Mae'r defnydd o gorpora ym maes astudiaethau cyfieithu, ar y llaw arall, yn ddatblygiad gweddol newydd — yn rhannol oherwydd na chât cyfieithiadau eu hystyried fel rheol yn enghreifftiau o 'iaith go iawn', mewn gwledydd Saesneg eu hiaith beth bynnag. Dim ond ym 1993 yr awgrymodd Mona Baker y dylid eu defnyddio ym maes astudiaethau cyfieithu (Olohan 2004: 13). Fel y noda Laviosa (2002: 18):

Baker predicted that the availability of large corpora of both original and translated texts, together with the development of a corpus-driven methodology, would enable translation scholars to uncover “the nature of translated text as a mediated communicative event” through the investigation of what are known in the literature as the universals of translation.

Mae'r term “the universals of translation” yn cyfeirio at y nodweddion ieithyddol sy'n digwydd wrth gyfieithu, ond nid wrth ysgrifennu testunau gwreiddiol. Mae'r nodweddion hyn yn 'gyffredinol' oherwydd eu bod yn annibynnol ar yr iaith y cyfieithir ohoni neu iddi, nodweddion megis symleiddio a dadamwyso (S. 'disambiguation'). Cyfeiria “original texts” yng nghyd-destun corpora cyfieithu nid at destunau ffynhonnell (testunau i'w cyfieithu), ond at unrhyw destunau nad yw'n gyfieithiadau.

2.2 Adnabod a nodi gwallau

Nid peth hawdd yw dadansoddi gwallau cyfieithu. Yn y bôn, mae'n dibynnu ar sut y deallir y broses gyfieithu. Fel y noda House (1997: 1):

Different views of translation lead to different concepts of translational quality, and hence different ways of assessing it. In trying to make statements about the quality of a translation, one thus addresses the heart of any theory of translation, i.e., the crucial question of the nature of translation...

Ystyrir yn yr adran isod, felly, sut mae theori cyfieithu wedi datblygu dros y blynyddoedd.

2.2.1 Theori cyfieithu

Dechreuodd theori cyfieithu weld ansawdd yn nhermau ieithyddol/gramadegol a chynnal cyfatebiaeth. Felly, o ystyried astudiaeth achos A isod, byddai trosi'r lliw 'coch' yn 'yellow' yn y datganiad yn wall pendant, gan amharu ar ansawdd y cyfieithu.

Ffigwr 4: Astudiaeth achos A

Mae cyfieithydd, sy'n gweithio i Heddlu Dyfed-Powys, yn trosi datganiad gan aelod o'r cyhoedd am gar sydd wedi'i ddwyn. Mae'r datganiad Cymraeg yn nodi holl fanylion y car, gan gynnwys y lliw ('coch').

Mae'n hwyr yn y dydd ac mae'r cyfieithydd yn rhuthro i orffen y gwaith, ac mae'n teipio'r ansoddair 'yellow' yn lle 'red' yn ei gyfieithiad (efallai fod ei lygad wedi crwydro i le arall ar y dudalen lle *roedd* yr ansoddair 'melyn' wedi cael ei ddefnyddio).

Nid oes dwywaith nad yw hyn yn wall. Yn wir, mae'n wall difrifol iawn, oherwydd bod lliw y car yn gwbl ganolog i'r datganiad.

* * *

Rai wythnosau wedyn, mae'r un cyfieithydd yn trosi pwt bach o destun am barti blynyddol y staff — i'w gynnwys yng nghylchlythyr mewnol yr heddlu. Mae'r darn yn nodi, wrth fynd heibio bron, fod pennaeth un adran wedi cyrraedd y parti mewn car 'coch'. Yn anesboniadwy, mae'r cyfieithydd yn gwneud yr un camgymeriad eto.

Fodd bynnag, y tro hwn nid oedd lliw y car yn arwyddocaol o gwbl. Gellid dweud, felly, fod y gwall yn ddibwys ac yn wir ni fyddai rhai aseswyr yn ei gyfrif yn wall gan na fyddai'r darlennydd yn cael ei gamarwain o ran elfen bwysig o neges y darn.

Enghraifft – wedi'i haddasu - o Mossop (2014: 209)

Pwysleisiwyd swyddogaeth y cyfieithiadau wedyn (Theori Skopos, y pwysigrwydd o gyfathrebu) a chredid bod diben y cyfieithu yn fwy pwysig na chynnal

cyfatebiaeth ieithyddol. Felly, byddai cyfieithu'n llythrennol yn astudiaeth achos B isod yn wall. Byddai cyfieithiad llwyddiannus yn addasu'r testun i ddiben y gwaith.

Ffigwr 5: Astudiaeth achos B

Mae uned gyfieithu mewn sefydliad addysg uwch yng Nghymru yn derbyn fersiwn Saesneg o brosbectws blynyddol y sefydliad i'w gyfieithu.

Wrth ddechrau arni, mae'r cyfieithwyr yn sylwi bod tudalen gyfan yn y prosbectws yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i gyrraedd y sefydliad o wahanol meysydd awyr ac yn rhoi manylion am bellter y sefydliad o Lundain.

Byddai gwybodaeth o'r fath honno yn bwysig iawn i ddarpar fyfyrwyr rhyngwladol sy'n ystyried mynd i astudio yno. Ond beth am y cyfieithiad?

Mae un o'r cyfieithwyr yn dadlau bod rhaid cyfieithu'r hyn sydd yn y prospectws heb newid dim, tra bo cyfieithydd arall yn mynnu bod angen addasu'r testun i adlewyrchu'r gynulleidfa wahanol. Diben y prosbectws Cymraeg yw denu'r Cymru Cymraeg i'r sefydliad, ac felly byddai tudalen yn brolio datblygiadau ym maes dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy gwerthfawr.

Enghraifft wedi'i seilio ar wybodaeth o'r byd cyfieithu proffesiynol yng Nghymru.

Erbyn y 1990au ychwanegwyd elfennau o ddealltwriaeth ddiwylliannau wrth asesu ansawdd cyfieithu a dengys Astudiaeth achos C isod sut y disgwylir i gyfieithwyr ystyried y diwylliant penodol y llunnir y cyfieithiad ar ei gyfer.

Ffigwr 6: Astudiaeth achos C

Mewn diwylliannau Saesneg eu hiaith caiff dydd Gwener y trydydd ar ddeg ei ystyried yn ddiwrnod sy'n dwyn anlwc. Ond nid yw hynny'n wir ym mhobman. Mewn diwylliannau Sbaeneg eu hiaith, er enghraifft, credir mai *dydd Mawrth* y trydydd ar ddeg yw'r diwrnod anlwcus.

Wrth gyfieithu 'Friday the 13th' i'r Sbaeneg, felly, mae'n rhaid i'r cyfieithydd fod yn ofalus. Os bydd y testun yn cyfeirio at ddyddiad yn y calendr, yna fydd 'viernes y 13' (dydd Gwener y 13) yn gwneud y tro, e.e. 'John is going to stay in Madrid on Friday the 13th before flying home'. Fodd bynnag, os bydd y testun yn cyfeirio at anffawd yna byddai'n well ei drosi yn 'martes y 13' (dydd Mawrth y 13), e.e. 'John stayed in all day because it was Friday the 13th and he had always been superstitious.'

Enghraifft wedi'i seilio ar drafodaeth yn Pym (2007: 273)

Yn reddfol, wrth gwrs, mae cyfieithwyr profiadol yn asesu'r elfennau hyn i gyd ar yr un pryd, ac efallai hyd yn oed heb fod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhyngddynt. Yn arwyddocaol, mae'r diwydiant wedi llwyddo i gyfuno'r gwahanol safbwyntiau hyn o ran ansawdd, fel a ganlyn:

For a translation to be deemed 'professionally usable', it should clearly be of the standard demanded by the market, be functionally accurate and stylistically appropriate and linguistically authentic, and should faithfully render the style and intended effect and meaning of the source language text.²³

2.3 Disgrifio a chategoreiddio gwallau

Os ydy hi'n anodd *adnabod* gwallau cyfieithu, mae'n wir dweud bod *disgrifio* a *chategoreiddio* gwallau yn anos byth, a hynny oherwydd gorgyffwrdd a chymysgu rhwng y categorïau. Nid oes ffiniau eglur, fel yr esbonia Pym (1992: 282):

Although it is relatively easy to produce a terminological system of three or seven or perhaps twenty odd types of translation error and then find examples to illustrate the phenomenal level and presumed causality of each, it is quite a

²³ Gw. <http://www.ciol.org.uk/images/Qualifications/DipTrans/DipTransHandbook.pdf>, tudalen 7. Cyrchwyd 16.09.2014.

different matter to classify errors as they actually appear in translated texts, where elements of different types are perpetually mixed and numerous cases straddle the presupposed distinctions.

Efallai dyna pam nad oes tacsonomi o wallau a ddefnyddir gan bawb yn y diwydiant cyfieithu. Gwelir, yn hytrach, nifer o systemau gwahanol.

2.3.1 Achoseg gwallau

O ran achoseg gwallau, credir bod ymyrraeth yn chwarae rôl. Gall ymyrraeth gan yr iaith ffynhonnell ddigwydd ar ddwy lefel — ar lefel micro'r testun neu ar lefel macro'r testun. Er enghraifft, byddai ymyrraeth gan gystrawen y testun ffynhonnell yn cael ei hystyried yn ymyrraeth ar y lefel micro. Ar y llaw arall, byddai unrhyw enghreifftiau o gyfieithydd yn copïo atalnodi'r testun ffynhonnell yn ei gyfieithiad yn cael ei hystyried yn ymyrraeth ar y lefel macro. Mae Newmark (1991: 78) yn gwahaniaethu rhwng y ddwy lefel drwy ddefnyddio “diffiniad cul” a “diffiniad ehangach” o ymyrraeth, fel a ganlyn:

In the narrow definition, interference in translation takes place when, apparently inappropriately, any feature of the source or a third language – notably a syntactic structure, a lexical item, an idiom, a metaphor, or word-order – is carried over or literally translated as the case may be into the target language text.

In a wider definition, interference includes cases when sentence length, punctuation, proper names, neologisms, or cultural words are evidently transferred in the translation, in fact all cases where the language of the translation is manifestly affected whether appropriately or not by the language of the original. In this sense interference is an intrinsic factor in any translation.

Yn y bôn, er bod rhywfaint o ymyrraeth yn bresennol ym mhob cyfieithiad, ceir dwy ffactor allweddol sy'n pennu *i ba raddau* y bydd yr ymyrraeth honno yn bresennol yn ôl Baker & Saldanha (2009: 307), sef profiad y cyfieithydd ac amgylchiadau cymdeithasol-ddiwylliannol y cyfieithu, fel y nodir isod:

The extent to which interference is realized depends on the professional experience of the translator and the socialcultural conditions in which a translation is produced and consumed, so that experienced translators tend to be less affected by the make-up of the source text, and tolerance towards

interference tends to increase when translation is carried out from a highly prestigious culture.

Mae ymyrraeth gan y testun ffynhonnell yn fwy derbyniol, felly, pan fydd bri mawr ar yr iaith a'r diwylliant y cyfieithir ohonynt. Rhy Zuzana Havlásková enghraifft yn ei thraethawd ar ymyrraeth wrth iddi drafod cyfieithu hysbysebion yng Ngweriniaeth Tsiecoslofacia yn syth ar ôl y Chwyldro. Oherwydd y bri mawr a roddwyd ar bethau estron bryd hynny, roedd yn werth cadw elfennau estron a nodweddion yr iaith ffynhonnell wrth drosi hysbysebion i'r Tsieceg. Fel y mae Havlásková yn dweud: "People did not mind that interference from English was obvious because they considered it to be a mark of prestige". Ond pwysleisia fod cyd-destun y cyfieithu yn allweddol wrth farnu derbynioldeb ymyrraeth: "This approach towards interference largely depends on the actual cultural background" (2010: 17-18).

Mae'n dilyn bod ymyrraeth yn llawer mwy tebygol o ddigwydd wrth drosi o iaith fwyafrifol i iaith leiafrifol, na'r ffordd arall, fel yr esbonia Toury (1995: 278) isod:

Tolerance of interference – and hence the endurance of its manifestations – tend to increase when translation is carried out from a 'major' or highly prestigious language/culture, especially if the target language/culture is 'minor', or 'weak' in any other sense.

Os na all cyfieithwyr osgoi ymyrraeth wrth drosi, chwedl Cronin (1995: 90), bydd yr iaith leiafrifol yn dechrau colli ei nodweddion cynhenid ac yn ymdebygu fwyfwy i'r iaith fwyafrifol:

If they [translators in minority languages] translate allowing the full otherness of the dominant language to emerge in the translation ... then the language into which they translate becomes less and less recognisable as a separate linguistic entity capable of future development and becomes instead a pallid imitation of the source language in translatores.

Gall hyn fod yn broblem wirioneddol o gofio'r rôl ganolog a chwaraeir gan gyfieithu wrth hyrwyddo'r iaith leiafrifol. Fel y mae Jones (2005a:6) yn ein hatgoffa wrth drafod cyfieithu yng Nghymru, "Eu cynnyrch nhw [cyfieithwyr] sydd yn y pen draw wedi rhoi i Gymru lawer o'i dwyieithrwydd cyhoeddus". Eu cynnyrch nhw a gaiff ei ddarllen ddydd ar ôl dydd, ar ffurflenni, mewn llyfrynnau ac ar bosteri o Fôn i Fynwy.

PENNOD 3

METHODOLEG

Trafodir yn y bennod hon y fethodoleg a fabwysiadwyd i gynnal yr ymchwil, sef methodoleg wedi'i seilio ar ieithyddiaeth gorpws,²⁴ a ddisgrifir gan McEney a Wilson (2001: 1) fel "... the study of language based on examples of 'real life' language use". Cesglir yr enghreifftiau hyn o iaith 'go iawn' mewn corpws (ll. corpora), sy'n derm ymbarél a ddefnyddir ym maes ieithyddiaeth i ddisgrifio unrhyw gasgliad electronig o destunau (gan gynnwys trawsgrifiadau o iaith lafar) sydd wedi'u dewis yn unswydd i gynrychioli iaith benodol neu amrywiad ar iaith benodol (McEney et al. 2006: 5).

Mae'r fethodoleg yn un boblogaidd ond, fel y gwelwyd ym Mhennod 2, mae ei defnydd ym maes astudiaethau cyfieithu yn ddatblygiad gweddol newydd — yn rhannol oherwydd na chât cyfieithiadau eu hystyried yn enghreifftiau o iaith go iawn tan yn ddiweddar. Serch hynny, mae eisoes wedi arwain at ffyrdd newydd o edrych ar gyfieithu (Laviosa 2003: 45).

Yng nghyd-destun cyfieithu i'r Gymraeg, mae'r fethodoleg wedi cael ei defnyddio yn llwyddiannus unwaith o'r blaen, yn Wooldridge (2011: 37-51), a hynny i ymchwilio i'r ystod o wallau a achosir gan ymyrraeth Saesneg. Credir, felly, ei bod yn fethodoleg briodol i gynnal ymchwil ar raddfa ehangach i'r gwallau eraill a all ddigwydd wrth gyfieithu i'r Gymraeg.

Egyr y bennod hon drwy ddisgrifio sut y lluniwyd y corpws sy'n sylfaen i'r ymchwil **(3.1)**. Manylir ar y darnau Saesneg a gafodd eu cynnwys ynddo, cyn ymhelaethu ar y cyfieithiadau Cymraeg (a gafodd eu cynhyrchu yn arholiadau CCC Cyf). Wedyn, a chofio bod ymgymryd ag unrhyw ymchwil sy'n cynnwys data dynol yn gofyn i'r ymchwilydd gydymffurfio â chod moeseg llym, amlinellir y camau a wnaethpwyd i warchod data'r corpws a chyfrinachedd y cyfieithwyr y mae eu gwaith yn rhan ohono.

²⁴ Rhaid nodi, er bod y rhan fwyaf o academyddion o'r farn mai methodoleg yw ieithyddiaeth corpws, nad pawb sy'n cytuno ac mae rhai yn honni mai cangen o ieithyddiaeth ydyw. Gw. Sánchez & Almela (2010: 1-11) am grynodedb o'r ddadl. Dylid pwysleisio hefyd fod modd cael ieithyddiaeth **wedi'i seilio ar** gorpws ac ieithyddiaeth **wedi'i gyrru gan** gorpws, lle mae'r data a geir mewn corpws yn arwain yr ymchwil yn hytrach na chael eu defnyddio i brofi theori a darparu enghreifftiau priodol i'r ymchwil (gw. Römer 2005: 8-11). Defnyddir ieithyddiaeth wedi'i seilio ar gorpws drwy gydol y gwaith hwn.

Yn ail ran y bennod **(3.2)**, eglurir sut yr aethpwyd ati i ddadansoddi'r data yn y corpws. Mae gwaith ymchwil wedi'i seilio ar gorpws/corpora yn gyfuniad o ddadansoddi ansoddol a dadansoddi meintiol (Biber et al. 1998: 4) a disgrifir y dadansoddi ansoddol i ddechrau, gan esbonio sut y defnyddiwyd sylwadau'r marcwyr i adnabod gwallau yn y cyfieithiadau a llunio teipoleg ohonynt. Manylir ar y dadansoddi meintiol wedyn.

I gloi'r bennod, amlinellir y confensiynau a ddilynwyd wrth gyflwyno'r data yn y traethawd ac esbonnir sut y dewiswyd y termau gramadegol a ddefnyddir **(3.3)**. Wedyn, a chofio bod cyfyngiadau gan bob prosiect ymchwil, tynnir sylw at sgôp cyfyngedig y prosiect hwn, gan fanylu ar yr hyn nad oedd yn bosibl i'r ymchwil ymdrin ag ef **(3.4)**.

3.1 Creu'r corpws cyfochrog²⁵

Mae un corpws o gyfieithiadau gwallus ar gyfer y pâr ieithoedd Saesneg-Cymraeg yn bodoli eisoes, a cheir disgrifiad o'r corpws hwnnw yn Wooldridge (2011: 41-44). Fodd bynnag, gan ei fod yn gorpws sy'n cynnwys cyfieithiadau wedi'u cynhyrchu mewn e-weithdai yn hytrach na chyfieithiadau wedi'u gwneud o dan amodau arholiad, bu rhaid llunio un newydd, pwrpasol at ddiben y prosiect ymchwil hwn.

Disgrifir isod sut y lluniwyd y corpws, gan ddechrau drwy sôn am gasglu'r sampl i'w chynnwys ynddo.

3.1.1 Casglu'r sampl

Mae'r rhan fwyaf o ymchwilwyr ym maes astudiaethau cyfieithu yn defnyddio gwaith myfyrwyr (yn hytrach na gwaith cyfieithwyr proffesiynol) yn sail i'w hymchwil, a hynny oherwydd ei bod yn haws cael gafael ar y math hwnnw o gyfieithiadau. Fodd bynnag, oherwydd natur y prosiect ymchwil hwn a'r cyswllt â'r diwydiant cyfieithu yng Nghymru, gofalodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru fod casgliad helaeth o gyfieithiadau gan gyfieithwyr proffesiynol²⁶ ar gael i'r ymchwilydd. Dewiswyd y sampl, felly, o blith y

²⁵ Mae corpws cyfochrog yn un lle y ceir testunau gwreiddiol yn iaith A ochr yn ochr â'u cyfieithiadau yn iaith B (Baker 1995: 230).

²⁶ A bod yn fanwl gywir, cyfieithiadau a gafodd eu cynhyrchu gan rai a ymgeisiai am gymhwyster proffesiynol ym maes cyfieithu S-C oeddynt. (Nid oes modd i'r Gymdeithas wirio a ydy pawb sy'n sefyll eu

cyfieithiadau hyn.

Roedd y cyfieithiadau i gyd wedi cael eu cynhyrchu o dan amodau arholiad ac roedd dau brif reswm dros benderfynu cynnwys cyfieithiadau o'r fath yn y corpws cyfochrog. Yn gyntaf, fel y nodwyd ym Mhennod 1, mae nifer uchel o gyfieithwyr yn methu arholiadau CCC Cyf bob blwyddyn ac er mwyn gallu cynnig atebion ystyrion i'r broblem hon, credid ei bod yn bwysig ymchwilio i'r mathau o wallau sy'n digwydd wrth gyfieithu mewn arholiad. Yn ail, ac yn fwy perthnasol, gall dadansoddi'r gwallau sy'n digwydd wrth gyfieithu mewn arholiad, sef mewn sefyllfa lle mae cyfieithydd dan bwysau amser a phwysau eraill, helpu i amlygu'r gwallau sy'n fwyaf tebygol o ddigwydd i gyfieithydd yn ei waith o ddydd i ddydd pan mae dan bwysau. Wrth gwrs, mae cyfieithu o dan amodau arholiad yn golygu na all y cyfieithydd ddefnyddio'r we nag unrhyw eiriadur na rhestr termau ar-lein, chwaith. Roedd arholwyr CCC Cyf yn ymwybodol iawn o hyn wrth asesu'r cyfieithiadau ac ni chosbwyd yr ymgeiswyr am fethu dod o hyd i derm nad oedd ar gael yn yr adnoddau print. Er enghraifft, wrth drafod ymgais cyfieithydd 65 i drosi enw'r mudiad 'Age Concern', sylwodd yr arholwr: "Er gwybodaeth, nid Cyngor yr Henoed yw Age Concern, ond gan nad oedd mynediad i'r we yn yr arholiad, ni chosbwyd hyn."

Un o'r ystyriaethau pwysig eraill wrth ddewis y sampl oedd sicrhau cynnwys cyfieithiadau a oedd yn ddiweddar, ond a gwmpasodd cyfnod o fwy na blwyddyn²⁷. Daeth y cyfieithiadau yn y sampl, felly, o'r cyfnod rhwng 2007 a 2011, sef y pum mlynedd cyn i'r prosiect ymchwil hwn ddechrau. Barnwyd y byddai'r cyfnod hwnnw yn cynnig ystod digon eang o gyfieithiadau i allu dirnad patrymau pendant o ran y mathau o wallau a wneir gan gyfieithwyr S-C.

Gwelir o Dabl 1 isod fod gan y Gymdeithas 344 o ymgeiswyr yn yr arholiadau yn ystod y cyfnod hwnnw; roedd 118 ohonynt yn llwyddiannus a 226 ohonynt yn aflwyddiannus. Dewiswyd samplu gwaith 70 o'r ymgeiswyr hyn, gan roi yn y corpws sgriptiau 59 o'r ymgeiswyr a oedd wedi methu, a sgriptiau 11 o'r ymgeiswyr a oedd wedi llwyddo yn yr arholiadau. Samplwyd, felly, waith 26% o'r ymgeiswyr

harholiadau yn gyfieithwyr wrth eu proffes — er y tybir bod y mwyafrif llethol ohonynt o ddifrif am gyfieithu ac yn cyfieithu yn eu gwaith o ddydd i ddydd.)

²⁷ A chofio bod cryn amrywio o flwyddyn i flwyddyn (ac o rownd i rownd) yng nghyfraddau llwyddo arholiadau'r Gymdeithas, byddai dewis cyfieithiadau o un flwyddyn yn unig wedi peryglu dilysrwydd yr ymchwil. (Gweler Ffigyrau 1 a 2 ym Mhennod 1 o'r traethawd hwn am fwy o wybodaeth am y cyfraddau llwyddo.)

aflwyddiannus a gwaith 9% o'r ymgeiswyr llwyddiannus, neu, yn fras, waith un ymgeisydd o bob pedwar a fethodd a gwaith un o bob deg ymgeisydd a lwyddodd yn arholiadau CCC Cyf yn ystod y cyfnod hwn.

Tabl 1: Cynnwys y Sampl

	Sgriptiau Ymgeiswyr Aflwyddiannus (S-G)				Sgriptiau Ymgeiswyr Llwyddiannus (S-G)			
	Aelodaeth Sylfaenol		Aelodaeth Gyflawn		Aelodaeth Sylfaenol		Aelodaeth Gyflawn	
	Cyfan	Sampl	Cyfan	Sampl	Cyfan	Sampl	Cyfan	Sampl
2007 (Gwanwyn)	19	5	7	1	6	0	9	2
2007 (Hydref)	18	3	8	2	13	0	4	1
2008 (Gwanwyn)	14	4	12	6	16	0	0	0
2008 (Hydref)	17	4	7	1	10	2	15	0
2009 (Gwanwyn)	22	3	7	2	8	0	4	1
2009 (Hydref)	14	2	12	4	7	1	1	0
2010 (Gwanwyn)	13	0	13	4	13	1	1	1
2010 (Hydref)	8	2	7	3	1	0	5	1
2011 (Gwanwyn)	12	4	16	9	5	1	0	0
Is-gyfanswm	137	27	89	32	79	5	39	6
Cyfan	226				118			
Sampl	59 (26%)				11 (9%)			


O ystyried mai dadansoddi cyfieithu gwallus yw ffocws yr ymchwil, teg gofyn pam y penderfynwyd cynnwys cyfieithiadau gan ymgeiswyr llwyddiannus yn y sampl? Penderfynwyd eu cynnwys er mwyn cael cymharu natur a nifer y gwallau a gafwyd ynddynt — nid oedd yr un cyfieithiad gan ymgeisydd llwyddiannus yn gwbl ddilychwin — â natur a nifer y gwallau a gafwyd yn y cyfieithiadau aflwyddiannus, a hynny er mwyn dirnad pa wallau, ym marn yr arholwyr, a oedd yn dderbyniol/annerbyniol neu yn llai/fwy difrifol.

Samplwyd sgriptiau o bob rownd arholi rhwng 2007 a 2011 ac o'r ddwy lefel arholi, hynny yw, o'r lefel Sylfaenol yn ogystal â'r lefel Gyflawn, ond rhaid nodi na chafodd y sgriptiau eu dewis ar hap. Yn hytrach, dewiswyd sgriptiau yr oedd adroddiadau unigol gan Fwrdd Arholi CCC Cyf ar gael i gyd-fynd â nhw.²⁸

²⁸ Gw. Atodiad 2, td.132, am enghraifft o adroddiad unigol.

Cynhwyswyd yn y corpws, felly, ddeunydd o 18 o arholiadau cyfieithu Saesneg-Cymraeg, hynny yw 36 o ddarnau Saesneg a 140 o gyfieithiadau Cymraeg (gw. Ffigwr 7 isod am y dosraniad). Roedd y testunau i gyd mewn dogfennau Word ac roedd cyfanswm o 28,680 o eiriau.²⁹

Ffigwr 7: Y corpws cyfochrog



Trafodir y testunau a gynhwyswyd yn y corpws yn fanylach yn y paragraffau sy'n dilyn, gan ddechrau drwy ystyried y darnau Saesneg.

- *Y darnau Saesneg*

Roedd dau ddarn Saesneg ar bob papur arholiad yn y sampl, felly cyfanswm o 36 o ddarnau a gafwyd yn y corpws, hynny yw 18 o ddarnau o'r arholiadau Aelodaeth

²⁹ Hoffwn ddiolch i Mrs Nia Wyn Jones o swyddfa CCC Cyf am hwyluso'r gwaith hwn yn fawr drwy gasglu'r holl bapurau arholiad a'r sgrïptiau (a hefyd yr adroddiadau unigol a chyffredinol), gan wneud yn siŵr bod popeth mewn trefn cyn i fi fynd ati i ddadansoddi'r data.

Sylfaenol ac 18 o ddarnau o'r arholiadau Aelodaeth Gyflawn. Er hwylustod, rhoddwyd rhifau 1-18 i'r darnau AS yn y corpws a rhifau 19-36 i'r darnau AG yn y corpws.

Cynigir trosolwg o'r darnau yn Nhablau 2 a 3 isod ac yn y drafodaeth sy'n dilyn, ond mae pob darn ar gael i'w ddarllen yn llawn yn Atodiad 4 o'r traethawd (tt. 134-154).

Tabl 2: Y Darnau Saesneg (AS)

Rownd	Darn	Pwnc	Nifer Geiriau	Ffynhonnell
2007 (G)	1	Chwilio am olion y Rhufeiniaid	283	<i>Guardian</i>
	2	Trychineb Aberfan	266	<i>Daily Mail</i>
2007 (H)	3	Taith gerdded mewn ardal wledig	245	<i>Guardian</i>
	4	Brofiadau dysgwyr ar gwrs preswyl	229	HMCS
2008 (G)	5	Ymweliad ag un o safleoedd yr YG	244	<i>Guardian</i>
	6	Gwaith gwirfoddol yn y gymuned	249	Gwefan GC
2008 (H)	7	Ymweliad â safle o bwys hanesyddol	247	<i>Guardian</i>
	8	Delio â'r sector cyhoeddus a'r sector preifat	241	<i>Sunday Times</i>
2009 (G)	9	Ymdrechion i warchod adar gwyllt	241	<i>Guardian</i>
	10	Dwyn manylion personol	229	<i>Mature Times</i>
2009 (H)	11	Hirlwm yr ucheldir	242	<i>Guardian</i>
	12	Effaith pris tanwydd ar yr henoed	253	<i>Daily Express</i>
2010 (G)	13	Helfa planhigion ym Maldwyn	256	<i>Guardian</i>
	14	Effaith allyriadau CO ₂	246	<i>Sunday Times</i>
2010 (H)	15	Cloddio am fwynau yn ardal Dolgellau	245	<i>Guardian</i>
	16	Effeithiau'r cynnydd yn y boblogaeth	257	<i>Sunday Times</i>
2011 (G)	17	Rhyddhau tylluan o simnai	244	<i>Guardian</i>
	18	Adfywio pentref Bethlehem, Sir Gâr	241	<i>Telegraph</i>

Fel y gellir ei weld o'r tablau, gosodwyd darnau o ryw 250 o eiriau yr un yn yr arholiadau lefel Sylfaenol a darnau o ryw 300 o eiriau o hyd ar y papurau lefel Gyflawn.

Ymdriniodd y darnau ag ystod eang iawn o bynciau — o 'dlodi tanwydd' yn yr arholiadau am Aelodaeth Gyflawn i 'wirfoddoli yn y gymuned' yn yr arholiadau ar lefel Sylfaenol. Roedd nifer o'r darnau hefyd yn ymwneud â Chymru a phynciau o ddiddordeb

yng Nghymru, yn enwedig y darnau yn yr arholiadau ar lefel Sylfaenol.³⁰ Disgrifiai Darn 5, er enghraifft, ymweliad ag un o safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru, tra trafodai Darn 18 adfywiad pentref Bethlehem yn Sir Gaerfyrddin ac arwyddocâd enwau lleoedd yng Nghymru; yn yr arholiadau Aelodaeth Gyflawn ymdriniai Darn 24 ag amodau cynnig am swydd ym maes addysg yng Nghymru, tra trafodai Darn 36 gymhellion yr ymgyrch yn erbyn trosglwyddo pwerau ychwanegol i'r Cynulliad.

Tabl 3: Y Darnau Saesneg (AG)

Rownd	Darn	Pwnc	Nifer Geiriau	Ffynhonnell
2007 (G)	19	Effaith sŵn ar fywydau pobl	312	<i>Financial Times</i>
	20	Rheolau addysgu plant	286	Llawlyfr addysg
2007 (H)	21	Amodau penodi athro i ysgol fechan	289	<i>Scotsman</i>
	22	Troseddwyr sy'n goryrru	304	<i>Sunday Times</i>
2008 (G)	23	Hanes cymdeithasol yr wystrysen	296	<i>Financial Times</i>
	24	Amodau cynnig am swydd ym maes addysg	292	Y Cynulliad
2008 (H)	25	Arddangosfa ffotograffiaeth	301	Taflen wybodaeth
	26	Cyllideb cyngor sir	298	Adroddiad Panel
2009 (G)	27	Toi tai pysgotwyr â gwymon	291	<i>Financial Times</i>
	28	Effaith twyll ar adnoddau yn y GIG	305	Adroddiad y GIG
2009 (H)	29	Meistroli ieithoedd tramor	305	<i>Independent</i>
	30	Effeithlonrwydd melinau gwynt	289	<i>Press Association</i>
2010 (G)	31	Pwysigrwydd gwarchod ieithoedd naturiol	282	<i>Independent</i>
	32	Agweddau ar gynllun pensiwn Glo Prydain	302	Pensions News
2010 (H)	33	Diwrnod cyntaf yn yr ysgol gynradd	309	<i>Daily Telegraph</i>
	34	Trychfilod peillio hedegog cyffredin	277	<i>Press Association</i>
2011 (G)	35	Effeithiau tlodi tanwydd	297	<i>Guardian</i>
	36	Yr ymgyrch yn erbyn trosglwyddo pwerau ychwanegol i'r Cynulliad	322	Blog G. Monbiot

Codwyd y rhan fwyaf o'r darnau o erthyglau mewn papurau newyddion, papurau megis y *Guardian*, y *Sunday Times* a'r *Financial Times*, ond daeth amryw ohonynt o ffynonellau amgen. Roedd Darn 4, er enghraifft, yn bwt o gylchlythyr Gwasanaethau

³⁰ Gw. Darnau 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 11, 13, 15, 18 (AS); Darnau 24, 25, 26, 36 (AG).

Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi tra daeth Darn 6 o'r wefan *Volunteering Wales* a Darn 20 o lawlyfr addysg.

O ystyried bod mwyafrif y darnau yn ddarnau newyddiadurol, byddid yn disgwyl arddull eithaf tebyg ym mhob un ohonynt. Ond amrywiai'r darnau yn sylweddol o ran arddull a chywair. Yn wir, nododd y Prif Arholwr yn y rhan fwyaf o'i adroddiadau fod y ddau ddarn ar y papurau arholiad "yn ceisio adlewyrchu cyweiriau lled wahanol".³¹

At hynny, roedd y ddau ddarn ar bob papur arholiad yn fwriadol heriol, yn enwedig yn achos yr arholiadau am Aelodaeth Gyflawn. Yn ôl y Prif Arholwr, dewiswyd un darn ar bob papur i adlewyrchu'r gorchwylion y gallai cyfieithydd profiadol eu disgwyl yn ei waith bob dydd ond dewiswyd darn arall nad oedd o reidrwydd yn debyg i waith beunyddiol y cyfieithydd, a hynny oherwydd bod disgwyl i ymgeiswyr am gymhwyster proffesiynol mewn cyfieithu allu ymdopi gydag unrhyw ddarn (APAAG09G).³²

Tri deg a chwech o ddarnau gwahanol iawn i'w gilydd, felly, ond roedd pob un yn ddarn a gynigiai gryn her i'r cyfieithwyr. Yn yr un modd, cant a phedwar deg o gyfieithiadau gwahanol iawn i'w gilydd a gafwyd yn y corpws, gyda rhai yn gyfieithiadau llawer gwell nag eraill. Manylir ar y cyfieithiadau yn yr adran sy'n dilyn.

- *Y cyfieithiadau Cymraeg*

Cynhwyswyd saith deg o sgriptiau arholiad yn y corpws cyfocrog, a olygai fod cant a phedwar deg o gyfieithiadau Cymraeg yn y sampl (o gofio bod dau gyfieithiad ar bob sgript). Ymhlith y cyfieithiadau hyn, cafwyd hyd at 9 cyfieithiad o rai o'r darnau Saesneg yn y corpws ond dim ond 1 cyfieithiad o ddarnau eraill (gw. Tabl 1 uchod am yr union ffigurau).

O ran safon y cyfieithiadau, mae'n rhaid cofio i'r cyfieithiadau gael eu cynhyrchu gan ymgeiswyr am Aelodaeth Sylfaenol CCC Cyf yn ogystal â chan ymgeiswyr am Aelodaeth Gyflawn, ac felly roedd disgwyliadau'r arholwyr yn wahanol.³³

³¹ Gweler, er enghraifft, APAAG08G, APAAG09G, APAAG10G, APAAS08G, APAAS09G, APAAS10G.

³² Pwysleiswyd y pwynt hwn gan y Prif Arholwr, Dr Fiona Gannon, pan gyfarfu â'r ymchwilydd i drafod yr ymchwil. Cynhaliwyd y cyfarfod ar 05.11.2013.

³³ Gw. Atodiad 1: Canllawiau i ymgeiswyr arholiadau CCC cyf (td. 126).

Mae safon Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Hynny yw, mae'n cyfateb i waith cyfieithydd sydd ar ddechrau ei yrfa ac yn gweithio o dan arolygiaeth cyfieithydd profiadol. Disgwylir i'r cyfieithydd allu cynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser. Disgwylir iddo fedru cyfieithu deunydd darllen cyffredinol yn weddol ddidrafferth a dylai feddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o gefndir diwylliannol y ddwy iaith.

Mae safon Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i waith cwbl broffesiynol lle nad oes angen unrhyw oruchwyliaeth ar y cyfieithydd. Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

A chofio, felly, fod y cyfieithiadau wedi'u cynhyrchu gan ymgeiswyr am Aelodaeth Sylfaenol yn ogystal â chan ymgeiswyr Aelodaeth Gyflawn, a chan ymgeiswyr llwyddiannus yn ogystal â rhai aflwyddiannus, roedd safon y cyfieithiadau yn y corpws yn amrywiol iawn. Er enghraifft, cynhyrchodd ymgeisydd 46 gyfieithiad a oedd yn agos at lwyddo a chanmolwyd ymgeisydd 07 — a lwyddodd yn yr arholiad — am lunio cyfieithiad a oedd yn llifo'n dda iawn. Roedd yr iaith yn lân a'r cystrawennau'n gadarn. Yn wir, yr unig beth a rwystrodd yr ymgeisydd rhag cael rhagoriaeth oedd mân wallau. Ar y llaw arall, nid oedd gwaith ymgeisydd 70 yn cyfateb i'r gwreiddiol mewn sawl man a sylwodd yr arholwr bod cyfieithiad ymgeisydd 24 yn "dipyn o stori fer, ac [ynddo] enghreifftiau lu o gam-gyfieithu'r gwreiddiol, o ran hepgor geiriau, ychwanegu geiriau a cham-gyfleu'r ystyr."

Cynhyrchwyd y cyfieithiadau o dan oruchwyliaeth y Gymdeithas ac o dan amodau arferol arholiad. Caniatawyd awr a hanner i'r ymgeiswyr am Aelodaeth Sylfaenol, a dwy awr i'r ymgeiswyr am Aelodaeth Gyflawn.³⁴ O 2010 ymlaen cafodd yr

³⁴ Cafodd ymgeiswyr am Aelodaeth Gyflawn ddwy awr a hanner yn 2007 (Hydref), gan fod tasg ychwanegol y flwyddyn honno, sef 9 o frawddegau byrion a oedd yn enghreifftio cyfieithu aflwyddiannus yr oedd rhaid i'r ymgeiswyr eu caboli. Argymhellwyd gan yr arholwyr i'r ymgeiswyr dreulio dwy awr yn cyfieithu'r ddau ddarn a hanner awr ar y brawddegau.

ymgeiswyr 5 munud ychwanegol ar ddechrau'r arholiad i ddarllen y papur. Nid oeddynt yn gallu dechrau teipio'r cyfieithiad yn ystod y cyfnod hwn.

Bu rhaid i'r ymgeiswyr ddefnyddio cyfrifiadur wrth lunio eu cyfieithiadau yn yr arholiad a chyflwyno'r gwaith terfynol wedi'i deipio gan fod disgwyl i'r ymgeiswyr fod â sgiliau technoleg gwybodaeth da. Roedd modd defnyddio cyfrifiaduron y ganolfan arholi neu liniaduron personol.

Caniatawyd i'r ymgeiswyr ddefnyddio geiriaduron, termiaduron, cyfeirlyfrau ac unrhyw gasgliadau geirfa, p'un a oeddynt yn gyhoeddiadau printiedig neu'n feddalwedd gyfrifiadurol darllen-yn-unig (a allai fod ar ddisg neu gof bach).

Fodd bynnag, ni chaniatawyd i'r ymgeiswyr gysylltu â'r we na'r rhyngwrwd, na defnyddio e-bost, yn yr arholiad. Golygai hyn nad oedd yn bosibl iddynt ddefnyddio unrhyw eiriadur na rhestr termau ar-lein, gan gynnwys TermCymru, a'r fforwm trafod termau a geirfa ar y we, Welsh-Termau-Cymraeg.

Gan fod y cyfieithiadau hyn wedi'u cynhyrchu gan gyfieithwyr sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd, esbonnir yn yr is-adran nesaf sut y dilynwyd cod moeseg llym i warchod data'r corpws a chyfrinachedd y cyfieithwyr.

3.1.2 Moeseg

Mae ymgymryd ag unrhyw ymchwil sy'n cynnwys data dynol yn gofyn i'r ymchwilydd gydymffurfio â chod moeseg ac amlinellir yn yr adran hon y camau a gymerwyd i warchod data'r corpws a chyfrinachedd y cyfieithwyr yr oedd eu gwaith yn rhan o'r sampl yn ogystal â chyfrinachedd y marcwyr a oedd yn rhan o'r broses arholi.


- Anonymeiddio'r data

Mae Polisi Moeseg Ymchwil Prifysgol Bangor yn datgan: "Ni ddylai data ymchwil gael eu cyflwyno mewn ffordd a allai ddatgelu pwy yw unrhyw unigolyn, oni bai bod yr unigolion wedi cael gwybod am hynny ymlaen llaw a chydsynio'n bendant â hynny".³⁵

³⁵ Mae copi o'r polisi ar gael ar wefan Prifysgol Bangor yn <http://www.bangor.ac.uk/compliance-unit/ResEthics.php.cy> (Fersiwn 4, cymeradwywyd gan Bwyllgor Moeseg y Brifysgol 18 Mehefin 2012). Cyrchwyd ar 20.08.2014.

Er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwn roedd rhaid anonymeiddio'r data'r corpws, fel y dengys Ffigwr 8 isod.

Ffigwr 8: Y broses o ddwbl-anonymeiddio



Fel y gwelir, mae'r drefn arholi CCC Cyf yn un gwbl gyfrinachol; rhoddir rhif i bob ymgeisydd ac ni ddatgelir ei enw i'r arholwyr. Cynhelir unrhyw drafodaeth ar waith ymgeisydd unigol yn ôl ei rif arholiad. Cafodd yr holl ddata eu trosglwyddo yn ddiennw i'r ymchwilydd, felly, ond er mwyn sicrhau nad oedd modd adnabod ymgeiswyr gan eu rhifau, dewiswyd rhifau newydd, ar hap, gan yr ymchwilydd. Cyfeirir at ymgeiswyr drwy gydol y traethawd hwn, felly, yn ôl y rhifau newydd hyn.

Yn yr un modd, roedd yn bwysig peidio â datgelu enwau'r arholwyr. Felly cyfeirir at yr arholwyr yn y gwaith fel Arholwyr A, B ac C ac yn y blaen.

- *Gwarchod data'r corpws*

Yn unol â gofynion cyfreithiol Deddf Gwarchod Data 1998, mae holl ddata'r corpws wedi'u cadw'n hollol gyfrinachol ar weinydd diogel, gan gael eu gwarchod â chyfrinair.

3.2 Dadansoddi'r data

Roedd sawl cam yn y broses o ddadansoddi'r gwallau a gafwyd yn y corpws cyfochrog. Y cam cyntaf oedd adnabod/nodi'r gwallau.

3.2.1 Adnabod/nodi'r gwallau

Mae arholwyr CCC Cyf yn gyfieithwyr a marcwyr profiadol iawn a phenderfynwyd seilio'r gwaith dadansoddi ar yr hyn a nodwyd yn wallus ganddynt. Byddai hyn yn fodd o sicrhau gwrthrychedd yr ymchwil a chan fod pob cyfieithiad yn cael ei farcio gan ddau arholwr, golygai fod cytundeb ynglŷn â'r gwallau a nodwyd.

- *Gwallau a nodwyd gan yr arholwyr*

Gofalodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru fod copi o bob sgript ar gael i'r ymchwilydd, ac felly roedd modd gweld marcio'r arholwr ar bob un. Defnyddiodd pob arholwr system wahanol i nodi'r gwallau (a'r pethau da) yn y cyfieithiadau, fel y gwelir yn ffigyrau 9-11 isod.

Defnyddiodd Arholwr A farciau tic i ddangos y cryfderau a thanlinellodd y gwallau fel a ganlyn:

Ffigwr 9: Enghraifft o waith marcio Arholwr A

Sgript Ymgeisydd 52

Ddydd[✓] Llundun, disgleiriodd yr haul mewn wybren oer a chychwynnais i hela ffordd Rufeinig sy'n croesi rhostiroedd Gogledd Cymru. Chwa o awyr iach, meddyliais. Ond oedd yr awyr mor iach â hynny? Yr oeddwn i, wedi'r cyfan, mewn golwg o'r orsaf ynni niwclear Trawsfynydd, ac, er gwaethaf yr honiadau swyddogol i gyd, pwy a wŷr pa allyriadau y mae'n arllwys ddydd a nos?

Defnyddiodd Arholwr B system debyg (gw. Ffigwr 10 isod), ond nododd categorïau'r gwallau gyda phriflythrennau uwchben y gwall perthnasol. Felly yn yr enghraifft isod defnyddiodd 'C' uwchben y gair 'dêl' yn y cyfieithiad i nodi bod 'cywair' y gair yn anaddas i'r darn a rhoddodd 'Y' uwchben y gair 'cyflenwad' gan mai 'cyflenwr' oedd y gair i fod ac roedd felly yn wall 'ystyr'.

Ffigwr 10: Enghraifft o waith marcio Arholwr B

Sgript Ymgeisydd 67

Mae'r mwyafrif ohonom ni ar ein colled oherwydd bod gennym y morgais, y cyflenwad
nwy a'r cyfrifon cynilo anghywir. Mae'r mwyafrif ohonom yn gwybod hyn ar rydym ni'n
Y? darllen y cynghorion ar sut i newid i gael dêl well yn ddyddiol. Felly pam nad ydym ni
wedi gwneud rhywbeth yn ei gylch?

Dewisodd Arholwr C ychwanegu mwy o fanylion at ei sgriptiau yntau (gw. Ffigwr 11), gan ysgrifennu cywiriadau ar y papur megis rhoi amser cywir y ferf 'clywed' uwchben y ffurf anghywir.

Ffigwr 11: Enghraifft o waith marcio Arholwr C

Sgript Ymgeisydd 43

Ond nid rho'r dyfroedd a glywais wrth imi fynd yno'r wythnos diwethaf: ymhell cyn imi
clywn / ystyr cywair cystr.
gyrraedd at yr afon, clwais dwrw peirianwaith. Pa beth ar y ddaear, gofynnais i'n hun,
camddeall ystyr
a fedrai greu'r fath stŵr yn y goedwig anghysbell hon? Deallais yn fuan. Wrth imi
nage nage geirfa
gyrraedd ymyl y nant, sylwais fod un o'r gweithfeydd aur a oedd yn ofer wedi'i hagar
eto.

Yn ogystal â chynnal dadansoddiad *ansoddol* o'r gwallau a gafwyd yn y corpws, cynhaliwyd dadansoddiad *meintiol*, a thrafodir rhai o'r egwyddorion a oedd yn rhan o'r broses honno yn yr adran nesaf.

3.2.2 Cyfrif y gwallau

Gwyddys mai'r peth pwysig wrth gynnal unrhyw ddadansoddiad o wallau yw gwahaniaethu rhwng gwallau a lithriadau (S. 'errors' and 'mistakes'). Yn wahanol i lithriadau, mae gwallau yn systematig ac yn cael eu hachosi gan ddiffyg gwybodaeth, fel arfer. Wrth gyfrif y gwallau yn y corpws, felly, anwybyddwyd unrhyw 'wall' ansystematig. At hynny, cyfrifwyd y gwall cyntaf ym mhob categori yn unig, a hynny er mwyn osgoi sgiwio'r canlyniadau.


3.3 Pennu confensiynau o ran cyflwyno'r data

Dilynir nifer o gonfensiynau wrth gyflwyno data'r corpws yn y traethawd ac wrth drafod y gwahanol wallau. Mae a wnelo'r confensiynau hyn yn bennaf â dyfynnu o'r corpws a dewis termau gramadegol. Ymhelaethir arnynt isod.

3.3.1 Dyfynnu o'r corpws cyfochrog

Cyflwynir data o'r corpws cyfochrog drwy gydol Penodau 4 a 5 o'r traethawd, a hynny er mwyn enghreifftio'r ystod o wallau a welir yn y cyfieithiadau. Dengys Ffigwr 12 isod sut y cyflwynir y data.

Ffigwr 12: Dyfynnu o'r corpws



3.3.2 Dewis termau gramadegol

O edrych drwy'r ystod o lyfrau gramadeg Cymraeg sydd ar gael, buan y sylwir bod cryn anghysondeb o ran y termau a ddefnyddir wrth ddisgrifio gramadeg y Gymraeg. Er enghraifft, wrth drafod ymadrodd megis 'merch yr athro' (S. 'the teacher's daughter'), mae'r rhan fwyaf o lyfrau gramadeg yn cyfeirio ato fel 'ymadrodd genidol' ond 'ymadrodd enwol dibynnol' yw'r term a ddefnyddir gan Peter Wynn Thomas ac, yn wir, mae'n dadlau'n argyhoeddiadol o blaid mabwysiadu'r term hwnnw (1996: 322). A chofio mai llyfr gramadeg Thomas sydd yn sylfaen i ddyfarniadau Bwrdd Arholi Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, mae modd dadlau mai term Thomas ddylai gael ei ddefnyddio yn y traethawd hwn, ond penderfynwyd defnyddio'r term 'ymadrodd genidol' yn lle, gan mai dyma'r term arferol a arddelir gan gyfieithwyr ac arholwyr CCC Cyf.³⁶ Dilynwyd yr egwyddor hon wrth ddewis termau gramadegol drwy gydol y traethawd.

Dylid nodi hefyd fod pob cyfeiriad at 'Saesneg' neu 'Cymraeg' yn y traethawd hwn yn gyfeiriad at yr iaith ysgrifenedig yn hytrach na'r iaith lafar, oni nodir yn wahanol. Mae hyn yn bwysig i'w gofio gan fod gwahaniaethau yn aml rhwng y ddwy. Er enghraifft, wrth sôn ym Mhennod 4 am wallau treiglo, cyfeirir at wallau treiglo yn yr iaith ysgrifenedig. Mae'r ffordd y treigilir ar lafar yn dra gwahanol.

3.4 Nodi cyfyngiadau'r ymchwil


Er mai prif nod yr ymchwil yw cyflwyno dadansoddiad o'r ystod o wallau a geir mewn cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, rhaid pwysleisio na chynigir darlun cynhwysfawr. Cyfyngir y dadansoddi i gyfieithu testun cyffredinol yn unig; ni thrafodir cyfieithu ar y pryd o gwbl. Mae hyn am resymau hollol ymarferol gan mai dyma'r math o gyfieithu y mae'r rhan fwyaf o gyfieithwyr Cymru yn ymwneud ag ef bob dydd. Ychydig o gyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg a wneir yng Nghymru.³⁷

³⁶ Wedi'i seilio ar wybodaeth bersonol o'r maes a'r hyn a glywid mewn nifer o weithdai cyfieithu CCC Cyf a fynychwyd rhwng 2009 a 2013.

³⁷ Am fwy o wybodaeth am y ganran o oriau a dreulir gan gyfieithwyr ar gyfieithu testun, cyfieithu ar y pryd ac is-deitlo/trosleisio, gweler Siart 3 a Siart 6 yn yr arolwg o'r diwydiant cyfieithu yng Nghymru a gynhaliwyd gan Fenter a Busnes (2005).

Yr hyn sy'n dilyn, felly, yw dadansoddiad o'r gwallau systematig y daethpwyd o hyd iddynt mewn corpws arbennig o gyfieithiadau cyffredinol S-C, a gynhychwyd o dan amgylchiadau arholiad rhwng 2007 a 2011.

PENNOD 4
CANLYNIADAU I: GWALLAU IAITH



Ffigwr 13: Cainc 1 o'r goeden wallau: gwallau iaith

4.1 Gwallau Treiglo

Mae treiglo yn broses lle mae rhai llythrennau ar ddechrau geiriau³⁸ yn gallu newid o dan amgylchiadau arbennig ac, yn ddiaw, mae'n un o nodweddion amlycaf yr iaith Gymraeg, ac yn un o'i hynodweddau.³⁹ Yn ôl Ball a Müller (2002: 2), mae treiglo mor gyffredin yn y Gymraeg, bydd unrhyw ymadrodd dros ambell air o hyd bron yn sicr o gynnwys rhai geiriau wedi'u treiglo:

Mutation in Welsh ... is extremely common: there are so many triggering environments that any utterance extending beyond just a few words is almost certain to contain some examples of mutations.

Yn wir, o edrych ar y darn canlynol o un o gyfieithiadau llwyddiannus a gafwyd yn y corpws, gwelir 15 o achosion o dreiglo mewn paragraff o 75 o eiriau, sef cymhareb o 1 gair wedi'i dreiglo ym mhob 5 gair:

Mae to gwymon nid yn unig yn gwrthsefyll tân, mae hefyd yn ^abosibl cerdded arno heb ei ^bddifrodi, a oedd yn ^cbwysig i ^{ch}drigolion yr ynys ^dganrifoedd yn ôl. Byddent yn aml yn sefyll ar ^{dd}ben eu tai gyda ^ethelesgop, yn edrych draw ^fdros yr ynys ^{ff}wastad, oedd yn ^gddi-goed ^{ng}bryd hynny, am ^hgychod wedi'u dal mewn stormydd. Coed oedd yn deillio o ⁱlongdrylliadau oedd y ^lbrif ffynhonnell ^{ll}goed ar gyfer tu mewn y tai.⁴⁰ [Ymgeisydd 38]

Fodd bynnag, fel y noda Lewis (1996: 11), "Er mai ymateb greddfoll yw treiglo i Gymry Cymraeg, weithiau fe all amheuon godi, yn arbennig wrth ysgrifennu'r iaith" a gwelwyd bod nifer o'r ymgeiswyr am aelodaeth CCC Cyf yn ansicr am y rheolau treiglo, fel y dengys Tabl 4 isod.

³⁸ Dylid nodi y ceir treiglo nid yn unig ar ddechrau geiriau ond hefyd yng nghanol rhai mathau o eiriau. Er enghraifft, treigilir 'taith' yn feddal yn y gair cyfansawdd 'mordaith', a gwelir treiglad ar ôl set gaeedig o ragddodiaid, e.e. 'try-' + 'gloyw' -> 'tryloyw' (Thomas 1996: 685). Fodd bynnag, ni thrafodir y math hwn o dreiglo yn y traethawd, gan na achosodd unrhyw broblemau i'r cyfieithwyr.

³⁹ Er hynny, nid yw treiglo yn unigryw i'r iaith Gymraeg – mae hefyd yn nodweddu'r ieithoedd Celtaidd eraill, gw. Borsley a Roberts (2005: 49); Ball a Müller (2002: 1).

⁴⁰ Mae'r rhesymau dros y treigladau fel a ganlyn:

a. TM i'r ansoddair ar ôl 'yn' traethiadol, b. TM i'r berfenw ar ôl y rhagenw blaen gwrywaidd 'ei', c. TM i'r ansoddair ar ôl 'yn' traethiadol, ch. TM i'r enw ar ôl yr arddodiad 'i', d. TM i'r ymadrodd enwol sy'n gweithredu yn adferfol, dd. TM i'r enw ar ôl yr arddodiad 'ar' (ond sylwer bod 'ar ben' yn arddodiad cyfansawdd erbyn hyn), e. TLI i'r enw ar ôl yr arddodiad 'gyda', f. TM i'r arddodiad 'tros' sy'n gweithredu'n adferfol, ff. TM i'r ansoddair ar ôl enw benywaidd, g. TM i'r ansoddair ar ôl 'yn' traethiadol, ng. TM i'r ymadrodd enwol sy'n gweithredu'n adferfol, h. TM i'r enw ar ôl yr arddodiad 'am', i. TM i'r enw ar ôl yr arddodiad 'o', l. TM i'r ansoddair 'prif' ar ôl y fannod a chyn enw benywaidd, ll. TM i'r enw sy'n gweithredu'n ansoddeiriol ar ôl enw benywaidd.

Tabl 4: Nifer y gwallau treiglo

	Cyfieithiadau Ymgeiswyr Aflwyddiannus (S-C)		Cyfieithiadau Ymgeiswyr Llwyddiannus (S-C)	
	Aelodaeth Sylfaenol	Aelodaeth Gyflawn	Aelodaeth Sylfaenol	Aelodaeth Gyflawn
Camdreiglo	6	3	1	1
Diffyg treiglo	20	11	4	1
Treiglo dianghenraid	11	5	2	0
Is-gyfanswm	37	19	7	2
Cyfanswm	56		9	

O edrych ar ganlyniadau'r rhai a oedd yn aflwyddiannus yn yr arholiadau, gwelir bod cyfieithiadau'r ymgeiswyr am Aelodaeth Sylfaenol yn cynnwys, yn fras, ddwywaith gynifer o wallau treiglo (ym mhob categori) â chyfieithiadau'r ymgeiswyr am Aelodaeth Gyflawn, a bod gwallau treiglo hefyd yn bresennol yng ngwaith yr ymgeiswyr llwyddiannus.

Gwelir o'r tabl bod modd dirnad tri chategori o wallau, sef camdreiglo, diffyg treiglo, a threiglo dianghenraid. Diffyg treiglo oedd y categori â'r nifer fwyaf o wallau a bydd trafodaeth o'r categori hwn yn 4.1.2 isod, ond roedd hefyd rhai achosion o dreiglo'n ddiangen, a hynny gan amlaf o ganlyniad i'r ymgeiswyr yn cymathu'r rheolau treiglo ar gam â chyd-destunau gramadegol eraill. Fodd bynnag, nid oedd modd gweld unrhyw batrwm i'r gwallau hyn ac, o'r herwydd, ni thrafodir y categori hwn yn fanwl. Egyr yr adran hon, felly, drwy ystyried y categori â'r nifer isaf o wallau, sef camdreiglo.

4.1.1 Camdreiglo

Ceir tri gwahanol fath o dreigladau yn Gymraeg, sef treigladau meddal, treigladau trwynol, a threigladau llaes. Fel y dengys Tabl 5 isod, maent yn effeithio ar eiriau sy'n dechrau gyda'r cytseiniaid 'p', 't', 'c', 'b', 'd', 'g', 'll', 'm' a 'rh'.⁴¹

Mae camdreiglo yn digwydd pan fydd rhywun yn treiglo ond yn treiglo'n anghywir (GPC td. 398), sef drwy dreiglo'n feddal yn lle treiglo'n drwynol, dyweder. Byddai treiglo 'tad' yn 'fy **dad**' (yn lle 'fy **nhad**') yn esiampl o gamdreiglo, felly.⁴²

⁴¹ Am drafodaeth lawn am y treigladau a'r rheolau yn eu cylch gw. Morgan (1952), Ball (1988), Lewis (1996) a Ball a Müller (2002). Ceir hefyd adrannau sy'n ymdrin â threiglo yn Thomas (1996: 683-704), Ifans (2006: 372-403) a Borsley et al. (2007: 223-254).

Tabl 5: Y Treigladau

Cytsain	Ffurf gysefin ar y gair	Treigladd Meddal	Treigladd Trwynol	Treigladd Llaes
P	Pen	(dy) ben	(fy) mhen	(ei) phen (hi)
T	Tad	(dy) dad	(fy) nhad	(ei) thad (hi)
C	Ci	(dy) gi	(fy) nghi	(ei) chi (hi)
				DIM NEWID
B	Bys	(dy) fys	(fy) mys	(ei) bys (hi)
D	Dant	(dy) ddant	(fy) nant	(ei) dant (hi)
G	Gardd	(dy) ardd	(fy) ngardd	(ei) gardd (hi)
			DIM NEWID	
Ll	Llaw	(dy) law	(fy) llaw	(ei) llaw (hi)
M	Mam	(dy) fam	(fy) mam	(ei) mam (hi)
Rh	Rhaw	(dy) raw	(fy) rhaw	(ei) rhaw (hi)

Ffynhonnell: Griffiths a Jones (1995: xxviii-xxix)

Ychydig o gamdreiglo oedd i'w weld yng ngwaith y cyfieithwyr, mewn gwirionedd; yr unig enghreifftiau a gafwyd yn y corpws oedd y rhai hynny a oedd yn ymwneud â chamdreiglo ar ôl y rhagenwau blaen trydydd person unigol, sef 'ei' (S. 'his', 'its') ac 'ei' (S. 'her', 'its').

Fel rheol, mae'r rhagenw blaen gwrywaidd yn sbarduno treigladd meddal ac mae'r rhagenw blaen benywaidd yn sbarduno treigladd llaes (a 'h' o flaen llafariad), ond cafwyd enghreifftiau yn y cyfieithiadau o ymgeiswyr yn treiglo'n llaes ar ôl y rhagenw blaen gwrywaidd ac yn feddal ar ôl y rhagenw blaen benywaidd.

⁴² Sylwer bod y term 'camdreiglo' yn cael ei ddefnyddio weithiau wrth gyfeirio at achosion o dreiglo'n ddiangen. Er enghraifft, defnyddiodd un o'r arholwyr y term 'camdreigladd' wrth dynnu sylw at dreiglo'r enw 'twyll' yn ddiangen yn y frawddeg ganlynol o'r corpws: "Ein nod yw lleihau **dwyll**".

O edrych ar y cyfieithiad yn 4.1 isod, er enghraifft, gwelir bod ymgeisydd 11 wedi camdreiglo'r berfenw 'gwneud' yn feddal yn lle'n llaes ar ôl y rhagenw benywaidd 'ei' (mae 'llinell' yn enw benywaidd):

4.1 ST: So, here and there the sheep have kept the line of the Roman road as clearly marked as if done by a lawnmower. [Darn 1, llau. 9-10]

TT: Felly, yma ac acw roedd y defaid wedi nodi llinell y ffordd Rufeinig yn glir fel pe bai wedi **ei wneud** [ei gwneud] â pheiriant torri lawnt. [Ymgeisydd 11 - Sylfaenol]

Naill ai nid oedd yr ymgeisydd yn gwybod pa dreigladd i'w ddefnyddio ar ôl y rhagenw benywaidd neu, o bosib, nid oedd yn gwybod cenedl yr enw yr oedd y rhagenw yn ei ddisodli. Petai'r ymgeisydd yn credu bod 'llinell' yn enw gwrywaidd, er enghraifft, byddai wedi bod yn iawn i dreiglo'r berfenw 'gwneud' yn feddal.

O gymryd achos tebyg arall o gamdreiglo a welwyd yn y corpws (gw. 4.2 isod), ymddengys o'r treigladd meddal i'r ansoddair 'godidog' yn yr enghraifft benodol hon fod yr ymgeisydd yn gwybod cenedl yr enw yr oedd y rhagenw yn ei ddisodli, sef 'tylluan' (benywaidd), ond nid oedd yn gwybod pa dreigladd i'w ddefnyddio ar ôl y rhagenw hwnnw. Yn sicr, dyna oedd barn yr arholwyr, a nododd yn eu hadroddiadau unigol fod "angen adolygu'r treigladd llaes yn dilyn y rhagenw blaen 3ydd unigol benywaidd".

4.2 ST: There on the back of my chair stood a splendid owl which, judging by the immaculate whiteness of its plumage could not have been in the chimney very long. [Darn 17, llau. 10-12]

TT: Yno, ar gefn fy nghadair, safai tylluan odidog oedd, o ystyried purdeb **ei blu** [ei phlu] gwynion, wedi treulio llai o amser tu ôl i'r simnai nac a dybiwn. [Ymgeisydd 24 - Sylfaenol]

Ond tybed a oedd yr ymgeisydd yn gwybod bod yr enw 'tylluan' yn fenywaidd, mewn gwirionedd? Mae'n ddigon posibl bod yr ymgeisydd wedi defnyddio'r gwirydd gramadeg Cysill i wirio'i gyfieithiad cyn ei gyflwyno, a byddai'r rhaglen honno wedi awgrymu i'r ymgeisydd newid yr ansoddair 'godidog' yn 'odidog' ar ôl enw benywaidd unigol fel 'tylluan'. Ond, yn arwyddocaol, ni fyddai Cysill wedi awgrymu newid 'blu' yn

'phlu' gan na all y rhaglen ddelio â gwallau'r o'r fath.⁴³ Ydy'r gwall hwn yn amlygu mwy na phroblemau treiglo, felly, gan dynnu sylw at ddiffyg gwybodaeth sylfaenol am genedl enwau ymhlith yr ymgeiswyr? I ateb y cwestiwn hwnnw, bydd rhaid ystyried y gwallau eraill yn y corpws, gan ddechrau gyda'r gwallau a welwyd o ran diffyg treiglo.

4.1.2 Diffyg treiglo

Ceir tri⁴⁴ chyd-destun sy'n ysgogi treiglo (S. 'triggering environments'). Yn gyntaf, sbardunir treiglo ar ôl grŵp penodol o eiriau a chyfeirir at y treigladd hwn fel 'treiglo cyswllt'. Yn ail, achosir yr hyn a elwir yn 'dreiglo sangiadol' pan newidir trefn arferol y frawddeg neu pan ychwanegir elfen ati. Ac yn olaf, sbardunir 'treiglo swyddogaethol' pan fydd gan air swyddogaeth arbennig mewn cymal neu frawddeg (Thomas 1996: 685-704).

Gwelwyd enghreifftiau yn y corpws o ymgeiswyr yn methu treiglo ym mhob un o'r cyd-destunau hyn; fe'u trafodir fesul un isod.

- *Diffyg treiglo cyswllt*

Ysgogir treiglo cyswllt gan eiriau penodol, megis arddodiaid, cysyllteiriau a rhifolion (ond nid pob un ym mhob categori).⁴⁵ Fodd bynnag, methodd sawl ymgeisydd dreiglo ar ôl y geiriau penodol hyn. Gwelir yn 4.3 isod, er enghraifft, ddiffyg treigladd meddal ar ôl yr arddodiad 'o', a hynny yng ngwaith ymgeisydd am Aelodaeth Sylfaenol.

4.3 ST: In return you will be rewarded with a sense of personal achievement and satisfaction. [Darn 6, ll. 4]

TT: Cewch chi eich gwobrwyo am eich gwirfoddoli ag ymdeimlad o **cyflawniad** [o gyflawniad] a boddhad personol. [Ymgeisydd 15 -

⁴³ Bydd trafodaeth bellach am gyfyngiadau'r gwirydd sillafu/gramadeg Cysill wrth i'r bennod hon fynd yn ei blaen, ac wrth i wallau iaith yr ymgeiswyr gael eu pwyso a'u mesur.

⁴⁴ Sylwer bod Ball (1988: 71) a Borsley et al. (2007: 223) yn sôn am *ddau* gyd-destun a all sbarduno treiglo, gan gyfeirio at 'dreiglo geirfaol' a 'threiglo cystrawennol'. Fodd bynnag, at ddiben y traethawd hwn, penderfynwyd defnyddio rhaniad Thomas, gan ei fod yn glir ac yn hunanesboniadol ac felly yn ddefnyddiol o ran categorieiddio'r gwallau, a hefyd o ran hyfforddi cyfieithwyr.

⁴⁵ Gw. Thomas (1996) am restr o'r geiriau sy'n achosi treigladd meddal (tt. 687-8), treigladd llaes (tt. 691-2) a threigladd trwynol (tt. 693-4). Ceir hefyd drafodaeth yn Thomas am y grŵp o eiriau sy'n peri treiglo cymysg (tt. 694-5), yr homograffau sydd, yn groes i'r disgwyl, yn achosi treigladdau gwahanol (tt. 695-7) a'r geiriau sy'n sbarduno treiglo i ddsbarthau penodol o eiriau yn unig (td. 697).

Sylfaenol]

A chafwyd gwall tebyg yng ngwaith ymgeisydd am Aelodaeth Gyflawn (gw. 4.4), ond yn yr achos hwn methodd yr ymgeisydd dreiglo'n feddal ar ôl yr arddodiad 'am':

4.4 ST: In Wales inventive campaigns are mobilizing to demand less. [Darn 36, llau. 1-2]

TT: Yng Nghymru, mae ymgyrchoedd dyfeisgar yn galw **am llai** [am lai]. [Ymgeisydd 49 - Cyflawn]

Amlyga'r gwallau hyn naill ai anwybodaeth o'r rheolau treiglo ar ôl arddodiaid penodol (nid yw pob arddodiad yn achosi treiglo), neu esgeulustod a diffyg prawfddarllen o ran yr ymgeiswyr. Ond, yn achos yr enghraifft nesaf (4.5), mae'n bosibl bod rheswm arall dros y diffyg treiglo.

4.5 ST: How much time do I have and when am I available? [Darn 6, ll. 8]

TT: Faint o amser sydd gennyf **a pryd** [a phryd] ydwyf ar gael? [Ymgeisydd 33 - Sylfaenol]

Disgwylid treigladau llaes ar ôl y cysylltair 'a' ond, fel y gwelir, methodd ymgeisydd 33 â threiglo'r gair 'pryd'. Dim ond naw gair sy'n peri treigladau llaes,⁴⁶ ond esbonia Thomas (1996: 692), "... mewn arddulliau llafar anffurfiol, y mae'n ddigon posibl mai dim ond ar ôl [un o'r geiriau hyn, sef] 'ei' (benywaidd) y byddir yn treiglo'n llaes".⁴⁷ Felly a gafodd yr ymgeisydd ei ddylanwadu gan ei ddefnydd llafar o'r cysylltair yn yr achos hwn?

Grŵp arall o eiriau sy'n achosi treigladau cyswllt yw enwau benywaidd unigol — disgwylir i ansoddeiriau sy'n dod ar eu holau dreiglo'n feddal. Ond nodwyd nifer o enghreifftiau o ddiffyg treiglo yn y corpws. Dengys y ddwy frawddeg isod o eiddo ymgeisydd 70, er enghraifft, ddau achos o ddiffyg treigladau meddal ar ôl yr enwau benywaidd 'sgwrs' ac 'archaeoleg':

⁴⁶ Heb gynnwys y geiriau sy'n achosi treigladau llaes-meddal cymysg (gw. Thomas 1996: 694-5).

⁴⁷ Gw. Ball (1988: 70-81) am drafodaeth bellach o'r ffenomen hon o safbwynt sosioieithyddol.

- 4.6 ST: But I never got there because I caught up with a man whose conversation was all about Welsh gold and who was bubbling over with the history of the local mine. [Darn 3, llau. 4-5]

TT: Ond ni chyrhaeddais yno, oherwydd imi ddal i fyny gyda dyn oedd a'i **sgwrs cyfan** [sgwrs gyfan] am aur Cymreig, a oedd hefyd yn byrlymu drosodd gyda hanes y mwynglawdd lleol. [Ymgeisydd 70 - Sylfaenol]

- 4.7 ST: My companion, however, was so excited by all the romance of industrial archaeology that he clearly did not share my gloomy thoughts. [Darn 3, llau. 10-12]

TT: Roedd fy nghydymaith, fodd bynnag, mor gynhyrfus gan holl ramant yr **archaeoleg diwydiannol** [archaeoleg ddiwydiannol], fel ei bod yn eglur nad oedd yn rhannu fy meddyliau prudd. [Ymgeisydd 70 - Sylfaenol]

Dengys y diffyg treiglo hwn nad oedd gan yr ymgeisydd y wybodaeth angenrheidiol ynglŷn â chenedl y ddau enw dan sylw, yn hytrach na diffyg gwybodaeth am y rheolau treiglo oherwydd, o edrych ar weddill y cyfieithiad, gwelir iddo lwyddo i dreiglo ansoddeiriau ar ôl enwau benywaidd eraill, e.e. 'ysgubor **garreg**', 'acen scows **lydan**' ac 'y drefn **ganlynol**'. Wrth gwrs, byddai defnyddio'r gwirydd gramadeg Cysill wedi cywiro'r gwallau hyn. Mae'n eglur, felly, nad oedd yr ymgeisydd wedi gwneud defnydd o'r adnoddau prawffdarllen electronig a oedd ar gael iddo yn yr arholiad.

Fodd bynnag, ymddengys fod ymgeiswyr eraill *wedi* defnyddio'r offer prawffdarllen a oedd ar eu cyfrifiaduron, ond nid oeddynt wedi sylweddoli bod cyfyngiadau ar yr offer hynny. O gymryd yr enw benywaidd 'ynys' yn 4.8 a 4.9 isod, er enghraifft, gwelir bod yr ansoddair 'bach' wedi cael ei dreiglo'n feddal ar ôl yr enw yn 4.8 ond nid yw'r ansoddeiriau 'preswylidig' a 'mwyaf' wedi cael eu treiglo ar ôl yr un enw yn 4.9. Naill ai roedd yr ymgeisydd yn anghyson yn ei ddefnydd o genedl 'ynys' neu, yn fwy tebygol, roedd wedi defnyddio Cysill i brawffdarllen y gwaith. Byddai'r rhaglen wedi awgrymu treiglo'r ansoddair 'bach' yn feddal, ond nid yr ansoddeiriau 'preswylidig' a 'mwyaf'.

- 4.8 ST: Forty kilometers south west of Sumburgh Head, the southernmost point on the Shetland mainland, the tiny island, just 5km long and 3km wide, is a two-and-a-half-hour ferry from the nearest landfall and has no pub, hotel or restaurant. [Darn 21, llau. 8-10]


TT: Mae'r **ynys fach** hon, sydd ond 5km o hyd a 3km o led, bedwar deg

cilomedr i'r de-orllewin o Symburgh Head, sef y man mwyaf deuheuol [sic] ar dir mawr Shetland. Nid oes tafarn, gwesty na thŷ bwyta yno ac mae'n rhaid hwylio am ddwy awr a hanner ar long fferi i ganfod y tir agosaf. [Ymgeisydd 61- Cyflawn]

- 4.9 ST: Shetland Islands Council is advertising for a replacement principal on Scotland's remotest inhabited island – Fair Isle. [Darn 21, llau. 2-3]
- TT: Mae Cyngor Ynysoedd Shetland yn hysbysebu am bennaeth newydd ar **ynys preswylidig mwyaf** [ynys breswylidig fwyaf] anghysbell yr Alban – Fair Isle. [Ymgeisydd 61 - Cyflawn]

Ni fyddai Cysill wedi awgrymu treiglo'r ansoddeiriau 'preswylidig' a 'mwyaf' yn feddal oherwydd nad yw'r ansoddair 'preswylidig' yng ngeiriaduron Cysgliad (gw. Ffigwr 14 isod).⁴⁸ Ac o ganlyniad, nid oedd modd i Cysill ddirnad pa ddsbarth o air ydoedd, gan ei gwneud yn amhosibl gwirio cystrawen y frawddeg yn erbyn rheolau gramadeg mewnol y rhaglen.

Ffigwr 14: Enghraifft o Cysill ar waith



Mewn enghreifftiau o'r math hwn dylai'r ymgeisydd fod wedi sylweddoli nad oedd Cysill o ddefnydd iddo, a gwirio cenedl 'ynys' ei hun mewn geiriadur. Yn wir, mae'n amlwg i nifer o'r ymgeiswyr ddibynnu ar Cysill i wneud eu prawffddarllen i gyd, heb

⁴⁸ Mae Cysgliad yn becyn meddalwedd sydd â dwy brif raglen yn rhan ohoni, sef Cysill a Cysgeir. Gwirydd gramadeg yw Cysill, tra bo Cysgeir yn gasgliad o eiriaduron Cymraeg<>Saesneg mewn fformat electronig. Defnyddir y geiriaduron gan Cysill wrth wirio testun: tanlinellir unrhyw eiriau nad ydynt yn y geiriaduron, a chynigir geiriau posibl eraill i'r defnyddiwr. Gw. <http://www.cysgliad.com/Default.aspx> Cyrchwyd 22.01.2015.

wybod nad oes modd i wirydd gramadeg peirianyddol ddod o hyd i bob gwall mewn darn.

Esiampl arall o hyn yw'r ffordd na all Cysill gywiro diffyg treiglo i enwau sy'n gweithredu'n ansoddeiriol. O ystyried 4.10 isod, er enghraifft, mae 'plant' wedi'i dagio fel ffurf luosog ar yr enw 'plentyn' yng ngeiriaduron Cysgeir, felly nid yw Cysill yn ei drin fel ansoddair ond fel enw lluosog. Ond gan fod 'plant' yn cael ei ddefnyddio'n ansoddeiriol yma ar ôl yr enwau benywaidd 'ysgol' ac 'adran', disgwylid treigladau meddal.

4.10 ST: When children leave an Infants School or Infants Department arrangements will be made to transfer them to the associated Junior School. [Darn 20, llau. 10-11]

TT: Pan fo plant yn gadael **Ysgol Plant** [Ysgol Blant] Bach neu **Adran Plant** [Adran Blant] Bach gwneir trefniadau i'w trosglwyddo i'r **Ysgol Plant** [Ysgol Blant] Iau gysylltiedig. [Ymgeisydd 37 - Cyflawn]

Sylwer, fodd bynnag, fod modd weithiau dehongli'r gystrawen uchod fel cystrawen y genidol ac ni fyddai treigladau yn yr achos hwnnw. Yn wir, nododd Ifans (2006: 383-6) pa mor anodd yw gwahaniaethu rhwng y ddwy gystrawen, ac, o ddilyn ei chynghor, ni ddylid treiglo yma.

O ystyried yr ystod o enghreifftiau o'r corpws a drafodwyd uchod, felly, mae'n amlwg nad oedd pob ymgeisydd yn gyfarwydd â'r rheolau ynglŷn â threiglo cyswllt.

Yn yr un modd, ymddengys nad oedd rhai ymgeiswyr yn gwbl gyfarwydd â'r rheolau ynglŷn â threiglo sangiadol, fel y trafodir nesaf.

- *Diffyg treiglo sangiadol*

Digwydd treiglo sangiadol pan fydd trefn arferol y frawddeg yn newid neu pan gaiff ymadrodd ei ychwanegu at gymal. Nid yw'n dibynnu, felly, ar eiriau penodol (fel yn achos treiglo cyswllt), neu ar swyddogaeth ramadegol geiriau (Thomas 1996: 704).

Bydd treiglo sangiadol bob tro yn sbarduno treigladau meddal yn y gair sy'n dod yn syth ar ôl y sangiad, ond roedd nifer o enghreifftiau yn y corpws lle nad oedd yr ymgeiswyr wedi treiglo.

Dengys 4.11 isod, er enghraifft, fod y gair adferfol 'yno' wedi'i osod rhwng y ferf 'mae' a'r goddrych 'croeso' a disgwylid felly i 'croeso' dreiglo'n feddal. Mae ychwanegu'r adferfolion dangosol 'yma' neu 'yno' yn y fath fodd yn gyffredin iawn ar lafar ac mewn arddulliau anffurfiol (Thomas 1996: 517).

- 4.11 ST: There is a welcoming friendliness everywhere and it is especially refreshing to be guided round by enthusiastic young students who really do seem to want you to have a good day. [Darn 5, llau. 15-16]

TT: **Mae yno croeso** [Mae yno groeso] cyfeillgar ym mhob man ac mae'n hynod o braf cael eich arwain o gwmpas gan fyfyrwyr ifanc a brwdfrydig sydd wir eisiau i chi cael amser da. [Ymgeisydd 33 - Sylfaenol]

Yn yr un modd, disgwylid treigladau i'r gair 'miloedd' yn 4.12 isod oherwydd safle'r adferfol 'o bosib' rhwng y ferf a'r gwrthrych. Fel rheol, daw'r adferfol ar ddiwedd y cymal/brawddeg (Thomas 1996: 512-3).

- 4.12 ST: Another report due out this autumn by Ofgem, the power regulator, will warn that if Britain is serious about a low-carbon economy then it must string potentially thousands of miles of new high-voltage power cables across the country. [Darn 30, llau. 16-18]

TT: Mewn adroddiad arall sydd i'w gyhoeddi hydref eleni gan Offgem [*sic*], y corff sy'n rheoli pŵer, ceir rhybudd, os yw Prydain o ddifrif ynglŷn ag economi isel mewn carbon yna bydd yn rhaid **gosod o bosib miloedd** [gosod o bosib filoedd] o filltiroedd o geblau pŵer foltedd uchel newydd ar draws y wlad. [Ymgeisydd 55 - Cyflawn]

Rhaid i gyfieithwyr hefyd gofio treiglo'n sangiadol yn y gystrawen, 'Mae ganddo *rywbeth*'. Mae'n gwbl dderbyniol dweud 'Mae *rhywbeth* ganddo', ond o droi'r gystrawen rownd, mae'n rhaid treiglo'r gwrthrych yn feddal bob tro (Thomas 1996: 512-3). Fel y dywedodd yr arholwr: "O ddefnyddio'r gystrawen hon roedd angen treiglo 'meddyliau' yn feddal."

- 4.13 ST: The Italians may be enlightened in many ways, but barbarism is still rife there judging by the appalling all-year-round slaughter of wild birds, even the smallest birds, that goes on remorselessly. [Darn 9, llau. 5-7]

TT: Efallai **bod gan yr Eidalwyr meddyliau** [bod gan yr Eidalwyr feddyliau] agored mewn llawer ffordd, ond yn ôl y lladdfa arswydus o adar gwyllt, hyd yn oed yr adar lleiaf, sy'n cael ei gynnal drwy gydol y flwyddyn yn ddirugaredd, mae barbariaeth yn gyffredin yno o hyd. [Ymgeisydd 63 - Sylfaenol]

Tystiai'r cyfieithiadau a gafwyd yn y corpws hefyd fod gan yr ymgeiswyr ddiffyg gwybodaeth o ran treiglo swyddogaethol.

- *Diffyg treiglo swyddogaethol*

Sbardunir treiglo swyddogaethol pan fydd gan air swyddogaeth arbennig mewn cymal neu frawddeg ac fel rheol treiglir y gair yn feddal. Er enghraifft, disgwylir i wrthrych i ferf bersonol dreiglo'n feddal (Thomas 1996: 405-6). Ond gwelwyd cyfieithiadau, megis 4.14 isod, lle nad oedd yr ymgeisydd wedi treiglo.

- 4.14 ST: Despite recent energy price hikes and efforts to encourage switching, a study by Age Concern found little increase in the number of customers changing supplier. [Darn 12, llau. 6-7]

TT: Er gwaethaf cynnydd diweddar mewn prisoedd ynni ac ymdrechion i annog pobl i newid cyflenwyr, darganfyddodd astudiaeth gan Gyngor yr Henoed nad oedd cynnydd mawr wedi bod yn y nifer o gwsmeriaid a **newidiodd cyflenwyr** [newidiodd gyflenwyr]. [Ymgeisydd 65 - Sylfaenol]

Gall berfenw fod yn wrthrych i ferf bersonol, wrth gwrs, ond ymddengys nad oedd pob ymgeisydd wedi cofio hynny, fel y dengys enghraifft 4.15 isod:

- 4.15 ST: Because wind speeds are generally higher in rural areas, installations in some parts of the countryside could, however, provide electricity which is competitive in terms of cost with grid power. [Darn 30, llau. 6-8]

TT: Fodd bynnag gan fod cyflymder y gwynt ar y cyfan yn uwch mewn ardaloedd gwledig, fe allai eu gosod mewn rhai rhannau o gefn gwlad ddarparu trydan a **fedr cystadlu** [fedr gystadlu] gyda phŵer grid o ran cost. [Ymgeisydd 55 - Cyflawn]

4.2 Gwallau cystrawennol

Mae gan bob iaith reolau ynghylch sut y gellir cyfuno geiriau i gyfleu ystyr. Y rheolau hyn, yn y bôn, yw cystrawen yr iaith (Baker, M. 2011: 93).

Ceir mwy nag un rheswm am ysgrifennu cystrawen ddiffygiol, ond wrth gyfieithu gall diffyg cywirdeb cystrawennol fod yn arwydd nid yn unig o broblemau mynegiant yn yr iaith darged, ond hefyd o ymyrraeth gan yr iaith ffynhonnell (Wooldridge 2011: 70-81).

Cafwyd o hyd i dri chategori o wallau cystrawennol yn y corpws a dengys Tabl 6 isod nifer y gwallau a gafwyd ym mhob un o'r categorïau hyn.

Tabl 6: Nifer y gwallau cystrawennol

	Cyfieithiadau Ymgeiswyr Aflwyddiannus (S-C)		Cyfieithiadau Ymgeiswyr Llwyddiannus (S-C)	
	Aelodaeth Sylfaenol	Aelodaeth Gyflawn	Aelodaeth Sylfaenol	Aelodaeth Gyflawn
Camddefnydd y fannod	13	8	1	1
Llunio is-gymalau	18	20	2	3
Cyflenwi berfau, enwau ac ansoddeiriau	22	21	5	2
Is-gyfanswm	53	49	8	6
Cyfanswm	102		14	

Trafodir pob categori yn yr adrannau sy'n dilyn, sef 'Camddefnydd y fannod' (4.2.1), 'Trafferth wrth lunio is-gymalau' (4.2.2) a 'Chyflenwi berfau, enwau ac ansoddeiriau mewn modd ansafonol' (4.2.3). Dechreuir drwy ystyried camddefnydd y fannod.

4.2.1 Camddefnydd y fannod

O gofio mai'r fannod yw'r gair sy'n digwydd amlaf yn y Gymraeg ysgrifenedig gyfoes,⁴⁹ mae'n dipyn o syndod bod cyfieithiadau i'w gweld yn y corpws a amlygodd ansicrwydd ynghylch ei defnydd. Ond gan fod y fannod yn digwydd mor aml ac mewn ystod mor

⁴⁹ Cyfrifwyd y tair ffurf ar y fannod, sef 'y', 'yr' ac 'r'. Am fwy o wybodaeth am y geiriau amlaf eu defnydd yn y Gymraeg, gweler Ellis et al. (2001).

eang o gystrawennau a chyd-destunau, efallai nad yw'n gwbl annisgwyl cael rhai gwallau yn ei chylch.

Yn wahanol i'r Saesneg, bannod benodol yn unig a geir yn y Gymraeg, sef 'y', 'yr' (o flaen llafariad) ac 'r' (ar ôl llafariad); nid oes gan yr iaith fannod amhenodol.⁵⁰ Ond nid yw hyn yn beth anghyffredin. Mae'r iaith Rwsieg, er enghraifft, heb fannod amhenodol na bannod benodol chwaith. Fodd bynnag, gall yn sicr achosi problemau wrth gyfieithu rhwng ieithoedd sydd â systemau gwahanol o ddynodi penodoldeb (Sigurd 1988: 215) a chafwyd nifer o enghreifftiau yn y corpws o'r ymgeiswyr yn defnyddio'r fannod benodol yn eu cyfieithiadau yn hytrach na gadael yr enw heb fannod i gyfateb i'r fannod amhenodol yn y testun Saesneg. Roedd hyn yn wir am ymgeiswyr am Aelodaeth Sylfaenol (4.16) ac ymgeiswyr am Aelodaeth Gyflawn (4.17), fel ei gilydd:

4.16 ST: On Monday the sun shone in a cold sky and I went off in pursuit of a Roman road that crosses the moors of North Wales. [Darn 1, llau. 1-2]

TT: Dydd Llun tywynnai'r haul yn yr [Ø] awyr iasoer, ac euthum i chwilota am ffordd Rufeinig sy'n croesi rhostiroedd Gogledd Cymru. [Ymgeisydd 25 - Sylfaenol]

4.17 ST: Set out below is information about the Scheme that should assist with the completion of form IHT409 in respect of a deceased member. [Darn 32, llau. 9-10]

TT: Isod mae gwybodaeth am y Cynllun a ddylai fod o gymorth wrth lenwi ffurflen IHT409 o ran yr [Ø] aelod ymadawedig. [Ymgeisydd 04 - Cyflawn]

Mae modd dadlau nad yw gwallau o'r fath yn effeithio'n fawr ar ystyr y testun, ond yn yr ail enghraifft uchod, gellir gweld sut y gallai'r defnydd o'r fannod yn y Gymraeg ddrysu'r darllynydd (a fyddai'n tybio a oedd y wybodaeth yn berthnasol i aelod ymadawedig penodol yn unig, yn hytrach nag 'unrhyw' aelod ymadawedig).

Fodd bynnag, gall problemau godi hyd yn oed pan fydd gan ieithoedd fannod 'yn gyffredin', fel petai, gan fod *defnydd* y fannod yn gallu amrywio'n sylweddol o iaith i iaith. O edrych ar Saesneg a Chymraeg, mae gan y Saesneg y fannod benodol 'the', sy'n

⁵⁰ Wrth gyfeirio at 'y fannod' yn yr adran hon, felly, gyfeirir at y fannod **benodol** bob tro, oni nodir yn wahanol.

cyfateb i'r fannod benodol 'y' yn y Gymraeg, ond eto mae'r defnydd o'r ddwy fannod yn dra gwahanol yn y ddwy iaith, gan olygu bod angen i gyfieithwyr fod yn wyliadwrs iawn rhag efelychu patrymau a chystrawen y Saesneg yn eu cyfieithiadau (Gruffudd 2005: 22-6). Er enghraifft, defnyddir y fannod yn y Gymraeg o flaen adegau'r flwyddyn (megis 'y Pasg', 'y Nadolig'), lle na cheir y fannod yn y Saesneg ('Easter', 'Christmas'), a chydag enwau rhai gwledydd, teitlau pobl ac ati. Ar y llaw arall, ni ddefnyddir y fannod mewn rhai cystrawennau yn Gymraeg lle mae Saesneg yn tueddu i'w defnyddio, megis o flaen enwau afonydd. Gwelwyd yn y corpws enghreifftiau o'r cyfieithwyr yn baglu'r naill ffordd a'r llall, fel y trafodir isod.

- *Hepgor / ychwanegu'r fannod*

Gwall cystrawennol digon cyffredin, yn ôl yr arholwyr, oedd peidio ag ailadrodd y fannod mewn cyfres neu restr o enwau penodol (Thomas 1996: 209). Yn wir, dengys enghraifft 4.18 isod sut y dilynodd y cyfieithydd gystrawen y testun Saesneg drwy ddefnyddio'r fannod o flaen 'holl blanhigion', ond ei hepgor wedyn o flaen yr enwau nesaf yn y gyfres, sef 'adar' a 'gloynnod byw':

4.18 ST: I had just had a week's holiday in Suffolk and I intended to write about **all the lovely plants, birds and butterflies** that we never see here in West Wales. [Darn 17, llau. 1-3]

TT: 'Roeddwn newydd gael wythnos o wyliau yn Suffolk, ac 'roeddwn yn bwriadu ysgrifennu am **yr holl blanhigion, adar a gloynnod byw hyfryd** [yr holl blanhigion, yr adar a'r gloynnod byw hyfryd] nad ydym byth yn eu gweld yma yng Ngorllewin Cymru. [Ymgeisydd 50 - Sylfaenol]

Mewn enghreifftiau eraill yn y corpws cafodd y fannod ei hychwanegu yn ddianghenraid. Er enghraifft, nid yw'n arferol rhoi'r fannod o flaen enw afon yn Gymraeg (Ifans 2006: 316-17),⁵¹ ond cafwyd enghreifftiau o gyfieithwyr yn ychwanegu'r fannod, o bosib o dan ddylanwad y gystrawen Saesneg eto (Thomas 1996: 186). Yn 4.19 isod, er enghraifft, mae'r cyfieithydd wedi trosi 'the Thames' yn 'yr afon Tafwys', ond sylwer ei fod wedi llwyddo i Gymreigio'r ymadrodd drwy ychwanegu'r enw 'afon' at yr enw priod 'Tafwys':

⁵¹ Ceir dau eithriad i'r rheol, sef y Fenai a'r Iorrdonen.

- 4.19 ST: In a stunning lack of joined-up thinking, oyster smacks were fishing the mouth of **the Thames** as the sewage boats, quite literally, dropped their load. [Darn 23, llau. 16-17]

TT: Mewn diffyg ymdrech syfrdanol i feddwl yn gydgysylltiedig, roedd cychod wystrys yn pysgota yng ngheg **yr afon Tafwys** [yng ngheg afon Tafwys] wrth i'r llongau carthffosiaeth fynd ati'n llythrennol i ollwng eu llwyth. [Ymgeisydd 01 - Cyflawn]

Fel y noda Ifans (2006: 317), “Ni ddylid defnyddio enw afon heb na bannod na’r gair *afon* o’i flaen.”

O siarad yn gyffredinol, mae ychwanegu enw priod neu enw penodol at unrhyw ymadrodd yn Gymraeg yn troi’r ymadrodd hynny yn un pendant. Mewn achosion o’r fath nid oes angen cael y fannod o flaen yr ymadrodd (fel y’i ceir yn Saesneg) oherwydd bod yr enw penodol yn cyfleu’r pendantsrwydd. Ond baglodd rhai cyfieithwyr yn hyn o beth. O edrych ar y cyfieithiad yn 4.20 isod, er enghraifft, gwelir bod enw penodol, sef ‘IHT400’, ar y ffurflen cyfrif treth etifeddu, ac felly nid oedd angen cael y fannod o flaen yr ymadrodd:

- 4.20 ST: If the estate owes inheritance tax, the main form that needs to be completed is **the IHT400 inheritance tax account form**. [Darn 32, llau. 5-6]

TT: Os bydd treth etifeddu’n ddyladwy gan yr ystâd, y brif ffurflen, y mae’n rhaid ei chwblhau, **yw’r ffurflen** [yw ffurflen] **cyfrif treth etifeddu IHT400**. [Ymgeisydd 34 - Cyflawn]

Efallai mai dyna’r rheswm pam na ddefnyddiwyd y fannod gan ymgeisydd 12 yn 4.21 isod, gyda’r cyfieithydd yn credu (ar gam) bod y disgrifiad ‘£10 miliwn’ wedi troi’r ‘fenter’ yn un benodol? Ond yng ngeiriau’r arholwr, “wrth gyfieithu ‘part of the £10 million initiative’, mae angen cadw’r fannod yn y Gymraeg, a chyfeirio at ‘rhan o’r fenter...’ er mwyn bod yn benodol”:

- 4.21 ST: Other research being funded as **part of the £10 million initiative** includes a study into pollinators in cities, the impacts of disease on pollinating insects and the effects of modern agriculture on bees. [Darn 34, llau. 14-16]

TT: Mae gwaith ymchwil arall a ariennir **fel rhan o fenter £10 miliwn** [fel

rhan o'r fenter £10 miliwn] yn cynnwys astudiaeth i beillwyr mewn dinasoedd, effeithiau clefydau ar bryfed peillio ac effaith amaeth modern ar wenyn. [Ymgeisydd 12 - Cyflawn]

Cyd-destun arall lle na ddefnyddir y fannod yn Gymraeg yw pan geir enw personol,⁵² ond chafwyd enghraifft o ymgeisydd yn ychwanegu'r fannod i'r enw priod 'Baal' (gw. 4.22 isod). Ni cheir bannod benodol yn y gystrawen Saesneg, felly tybed a oedd y cyfieithydd wedi cael ei ddrysu gan y rheol bod angen y fannod os rhagflaenir enw personol gan deitl, e.e. yr Esgob William Morgan, gan feddwl bod 'Baal' yn rhan o ryw deitl, neu a oedd hyd yn oed wedi credu bod Baal yn enw lle (gan gofio y defnyddir y fannod o flaen enwau rhai llefydd, e.e. y Bala)?

4.22 ST: You won't need to be told that it was on Mount Carmel that Elijah overthrew the 450 prophets of **Baal**. [Darn 18, llau. 11-12]

TT: Mae'n siŵr y gwyddech mai ar Fynydd Carmel y dymchwelodd Elias 450 o **broffwydi'r Baal** [broffwydi Baal]. [Ymgeisydd 24 - Sylfaenol]

Neu a oedd, yn syml, wedi cael trafferth gyda'r ymadrodd genidol 'the (450) prophets of Baal', gan gredu bod angen cael y fannod yn rhywle yn yr ymadrodd? Sylwer, i gymhlethu pethau ymhellach, nad oedd wedi cynnwys y fannod o flaen y rhif '450' (ac roedd hyn yn wir mewn 2 gyfieithiad arall o'r frawddeg hon yn y corpws). Yn sicr, mae'n wir dweud i'r genidol achosi trafferth i nifer o'r cyfieithwyr yr oedd eu gwaith wedi ei gynnwys yn y corpws, a thrafodir y math o broblemau a gododd yn yr adran nesaf.

- *Y genidol*

Nodir yn Thorne (2000: 123-5) fod pedwar math o ymadroddion genidol (neu ymadroddion enwol dibynnol) yn y Gymraeg, sef y genidol meddiannol, y genidol cyfrannol, y genidol cyfartal (neu gyfosodol), a'r genidol ansoddeiriol (neu ddisgrifiadol), a dangosodd y cyfieithiadau yn y corpws bod cryn ansicrwydd ymhlith yr ymgeiswyr o ran llunio ymadroddion genidol, fel y trafodir isod.

⁵² Gw. Thomas (1996: 183-4) am eithriadau i'r rheol hon (mewn arddulliau hynafol yn anad dim), a phan ddefnyddir enwau priod yn enwau cyffredin.

Y genidol meddiannol

Nid yw cystrawen y genidol meddiannol yn debyg yn Saesneg a Chymraeg. Yn y bôn y defnydd o'r fannod sydd yn wahanol; pan fydd y fannod yn digwydd ar gychwyn ymadrodd genidol meddiannol yn Saesneg, e.e. "the University of Wales", ni cheir y fannod yn Gymraeg o gwbl, e.e. "Prifysgol Cymru", a phan fydd y fannod ar gychwyn ac ar ganol yr ymadrodd, e.e. "the head of the college", dim ond yng nghanol yr ymadrodd y bydd angen y fannod yn y Gymraeg, e.e. "pennaeth y coleg" (Gruffudd 2005: 25). At hynny nid oes arddodiad yn y gystrawen Gymraeg. Ond cafwyd enghreifftiau o gyfieithwyr yn dilyn cystrawen y testun Saesneg drwy ddefnyddio'r fannod ar ddechrau'r ymadrodd a'r arddodiad 'o' rhwng yr enwau. Yn 4.23 isod, er enghraifft, troswyd 'the number of households' yn 'y nifer o aelwydydd' yn lle 'nifer yr aelwydydd':

- 4.23 ST: Between 2003 and 2008 (the latest available figures) **the number of households** in fuel poverty here rose from 2 to 4.5 million. [Darn 35, llau. 9-10]

TT: Rhwng 2003 a 2008 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael) cynyddodd y **nifer o aelwydydd** [nifer yr aelwydydd] sy'n ddioddef tlodi tanwydd o 2 filiwn i 4.5 miliwn. [Ymgeisydd 35 - Cyflawn]

Gwelwyd enghreifftiau hefyd o ymgeiswyr yn defnyddio'r fannod ar ddechrau ac ar ganol ymadroddion genidol, fel yn y testun Saesneg. Er enghraifft, cafwyd y fannod o flaen yr ymadrodd 'glaswellt gwynnach y rhostiroedd' yn 4.24 isod, ond dim ond o flaen 'rhostiroedd' y dylai'r fannod fod:

- 4.24 ST: It is a sweeter bite than **the tougher grasses of the moorlands**. [Darn 1, llau. 8-9]

TT: Y mae'n damaid melysach **na'r glaswellt gwynnach y rhostiroedd** [na glaswellt gwynnach y rhostiroedd]. [Ymgeisydd 52 - Sylfaenol]

Y genidol ansoddeiriol

Sylwer, fodd bynnag, fod modd defnyddio'r fannod o flaen yr ymadrodd genidol pan gaiff yr ail enw ei ddefnyddio'n ansoddeiriol, e.e. 'y garreg fedd', a tybed a oedd

ymgeisydd 36 yn credu bod 'brest simdde' yn y categori yma, wrth gyfieithu'r frawddeg isod:

4.25 ST: But then I was distracted by a muffled scratching sound that came from behind **the chimney breast**. [Darn 17, llau. 3-4]

TT: Ond yna tynnwyd fy sylw gan sŵn crafu distaw a ddaeth o du cefn i'r **frest simdde** [frest y simdde]. [Ymgeisydd 36 - Sylfaenol]

Noda Thorne (2000: 125) fod cymysgu ar lafar rhwng y genidol ansoddeiriol a'r genidol meddiannol pendant, ac felly mae'n bosibl bod yr ymgeisydd wedi defnyddio'r ffurf hon gan mai hon yw'r ffurf a ddefnyddir ganddo ar lafar. Neu, yn syml, efallai fod cysstrawen y testun Saesneg wedi dylanwadu arno.

Y genidol cyfrannol

Wrth drafod y genidol meddiannol uchod, nodwyd nad oedd angen yr arddodiad 'o' yn y gystrawen, ond sylwer bod *rhaidd* defnyddio'r arddodiad yng nghystrawen y genidol cyfrannol, a hynny i ddangos mai rhan yw'r enw cyntaf o gyfanswm mwy, e.e. 'aelod o'r Senedd'. Gwelwyd bod llawer o'r ymgeiswyr yn cymysgu'r rheol hon â rheol y genidol meddiannol, yn enwedig yn achos yr ymadrodd 'nifer o' / 'nifer y'. Yng nghyfieithiad 4.26 isod, er enghraifft, mae'r ymgeisydd wedi defnyddio 'nifer o' yn lle 'nifer yr', gan newid yr ystyr yn llwyr. Fel y nododd yr arholwr, "'nifer yr Eidalwyr' fyddai'n gywir yma gan mai 'the number of' yn hytrach na 'a number of/many' yw'r ystyr yn Saesneg".

4.26 ST: Mercifully, there is now a **growing** Italian lobby against the indiscriminate slaughter of birds and what we can all do is make our disapproval known, especially to anyone involved with Italian tourism. [Darn 9, llau. 14-16]

TT: Diolch byth, mae **nifer o** [nifer yr] Eidalwyr sy'n pwyso yn erbyn lladd adar yn ddiwahân yn tyfu, a gall pob un ohonom ddangos nad ydym yn cymeradwyo'r weithred, yn enwedig i unrhyw un sy'n ymwneud â thwristiaeth yn yr Eidal. [Ymgeisydd 63 - Sylfaenol]

Fodd bynnag, wrth gloi rhaid nodi nad yw pethau'n hollol ddu a gwyn wrth ystyried y defnydd o'r fannod yn y Gymraeg. Mae enghraifft 4.27 isod yn achos perthnasol. Ymddengys fod trosi 'bees' ability' yn fater o gyfieithu ymadrodd genidol

amhendant, sef 'the ability of bees' ond yr hyn a gafwyd yn y cyfieithiad oedd 'gallu'r gwenyn', sef 'the ability of **the** bees' a nododd yr arholwr wrth dafoli'r cyfieithiad: "Elfen arall a achosodd drafferthion yma oedd y defnydd o'r fannod ... mae 'bees' ability' yn cyfeirio at wenyn yn gyffredinol, ac felly ni ddylid defnyddio'r fannod, ac mae'r un peth yn wir yn achos 'other bees' ar ddiwedd y paragraff." Ond, mewn gwirionedd, mae rhai Cymry Cymraeg yn defnyddio'r fannod o flaen 'gwenyn', a hynny wrth siarad am wenwyn yn gyffredinol, gweler er enghraifft yr erthygl "Bywyd dirgel **y gwenyn** / The secret life of bees" ar wefan Cyngor Sir Penfro.⁵³ Felly, mae modd dadlau nad oedd hyn yn wall, yn enwedig o ystyried bod y cyfieithydd wedi defnyddio'r fannod o flaen 'gwenyn' nes ymlaen yn yr un frawddeg, wrth gyfeirio at wenyn cyffredinol eto.

4.27 ST: The study is examining concerns that pesticides could be damaging **bees' ability** to gather food, navigate and even perform their famous "dance" which tells **other bees** where nectar can be found. [Darn 34, llau. 2-4]

TT: Archwilia'r astudiaeth bryderon y gallai plaladdwyr niweidio **gallu'r gwenyn** i gasglu bwyd, dod o hyd i'r ffordd a hyd yn oed berfformio eu dawnws enwog sy'n dweud wrth **y gwenyn eraill** lle mae neithdar i'w gael. [Ymgeisydd 22 - Cyflawn]

Wrth grynhoi'r adran hon, felly, mae'n amlwg bod y defnydd o'r fannod yn y Saesneg yn dra gwahanol i'r defnydd o'r fannod yn y Gymraeg ond nid oedd pob un o'r ymgeiswyr wedi cofio hynny a gwelwyd nifer o wallau o ganlyniad.

Yn yr adran nesaf troir o ystyried geiryn bach i drafod trafferthion wrth lunio cymalau.

4.2.2 Llunio is-gymalau

Mae'r iaith Saesneg i'w gweld yn iaith sy'n llawer mwy tueddol o ddefnyddio brawddegau hir, aml-gymalog nag yw'r iaith Gymraeg, a dylai cyfieithwyr fod yn ymwybodol o hyn wrth iddynt fynd ati i lunio testunau Cymraeg (Gruffudd 2005: 64). Hynny yw, os ydynt am greu cyfieithiadau llwyddiannus, sy'n naturiol ac yn gyson â

⁵³ Gw. <http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=101,2212&id=31294&language=cym>. Cyrchwyd 13.03.2015.

phatrymau'r Gymraeg, yno yn aml iawn mae'n rhaid iddynt rannu'r brawddegau hir, aml-gymalog a geir yn y testunau Saesneg a chyfosod brawddegau syml, annibynnol yn eu lle. Gelwir y broses hon yn *parataxis* ac mae'n broses a gaiff ei hargymell yn aml gan arholwyr cyfieithiadau'r corpws. Er enghraifft, wrth drafod cyfieithiad y frawddeg isod gan ymgeisydd 09, awgrymodd yr arholwr y dylai'r ymgeisydd fod wedi "cymryd y rhyddid i greu dwy frawddeg", a hynny "er mwyn amlygu'r ystyr":

- 4.28 ST: National Grid has confirmed that it is looking at plans for high-voltage lines across mid-Wales to carry green electricity from the many wind farms planned there to energy-hungry southern England, since the existing system is wholly incapable of delivering the low carbon power we hope to generate in future. [Darn 30, llau. 18-21]

TT: Mae'r Grid Cenedlaethol wedi cadarnhau ei fod yn edrych ar gynlluniau ar gyfer llinellau foltedd uchel ar draws canolbarth Cymru i gludo trydan gwyrdd o'r ffermydd gwynt niferus sydd wedi'u cynllunio yno i dde Lloegr sydd ag angen dybryd am ynni, gan fod y system bresennol yn gwbl anaddas i ddarparu'r pŵer carbon isel yr ydym yn gobeithio ei gynhyrchu yn y dyfodol. [Ymgeisydd 09 - Cyflawn]

Tynnodd y Prif Arholwr yntau sylw at y broses hon wrth dafoli cryfderau a gwendidau'r cyfieithiadau a gynigiwyd ar gyfer llinellau 8-10 yn Narn 21 (gw. 4.29 isod), gan nodi bod "llawer o ymgeiswyr wedi cael trafferth â'r olyniad: *the tiny island, just 5km long and 3km wide, is a two-and-a-half-hour ferry from...*". Esboniodd, "Digwyddai'r olyniad hwn mewn brawddeg hir a chymhleth ei chyfluniad a da oedd gweld bod gan amryw ymgeiswyr y synnwyr cyffredin a'r hyder i'w rhannu'n ddwy neu dair brawddeg. Roedd eu cyfieithiadau o ganlyniad yn fwy grymus." (APAAG07H). Dangosir isod, er enghraifft, sut y llwyddodd ymgeisydd 61 i ail-drefnu'r frawddeg wreiddiol a chreu dwy frawddeg annibynnol newydd yn ei gyfieithiad:


- 4.29 ST: Forty kilometers south west of Sumburgh Head, the southernmost point on the Shetland mainland, the tiny island, just 5km long and 3km wide, is a two-and-a-half-hour ferry from the nearest landfall and has no pub, hotel or restaurant. [Darn 21, llau. 8-10]

TT: Mae'r ynys fach hon, sydd ond 5km o hyd a 3km o led, bedwar deg cilomedr i'r de-orllewin o Symburgh Head, sef y man mwyaf deuheuol [sic] ar dir mawr Shetland. Nid oes tafarn, gwesty na thŷ bwyta yno ac mae'n rhaid hwylio am ddwy awr a hanner ar long fferi i ganfod y tir agosaf.

[Ymgeisydd 61- Cyflawn]

Fodd bynnag, er bod hon yn egwyddor sylfaenol y dylid ei chofio wrth gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, mae'n amlwg nad yw bob tro yn bosibl llunio brawddegau syml, annibynnol wrth drosi. O gymryd y frawddeg Saesneg 'Close the door when you get back', er enghraifft, mae'n eglur y dylid ei chyfieithu yn 'Caewch y drws pan ddewch yn ôl', sef drwy ddefnyddio brawddeg gymhleth gyda phrif gymal ac is-gymal. Byddai hepgor y cysylltair 'pan' i greu dwy frawddeg annibynnol, 'Caewch y drws. Dewch yn ôl', yn newid yr ystyr yn llwyr, gan fod ystyr yr ail gymal yn dibynnu ar y cyntaf (Thomas 1996: 466-7). Hyd yn oed yn enghraifft 4.29 uchod, lle roedd yr ymgeisydd wedi llwyddo i greu dwy frawddeg annibynnol, nid oedd modd iddo osgoi defnyddio is-gymal ('sydd ond 5km o hyd a 3km o led') yn y frawddeg gyntaf. Mae'n dilyn, felly, ei bod yn bwysig bod cyfieithwyr yn gwybod sut i greu brawddegau cymhleth, drwy ddefnyddio proses a elwir yn *hypotaxis*, a hynny er mwyn cadw cydlyniad yn eu cyfieithiadau, fel y dangosir yn Ffigwr 15 isod.

Ffigwr 15: Brawddeg gymhleth gyda phrif gymal ac is-gymal (cymal isradd)



Ffynhonnell: Thorne (2000: 203)

(T=Traethiedydd; G=Goddrych; D=Dibeniad; A=Adferf)

Ceir tri math o is-gymal (neu 'gymal dibynnol', 'cymal isradd') yn Gymraeg, sef yr is-gymal enwol, yr is-gymal perthynol (neu 'ansoddeiriol'), a'r is-gymal adferfol. Yn ôl Gruffudd (2005: 56), "mae meistrolï sut i gyfieithu is-gymalau'n un o hanfodion cyfieithu", ond dangosodd y cyfieithiadau a gafwyd yn y corpws nad oedd pob ymgeisydd yn sicr ei afael ar gystrawen is-gymalau Cymraeg, a chafwyd, o ganlyniad, nifer o wallau yn eu cylch, fel y nodwyd yn Nhabl 6 uchod. Yn arwyddocaol, cafwyd mwy o wallau yng ngwaith yr ymgeiswyr ar lefel gyflawn nag yng ngwaith yr ymgeiswyr ar lefel sylfaenol a chafwyd gwallau yn sgriptiau'r ymgeiswyr llwyddiannus hefyd.

At ei gilydd, roedd y rhan fwyaf o wallau yn y corpws yn ymwneud â dewis y geiryn anghywir wrth gyflwyno'r is-gymal, e.e. 'mai' yn lle 'bod', a thrafodir y gwallau hyn yn y man, ond gwelwyd enghreifftiau hefyd lle na sylweddolodd yr ymgeisydd fod angen is-gymal yn y cyfieithiad, a defnyddiwyd dau brif gymal annibynnol yn lle. (Mae'n bosibl hefyd fod yr ymgeisydd *wedi* sylweddoli bod angen is-gymal, ond iddo ddefnyddio dau gymal annibynnol gan nad oedd yn gwybod sut i lunio'r is-gymal yn y cyfieithiad, wrth gwrs.)

- *Defnyddio dau brif gymal*

Methodd sawl ymgeisydd greu brawddegau cymhleth yn eu cyfieithiadau, sef brawddegau gyda phrif gymal ac is-gymal; roedd hyn yn wir am yr ymgeiswyr am Aelodaeth Sylfaenol yn ogystal â'r ymgeiswyr am Aelodaeth Gyflawn. Er enghraifft, o edrych ar enghraifft 4.30 isod, gwelir bod ymgeisydd 62 wedi methu creu'r is-gymal enwol 'bod staff cymorth ...', gan gynhyrchu prif gymal sy'n dechrau gyda 'mae staff cymorth' ochr yn ochr â phrif gymal arall 'y gwir amdani yw', ond o leiaf defnyddir atalnodi call i rannu'r ddau brif gymal:

4.30 ST: The fact is **that**, almost without exception, customer service staff are useless at providing any kind of customer service. [Darn 8, llau. 11-12]

TT: Y gwir amdani yw, **mae** [y gwir amdani yw bod] staff cymorth i gwsmeriaid bron yn ddiethriad yn ddiwerth wrth ddarparu unrhyw fath o wasanaeth i gwsmeriaid. [Ymgeisydd 62 - Sylfaenol]

Yn yr un modd, baglodd ymgeisydd 55 wrth drosi brawddeg 4.31 isod, gan hepgor y geiryn 'y' o flaen y cymal enwol 'gallai ynni gwynt...', gan ddangos nad oedd yn sylweddoli mai 'Dywed yr adroddiad' oedd y prif gymal a bod angen llunio is-gymal enwol i'w ddilyn. Mae hynny'n dipyn o syndod gan fod y gair 'that' yn y testun Saesneg yn rhoi cliw mai cymal enwol sydd yma. (Weithiau mae'r Saesneg yn hepgor y gair 'that' a byddai'n haws deall pam yr hepgorwyd y geiryn 'y' gan gyfieithwyr mewn achosion o'r fath.) Ond sylwer y daeth yr ymadrodd 'mewn theori' rhwng y prif gymal a'r is-gymal ac efallai nad oedd yr ymgeisydd wedi sylwi ar y ffaith mai is-gymal oedd i fod yno. Mae'n werth nodi hefyd fod yr ymgeisydd wedi defnyddio'r geiryn berfol 'fe' o flaen y ferf yn lle y geiryn enwol 'y'. A oedd yn gwybod bod angen geiryn yma ond wedi dewis yr un anghywir?

- 4.31 ST: The report said **that** in theory, small-scale wind energy could generate some 12% of UK electricity consumption - and save 17.8 million tonnes of carbon a year in the UK. [Darn 30, llau. 12-13]

TT: Dywed yr adroddiad mewn theori, **fe allai** [y gallai] ynni gwynt ar raddfa fechan gynhyrchu rhyw 12% o ofynion trydan gwledydd Prydain – gan arbed 17.8 miliwn tonnell o garbon y flwyddyn ym Mhrydain. [Ymgeisydd 55 - Cyflawn]

Cafwyd hefyd enghreifftiau i'r gwrthwyneb, lle defnyddiwyd is-gymal yn lle prif gymal. Yn 4.32 isod, gwelir y geiryn enwol 'mai', a hynny yng ngwaith ymgeisydd ar lefel gyflawn, ond prif gymal sydd yma nid is-gymal ac felly 'mae' y dylai fod. Fel y nododd yr arholwr: "Cychwynnodd yn fedrus drwy lwyddo i gyfieithu *"While the majority of people who work and use the NHS are honest..."* yn rhwydd a chymen, ond tipyn o syndod wedi hynny oedd cael y ffurf "mai" yn hytrach na'r ferf "mae" yn y prif gymal sy'n dilyn y cymal amodol agoriadol. Roedd hwn yn wall sylfaenol iawn na ddisgwylid ei gael mewn ymgais i ennill aelodaeth gyflawn."

- 4.32 ST: While the majority of people who work and use the NHS are honest, **there is** a minority who will seek to defraud the NHS of its valuable resources. [Darn 28, llau. 1-2]

TT: Tra bo'r mwyafrif o'r bobl sy'n gweithio i'r GIG ac sy'n ei ddefnyddio yn rhai gonest, **mai** [mae] lleiafrif a geisiai dwyllo'r GIG o'i adnoddau gwerthfawr. [Ymgeisydd 28 - Cyflawn]

Byddai modd dadlau mai llithriad o dan bwysau arholiad oedd hwn, ond mae'n wir dweud yn gyffredinol fod ansicrwydd ynghylch y defnydd o 'mae' a 'mai' ymysg yr ymgeiswyr.

Fodd bynnag, nid cymalau enwol yn unig a achosodd drafferth i'r cyfieithwyr. Cafwyd hefyd achosion lle roedd ymgeiswyr wedi hepgor y geiryn perthynol, gan beri gofyn a oeddynt yn gwybod mai is-gymal ansoddeiriol oedd, gw. 4.33 isod.

- 4.33 ST: Regulations 4 (9) and (13) contain amendments to the 2006 Regulations which prevent a teacher or member of support staff **supplied** by an agency from working at a school until the agency have confirmed that checks have been carried out, and schools are required in their arrangements with agencies to place them under an obligation to provide this information. [Darn 24, llau. 8-11]

TT: Mae Rheoliadau 4 (9) a (13) yn cynnwys diwygiadau i Reoliadau 2006 sy'n rhwystro athro/athrawes neu aelod o staff cefnogi (**angen 'y'**) mae asiantaeth wedi'i (d)darparu rhag gweithio mewn ysgol hyd nes bod yr asiantaeth wedi cadarnhau bod gwiriadau wedi'u cynnal, ac mae'n ofynnol i ysgolion, yn eu trefniadau ag asiantaethau, eu gorfodi i ddarparu'r wybodaeth hon. [Ymgeisydd 68 - Cyflawn]

Ond mae'n rhaid cofio bod tuedd gynyddol i'r geiryn perthynol 'y' gael ei hepgor ar lafar. Noda Thorne (2000: 143), "Mewn ysgrifennu anffurfiol ac ar lafar diflanna'r geiryn perthynol [y] yn aml." Mae'n bosibl, felly, fod y cyfieithwyr wedi meddwl bod cywair y darn yn caniatáu'r fath lacrwydd.

Sylwyd ar wall tebyg yng ngwaith ymgeisydd ar lefel sylfaenol, gw. (4.34) isod. Fel y nododd yr arholwr, "Mae gennych ddwy frawddeg annibynnol yma, ond heb atalnod llawn rhyngddynt. Ceisio cyfieithu cymal perthynol yr ydych chi, ond fyddech chi ddim wedi cael eich cosbi am gyfleu'r ystyr â dwy frawddeg, petaech chi wedi atalnodi'n gywir." Yn yr enghraifft hon, fodd bynnag, ymddengys fod yr ymgeisydd wedi ceisio 'osgoi' defnyddio is-gymal perthynol, gan nad oedd yn gwybod sut i'w lunio efallai.

- 4.34 ST: For scattered among them were several clumps of a plant with thin straggly stems **which I** immediately **recognised**; and when I looked at them closely I found they were covered with little purple flower buds. [Darn 11, llau. 10-12]

TT: Oherwydd wedi'u gwasgaru yn eu mysg oedd sawl clwstwr o blanhigyn gyda choesau main ac ymledol, **gwyddwn** yn syth pa blanhigyn oedd hwn [yr oeddwn yn ei adnabod yn syth]; a phan edrychais ar y coesau'n agos gwelais flagur blodau porffor bychain yn eu gorchuddio. [Ymgeisydd 65 - Sylfaenol]

Yn yr un modd, hepgorwyd y geiryn perthynol 'sy/sydd' ddwywaith gan yr ymgeisydd yn yr enghraifft isod, gan ddefnyddio'r berfenw yn lle sylweddoli bod 'holding firm' a 'slipping' yn gymalau perthynol yr oedd rhaid eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r geiryn perthynol 'sy/sydd':

- 4.35 ST: Mandarin Chinese has 1,000 million speakers – one-sixth of humanity – while English and Spanish are spoken as a first language by roughly 300 million each; Hindi (**holding firm**), and Russian (**slipping**) come in just below 200 million. [Darn 31, llau. 2-5]

TT: Mae 1,000 miliwn yn siarad Tsieinëeg Mandarin - chweched ran o'r ddynoliaeth - tra bod tua 300 miliwn yr un yn siarad Saesneg a Sbaeneg fel iaith gyntaf; mae ieithoedd Hindi (**dal yn gadarn** [sy'n dal yn gadarn]) a Rwsieg (**colli tir** [sy'n colli tir]) yn ymddangos ychydig o dan 200 miliwn. [Ymgeisydd 34 - Cyflawn]

Mae'n wir dweud bod yr iaith Saesneg wedi dod yn fwyfwy cywasgedig ac mae ffurfiau megis 'holding firm' a 'slipping' yn dderbyniol ac yn ddealladwy (Leech et al. 2009: 249-252), ond nid yw'r iaith Gymraeg wedi datblygu yn y fath fodd, ac felly dylai'r ymgeisydd fod wedi cynnwys y geirynnau perthynol yn yr achos hwn.

Ar wahân i'r gwallau a nodwyd uchod, a oedd yn ymwneud â pheidio â llunio is-gymal, roedd gweddill y gwallau yn rhai a oedd yn ymwneud â dewis y geiryn anghywir i gyflwyno'r is-gymal.

- *Dewis y geiryn anghywir*

'Bod' yw'r geiryn sy'n cyflwyno'r is-gymal enwol fel arfer, ond nid yw cymalau enwol yn unffurf yn hyn o beth. Gan ddibynnu ar strwythur ac amser y ferf, mae'n bosibl iddynt gael eu cyflwyno gan 'i' 'bod', neu 'y', a chânt eu cyflwyno gan 'mai' pan fydd pwyslais ar un o'u helfennau a chan 'nad' pan fo'r cymal yn un negyddol. Yn achos cymalau holiadol, byddant yn cael eu cyflwyno gan y geiryn 'a'. Fodd bynnag, amlygodd yr enghreifftiau a

gafwyd yn y corpws fod ansicrwydd ymhlith yr ymgeiswyr ynglŷn â'r defnydd priodol o'r geirynnau hyn.

Er enghraifft, yn 4.36 isod gwelir i'r ymgeisydd ddewis y geiryn 'mai' i gyflwyno'r is-gymal, ond nid oes pwyslais ar un o'r elfennau yn y cymal enwol felly dylai fod wedi dewis y geiryn 'bod':

4.36 ST: Sarn is Welsh for a road and Helen could be a corruption of an early Welsh word meaning "of the legions". [Darn 1, llau. 11-12]

TT: Mae Sarn yn air arall yn y Gymraeg am 'ffordd' ac efallai **mai'r** [fod y] gair Helen wedi'i lygru o "o'r llengoedd". [Ymgeisydd 31 - Sylfaenol]

Mae'n wir dweud i'r geiryn 'mai' achosi trafferth i sawl ymgeisydd a chafodd ei ddrysu â ffurf trydydd unigol presennol 'bod' mewn nifer o gyfieithiadau yn y corpws. Gweler, er enghraifft, y cyfieithiad yn 4.37 isod. Cymal enwol â phwyslais sydd yma, felly 'mai' y disgwyliid gweld ac nid 'mae', sef ffurf ar y ferf 'bod' mewn prif gymal.

4.37 ST: It was the antiquarian, Thomas Pennant, who first put this hill fort on the map by declaring it "the most perfect British post I ever beheld." [Darn 7, llau. 10-11]

TT: Yr Hynafiaethydd Thomas Pennant roddodd y bryn hwn ar fap am y tro cyntaf gan ddatgan **mae** [mai] hi oedd "y gaer Brydeinig berffeithiaf a welais erioed." [Ymgeisydd 27 - Sylfaenol]

Wrth gwrs, mae ynganiad 'mae' a 'mai' yr un yn y de ac felly ni chlywir y gwahaniaeth gan gyfieithwyr y de. Ai dyma ran o'r broblem, felly?

4.2.3 Cyflenwi berfau (ac enwau ac ansoddeiriau)⁵⁴

Wrth drafod rôl berfau yng nghystrawen y Gymraeg, ni ellir diystyru'r math o wrthrychau sy'n cyd-fynd â nhw, achos, fel yr eglura Thomas (1996: 558), "Un o nodweddion sylfaenol pob berf yw'r mathau a'r niferoedd o ymadroddion neu gymalau a all fod yn wrthrychau iddi."

⁵⁴ Hoffwn ddiolch i Mr Berwyn Prys Jones am ei sylwadau cyffredinol am y pwnc hwn, a hynny drwy e-bost yn ystod 2012.

Ceir rhai berfau nad oes modd defnyddio gwrthrych gyda nhw, ac fe'u gelwir yn 'ferfau cyflawn'. Mae 'marw' yn enghraifft o ferf o'r fath: Rydych chi'n gallu marw, ond ni allwch chi *farw rhywun (Hawke 2014: 39). Ar y llaw arall, ceir nifer o ferfau y mae'n rhaid defnyddio gwrthrych gyda nhw, ac fe'u gelwir yn 'ferfau anghyflawn' o'r herwydd. Ymysg y berfau hyn, mae berfau megis 'dangos' a 'gweld': mae'n anghywir, yn gystrawennol, ddweud, er enghraifft, "*Gwelais yn y dref". Mae'n rhaid dweud eich bod wedi gweld *rhywun* neu *rywbeth* yn y dref.

Ond ceir grŵp arall o ferfau sy'n cymryd yr hyn a elwir yn 'wrthrych traws'. Hynny yw, mae'n rhaid cael arddodiad rhwng y ferf a'r gwrthrych, ac oherwydd y berthynas agos rhwng y ferf a'r arddodiad fe'u gelwir yn 'ferfau arddodiadol'. Enghraifft o ferf o'r fath fyddai 'siarad â': "Da chi, siaradwch â'r newyddiadurwr" (Thomas 1996: 560-2).

Yn arwyddocaol, mae pob llyfr gramadeg/iaith, ar wahân i lyfr Thomas (1996: 558-66 a 583-94)⁵⁵, yn anwybyddu'r ffaith bod nifer fawr o *enwau* ac *ansoddeiriau* yn ymbatrymu yn yr un modd â'r berfau cyfatebol, gan gymryd yr un arddodiaid.⁵⁶

O edrych ar Dabl 6 ar ddechrau'r drafodaeth ar wallau cystrawennol, yr hyn a ddaw'n amlwg o'r data yw bod cyfieithwyr Cymru yn ansicr iawn ynglŷn â sut i gyflenwi berfau, enwau ac ansoddeiriau mewn modd safonol. Ac yn annisgwyl, efallai, gwelir bod cynifer o wallau yng ngwaith y cyfieithwyr profiadol ag oedd yng ngwaith y cyw gyfieithwyr. Yn wir, ymddengys fod ceisio llunio cystrawennau safonol yn faen tramgwydd hyd yn oed i'r ymgeiswyr llwyddiannus, yn enwedig y rhai a oedd yn ymgeisio am Aelodaeth Sylfaenol.

Yn fras, roedd tri chategori o wallau. Yn gyntaf, cafwyd cyfieithiadau lle roedd yr ymgeiswyr wedi llunio brawddegau drwy hepgor yr arddodiad disgwylidig. Yn ail, gwelwyd cyfieithiadau a oedd yn cynnwys yr arddodiad, ond yn y lle anghywir yn y

⁵⁵ Er enghraifft, yn ei lyfr *Pa arddodiad?*, mae Lewis yn canolbwyntio ar yr arddodiaid y mae'n rhaid eu defnyddio ar ôl *berfau* yn unig, er iddo gydnabod yn rhagair y llyfr ei ddyled i gyfrol Peter Wynn Thomas (1996), gan bwysleisio'r ffordd y mae Thomas wedi agor y maes i gynnwys *enwau* ac *ansoddeiriau*: "Fel mewn llawer maes gramadegol arall, y mae Mr Thomas wedi mynd ati i daflu goleuni newydd ar ramadeg y Gymraeg a chynnig ffordd o ymdrin â'r defnydd o arddodiaid nid yn unig ar ôl berfau ond hefyd yng nghyswllt enwau ac ansoddeiriau." (Lewis 2007a: 9)

⁵⁶ Ceir eithriadau i'r rheol hon, wrth reswm. O gymryd y ferf 'caru', er enghraifft, mae modd **caru rhn.** ond rhaid dangos **cariad at rn.** a bod yn **garedig tuag at** neu **wrth rn.**

frawddeg. Ac yn olaf, roedd cyfieithiadau a oedd yn cynnwys yr arddodiad, ond yr arddodiad ansafonol.

4.3 Gwallau orgraffyddol

Pennwyd confensiynau orgraff Cymraeg gyfoes yn ôl yn 1928 gan bwyllgor a gadeiriwyd gan Syr John Morris-Jones ac fe'u diweddarwyd ychydig yn 1987 gan bwyllgor o dan gadeiryddiaeth yr Athro Stephen J. Williams. Ond, fel y mae Peter Wynn Thomas (1996: 749) yn esbonio, mae'r ffaith mai pwyllgor sydd wedi pennu'r confensiynau yn golygu nad ydynt bob tro yn cyd-fynd ag arfer gwlad:

Gan mai set o gonfensiynau ysgrifenedig a sefydlwyd gan bwyllgor ac nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad angenrheidiol â'r cyfrwng llafar yw'r orgraff, felly, y mae'n naturiol bod elfen o fypwy ynglŷn â'r argymhellion. Yn wir, yn achos rhai manion ... y mae arfer gwlad i bob diben yn anwybyddu'r cynghorion. Y mae, felly, elfen o densiwn rhwng rhai o argymhellion *Orgraff yr Iaith Gymraeg* ac arferion ysgrifenyddol cyfoes.

Mae Rhiannon Ifans (2006: 234) hyd yn oed yn fwy plaen, gan ddatgan bod y rheolau sillafu wedi newid i'r fath raddau eu bod yn achosi problemau i ysgrifenyddol cyfoes:

Dros y blynyddoedd mae'r rheolau sillafu wedi newid ac felly mae'n anochel fod geiriaduron yn anghyson â'i gilydd gan beri llawer o drafferth i ysgrifenyddol.

Yn wir, mae mwyfwy o ysgrifennu llenyddol a newyddiadurol wedi dechrau defnyddio orgraff sy'n adlewyrchu cyweiriau llafar ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos y cyfryngau digidol. Tynnir sylw at y ffenomen hon gan Dylan Foster Evans yn ei flogiad '*Oes rhiwin yn mynd i'r sdeddfod? Sillafu'r Gymraeg yn yr oes ddigidol*,⁵⁷ lle mae'n honni bod anffurfioldeb y llwyfannau digidol wedi esgor ar ffurfiau yn yr iaith ysgrifenedig "sy'n tynnu'n groes i'r norm", yn enwedig ym maes sillafu, ac mai ymdrech i adlewyrchu ynganiad yr unigolyn sydd yn gyfrifol am y sillafiadau anhraddodiadol:

⁵⁷ Gellir cyrchu'r blogiad yn <https://diferion.wordpress.com/2014/07/28/oes-rhiwin-yn-mynd-ir-sdeddfod/> Cyrchwyd 12.11.2014. Mae Dylan Foster Evans yn Uwch-ddarlithydd yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.

Oherwydd natur anffurfiol y cyfryngau digidol newydd nid pawb sy'n teimlo bod yn rhaid iddynt ddilyn rheolau traddodiadol yr iaith ysgrifenedig ... Un maes sy'n dangos effaith y rhyddid newydd hwn yw sillafu ... pan welwn sillafiadau 'anhraddodiadol' ar lwyfannau digidol megis *facebook* neu *twitter*, un rheswm drostynt yw awydd yr ysgrifenydd i adlewyrchu eu hynganiadau hwy eu hunain yn fanwl gywir.

A chofio bod cyfieithwyr yn darllen deunyddiau o orgraff ffurfiol, safonol ochr yn ochr â'r rhai lle mae'r orgraff yn adlewyrchu'r iaith lafar, teg disgwyl y byddai'r cyfieithiadau yn y corpws yn amlygu rhywfaint o ansicrwydd o ran orgraff, a dengys Tabl 7 nifer y gwallau a ddaeth i'r fei yn y corpws.

Tabl 7: Nifer y gwallau orgraffyddol yn y corpws

	Cyfieithiadau Ymgeiswyr Aflwyddiannus (S-C)		Cyfieithiadau Ymgeiswyr Llwyddiannus (S-C)	
	Aelodaeth Sylfaenol	Aelodaeth Gyflawn	Aelodaeth Sylfaenol	Aelodaeth Gyflawn
Camdeipio	12	7	2	1
Camsillafu	13	2	1	0
Cam-atalnodi	14	3	1	1
Is-gyfanswm	39	12	4	2
Cyfanswm	51		6	

Gwelir bod llawer mwy o wallau orgraffyddol yng ngwaith yr ymgeiswyr am Aelodaeth Sylfaenol o'i gymharu â gwaith yr ymgeiswyr am Aelodaeth Gyflawn, sef y cyfieithwyr mwy profiadol, ac er bod rhai gwallau yng ngwaith yr ymgeiswyr llwyddiannus, prin oeddynt mewn gwirionedd.

Sylwyd ar dri chategori o wall penodol, sef camdeipio, camsillafu a cham-atalnodi, a thrafodir pob un yn ei dro isod.

4.3.1 Camdeipio

Er bod adroddiadau unigol y Byrddau Arholi yn cyfeirio yn aml at wallau sillafu yng ngwaith yr ymgeiswyr, gwallau teipio oedd nifer ohonynt mewn gwirionedd. Cafwyd

felly frawddegau fel yr un ganlynol, lle roedd yr ymgeisydd wedi teipio 'fwy' yn lle 'fyw' ar gam:

- 4.38 ST: When the rescuers finally left they went home to weep, to mourn their dead; to sleepless nights reliving the nightmare; to cherish the children still **alive** and, later, to shout their anger at the criminal stupidity of the officials and politicians who had allowed it to happen. [Darn 2, llau. 16-18]

TT: Pan adawodd yr achubwyr o'r diwedd, aethant adref i wylo, i alaru am y meirw, i nosau digwsg yn ail-fyw'r hunllef, i anwylo'r plant a oedd yn dal i **fwy** [fyw], ac yn hwyrach, i floeddio eu dicter am ffolineb troseddol y swyddogion a'r gwleidyddion a oedd wedi gadael iddi ddigwydd. [Ymgeisydd 52 - Sylfaenol]

Yn amlwg, nid oedd yr ymgeisydd wedi prawfddarllen y cyfieithiad — ni fyddai gwirydd sillafu, megis Cysill, wedi darganfod y gwall, wrth gwrs, gan fod 'fwy' yn sillafiad cywir o'r ansoddair 'mwy' wedi ei dreiglo'n feddal. Yn yr un modd, ni fyddai gwirydd sillafu wedi tynnu sylw at y defnydd o 'pan' yn lle 'pam' yn y cyfieithiad a ganlyn:

- 4.39 ST: **Why** can't they impose restrictions on shooting to bring it in line with the shooting laws of Northern Europe. [Darn 9, llau. 11-12]

TT: **Pan** [Pam] na allant osod cyfyngiadau ar saethu er mwyn cyd-fynd â rheolau saethu Gogledd Ewrop? [Ymgeisydd 54 - Sylfaenol]

Fodd bynnag, roedd digon o enghreifftiau eraill o gamdeipio lle *byddai* Cysill wedi tynnu sylw at y gwallau, e.e. 'ddi-ffeth' (ymgeisydd 16), 'cydymdemlad' (ymgeisydd 19), 'idnetiti', 'astroloegwyr' (ymgeisydd 30), 'amcangyfririwyd' (ymgeisydd 38), 'ddiddordol' (ymgeisydd 45) a 'canolbwynbtio' (ymgeisydd 46). Ac roedd, felly, yn fater o'r cyfieithwyr yn peidio â defnyddio'r adnoddau a oedd ar gael iddynt i brawfddarllen y cyfieithiadau.

Ar y llaw arall, cafwyd rhai cyfieithiadau lle roedd y gwirydd sillafu a oedd ar y cyfrifiaduron yn yr arholiadau wedi 'achosi' gwallau orgraffyddol, gan newid sillafiadau cywir yn sillafiadau anghywir oherwydd nad oedd y cyfieithwyr wedi newid iaith y ddogfen (ymgeiswyr 23, 46 a 60). Gwelwyd, er enghraifft, sawl cyfieithiad lle roedd y ferf 'maent' wedi cael ei newid yn 'meant' oherwydd bod iaith y ddogfen yn Saesneg ar y

cyfrifiadur. Fel y nododd yr arholwr: “Methu newid iaith y ddogfen i’r Gymraeg sydd wedi achosi hyn, wrth gwrs, ond eto, o ystyried bod y gwaith hwn i fod yn lân, yn broffesiynol ac yn barod i’w gyflwyno i gleient, rhaid sicrhau bod lefel y darllen terfynol yn atal gwallau fel hyn rhag llithro trwy’r rhwyd.”

Ond efallai nad oes modd esgusodi ymgeisydd 29 a deipiodd enw’r planhigyn ‘gwlithlys’ yn anghywir dair gwaith yn ei gyfieithiad, a hynny ar ôl i’r testun Saesneg ddarparu’r sillafiad cywir ar gyfer pob ymgeisydd:

4.40 ST: Previous records showed that this sundew (**gwlithlys**) had been reported only once in the county and that was in a peat bog not far from here. [Darn 13, llau. 3-5]

TT: Dangosodd cofnodion cynharach bod y **gwlithys** wedi’i gofnodi unwaith yn unig yn y sir, a hynny mewn mawnog nid nepell o’r fan hon. [Ymgeisydd 29 - Sylfaenol]

Amlygodd y fath wallau camdeipio fod y cyfieithwyr yn esgeulus ac yn araf i ddefnyddio’r adnoddau a oedd ar gael, ac yn sicr eu bod nhw heb brawfddarllen eu cyfieithiadau’n ddigonol. Fodd bynnag, mae’r categori nesaf o wallau yn datgelu nad oedd rhai cyfieithwyr yn gyfarwydd â rheolau sillafu’r Gymraeg.

4.3.2 Camsillafu

Dro ar ôl tro yn yr adroddiadau unigol ac yn adroddiadau’r Prif Arholwyr tynnwyd sylw at gamsillafu (e.e. 44, 52, 21, 47, 36 ac APAAG10G). Yn wir rhestrwyd yn APAAS10G “gwallau sillafu niferus” ymhlith “yr un gwendidau a welwyd ag erioed” a chafwyd adlais o’r geiriau hyn yn adroddiad APAAS09G: “Teimlir ein bod yn canu’r un hen gân bob tro wrth dafoli gwaith ymgeiswyr”. Cyngor yr arholwr oedd mai “... y ffordd sicraf o osgoi’r gwallau [sillafu] hyn (ar ôl defnyddio’r gwirydd sillafu sydd ar y peiriant i ddileu unrhyw wallau teipio) yw darllen y gwaith yn ofalus ar bapur (ochr yn ochr â’r gwreiddiol, ond hefyd fel darn o ysgrifennu Cymraeg gwreiddiol) cyn ei gyflwyno.” Disgwyl y mae’r arholwyr y byddai cyfieithwyr proffesiynol yn medru sillafu heb gymorth cyfrifiadurol. Fel y dywed Rhiannon Ifans (2006: 230):

Beth bynnag fydd gan y dyfodol i'w gynnig o ran help sillafu, fel amryfal eiriaduron a chywirwyr sillafu cyfrifiadurol megis CySill, ni fydd hanner cystal â medru gwneud y dasg eich hunan.

Pa fath o wallau sillafu a gafwyd yn y corpws, felly? Gellir eu categorio'n fras fel a ganlyn:

- Ansicrwydd o ran dyblu llythrennau
- Dryswch wrth ddefnyddio'r llythrennau 'y', 'i', 'u'
- Defnydd anghywir o'r cysylltnod
- Camddefnydd o acenion
- Peidio ag uno/gwahanu geiriau yn iawn
- Camsillafu enwau llefydd
- Defnydd anghywir o briflythrennau

Ymdrinnir â'r categorïau hyn fesul un isod.

- *Ansicrwydd o ran dyblu llythrennau*

Mae'n wir dweud bod ansicrwydd ymhlith y cyfieithwyr ynglŷn â'r angen am ddyblu rhai llythrennau. Dwy lythyren yn unig sy'n dyblu yn Gymraeg, sef 'n' ac 'r' ac fel rheol mae'n rhaid eu dyblu mewn geiriau o fwy nag un sillaf pan fyddant o dan yr acen yn y goben (Ifans 2006: 230). Felly disgwylid 'canolfannau' yn lle 'canolfanau' yng ngwaith ymgeisydd 45, ond 'gwenoliaid' yn lle 'gwennoliaid' yng nghyfieithiadau ymgeiswyr 54 a 63.

- *Dryswch rhwng defnydd y llythrennau 'y', 'i', 'u'*

Gwelwyd camsillafu nifer o eiriau a oedd yn cynnwys y llythrennau 'y', 'i', ac 'u', a chafwyd ffurfiau megis 'pryderi' yn lle 'pryderu' (ymgeisydd 26), 'credid' yn lle 'credyd' (ymgeisydd 30) a 'dilychwyn' yn lle 'dilychwin' (ymgeisydd 36). Yr hyn sy'n amlwg, wrth gwrs, yw pa mor bwysig yw bod cyfieithwyr yn gallu sillafu heb gymorth adnoddau electronig, achos ni fyddai Cysill wedi cywiro 'pryderi' oherwydd ei bod yn ffurf ddilys, sef sillafiad cywir o ail berson unigol presennol y ferf 'pryderu'. Mae 'credid' hefyd yn bodoli fel ffurf ddilys (amhersonol amherffaith y ferf 'credu').

Yn yr un modd, mae 'tin' a 'tun' ill dau yn ffurfiau sydd wedi'u rhestru yng ngeiriaduron y Gymraeg, ond mae eu cymysgu nhw, fel y digwyddodd yng ngwaith ymgeisydd 33, yn wall anffodus a dweud y lleiaf:

4.41 ST: Wearing your **tin** hat and your miner's lamp you bend your back, say goodbye to the trees and the sunshine, and walk far inside the hill along a tunnel until you reach an interior hall where you can stand upright and be told the story of the gold. [Darn 5, llau. 10-13]

TT: Wrth wisgo eich het **tin** [tun] a lamp glöwr a phlygu eich cefn, cewch ddweud ffarwel wrth y coed a'r heulwen, a cherdded ar hyd twnnel ac ymhell i mewn i'r graig nes cyrraedd neuadd fewnol lle allwch sefyll i fyny a gwranddo ar hanes yr aur. [Ymgeisydd 33 - Sylfaenol]

Mae hyn oll yn rhoi taw ar y myth nad oes angen i gyfieithwyr wybod sut i sillafu yn yr oes sydd ohoni, a hynny oherwydd eu bod yn gallu defnyddio'r gwirwyr sillafu ar eu cyfrifiaduron (Sofer 2006: 73). Fel y mae'r enghreifftiau uchod o'r corpws wedi ei ddangos, dim ond hyn a hyn y gall gwirwyr sillafu ei wneud.

- *Defnydd anghywir o'r cysylltnod (heiffen)*

Nododd APAAG08G fod angen i sawl ymgeisydd roi sylw dyladwy i'r iawn ddefnydd o'r cysylltnod. Yn Gymraeg, fe'i defnyddir "i uno geiriau er mwyn ffurfio un ymadrodd disgrifiadol neu air cyfansawdd" (Ifans 2006: 264) ond mae'r rheolau yn gymhleth.

Defnyddiodd rhai cyfieithwyr y cysylltnod lle nad oedd ei angen ac ar y llaw arall hepgorwyd y cysylltnod gan gyfieithwyr eraill. Gwelwyd, felly, enghreifftiau o 'digwsg' yn lle 'di-gwsg' yng ngwaith ymgeiswyr 11 a 52, 'ail fyw' yn lle 'ail-fyw' yng ngwaith ymgeisydd 25, 'hunan atgasedd' yn lle 'hunan-atgasedd' gan ymgeisydd 17 a 'cyn-hanes' yn lle 'cynhanes' gan ymgeisydd 16.

- *Camddefnydd o acenion*

Fel yn achos y cysylltnod, defnyddiodd rhai ymgeiswyr acenion lle nad oedd eu hangen tra cafodd acenion angenrheidiol eu hepgor gan ymgeiswyr eraill. Er enghraifft, rhoddwyd yr acen grom ar y cysylltair 'a' (S. 'and'] yn yr ymadrodd 'â'r geiriau' yn y frawddeg isod:

- 4.42 ST: My immaculately prepared request was greeted with incomprehension **and** the words, "Sorry mate. I have just been transferred from Birkenhead. Can you say it in English?" in a broad scouse accent. [Darn 4, llau. 8-10]

TT: Cafodd fy nghais, a baratowyd mor ofalus, ei gyfarch gyda diffyg dealltwriaeth, **â'r** [a'r] geiriau, 'Mae'n ddrwg gen i ngwas i. Rwyf newydd gael fy nhrosglwyddo o Benbedw. Allwch chi ddweud hynny yn Saesneg?' gydag acen Sgowsaidd gryf. [Ymgeisydd 19 - Sylfaenol]

Ond ni ddefnyddiwyd yr acen ar yr enw 'bran' yn yr enghraifft nesaf o waith ymgeisydd 21:

- 4.43 ST: Up there I could detect very few signs of life, not as much as a raven, a **crow** or even a sheep. [Darn 11, llau. 5-6]

TT: Ar y copaon hynny ni allwn ganfod llawer o olion bywyd, dim cigfran, na **bran** [brân], na dafad hyd yn oed. [Ymgeisydd 21 - Sylfaenol]

Golygodd hyn fod ystyr y gair wedi newid, gan fod 'bran' yn gyfystyr ag eisin neu ruddion grawn a ddidolir oddi wrth y blawd ar ôl malu (gw. GPC td. 308), tra mae 'brân' yn gyfystyr ag aderyn gloywddu ei blu (gw. GPC td. 308). Yn yr achos penodol hwn, wrth gwrs, byddai'r darllenydd yn gallu dirnad ystyr y gair o'r cyd-destun, ond nid yw hynny bob tro yn wir a gallai hepgor acen achosi dryswch i'r darllenydd.

Hepgor yr acen grom gyda'r arddodiad 'a' oedd y gwall mwyaf cyffredin yn y categori hwn, gan ddangos anallu nifer o ymgeiswyr i wahaniaethu rhwng y cysylltair 'a' a'r arddodiaid 'â'. Cafwyd felly 'aed a fy sylw' yng ngwaith ymgeisydd 18 ac 'I ffwrdd a nhw' yn y cyfieithiad o eiddo ymgeisydd 60:

- 4.44 ST: But then I was distracted by a muffled scratching sound that came from behind the chimney breast. [Darn 17, llau. 3-4]

TT: Ond yna, aed **a** [â] fy sylw gan sŵn crafu aneglur a oedd yn dod o gefn brest y simnai. [Ymgeisydd 18 - Sylfaenol]

- 4.45 ST: Some people know exactly what they want to do - all they need is a telephone number and away they go. [Darn 6, llau. 5-6]

TT: Mae rhai pobl yn gwybod yn union beth y meant eisiau ei wneud - y cyfan meant ei angen yw rhif ffôn ac i ffwrdd a [â] nhw, [Ymgeisydd 60 - Sylfaenol]

O ddarllen adroddiad APAAG07G, ymddengys fod yr arholwyr yn credu mai blerwch ar ran yr ymgeiswyr oedd yn gyfrifol am y gwall hwn: “Cyflwynwyd un neu ddau bapur sobor o flêr! Gellir disgwyl i gyfieithydd o leiaf gynnwys acen grom yn electronig ar y llafariaid a, e, i, o ac u.” Fodd bynnag, mae gwaith ymgeisydd 60 yn dangos nad blerwch yn unig sydd ar fai. Gwelwyd yno nad yw'r ymgeisydd yn gwybod rheolau sillafu/gramadeg ynghylch 'ar', 'a'r' ac 'â'r', lle nad oes gwahaniaeth o ran y sŵn i'r glust, e.e. ysgrifennwyd 'gwrando a'r stori'r aur' a 'ddarparu gwybodaeth a chyngor a'r wirfoddoli'.

- *Uno/gwahanu geiriau*

Amlygodd orgraff nifer o'r cyfieithiadau aflwyddiannus anallu'r ymgeiswyr i uno neu wahanu geiriau'n ystyrllon, sydd yn ddangosydd arall o'r duedd i gyfieithwyr ddibynnu ar eu clustiau, ond sydd yn arwydd hefyd o'u hanwybodaeth ynglŷn â rhannau ymadrodd a theithi'r iaith Gymraeg. Defnyddiodd ymgeisydd 46, er enghraifft, yr enw 'pen' wedi'i ddilyn gan yr ansoddair 'agored' (yn lle'r ansoddair 'penagored' - GPC td. 2730-1) i drosi'r ansoddair 'open-ended':

4.46 ST: The original discussion with Dr Carl Clowes resulted in an **open-ended**, completely personal brief and it is one we hope to extend over a longer period of time. [Darn 25, llau. 2-4]

TT: O ganlyniad i'r drafodaeth wreiddiol gyda Dr Carl Clowes cefais rwydd hynt bersonol a **phen agored** [penagored], ac y mae yn un y gobeithiwn ei ehangu dros gyfnod hwy o amser. [Ymgeisydd 46 - Cyflawn]

Yn yr un modd, ysgrifennodd ymgeisydd 28 'ymhen' fel dau air ar wahân yn yr ymadrodd amser 'ym mhen yr hir a'r hwyr' (gw. 4.47 isod), ond nid oes disgwyl i 'ym mhen' fod yn ddau air yn y cyd-destun hwn: 'ymhen' a ddisgwylir bob amser mewn ymadroddion amser. Defnyddir 'ym mhen' i nodi lleoliad (Ifans 2006: 212).

4.47 ST: The seaweed roofs eventually rot and have to be replaced. [Darn 27, llau. 18-19]

TT: **Ym mhen** [ymhen] yr hir a hwyr mae'r toeau gwymon yn pydru ac mae rhaid gosod toeau newydd. [Ymgeisydd 28 - Cyflawn]

Gwelwyd hefyd i rai o'r ymgeiswyr ysgrifennu berfau cryno a goddrych y ferf fel un gair. O edrych ar y cyfieithiad yn 4.48 isod, er enghraifft, mae'r cyfieithydd wedi cyfuno person cyntaf unigol amser presennol y ferf 'gallu' â'r rhagenw ategol, gan greu'r ffurf 'allai'. Ond mae'r ffurf hon yn drydydd person unigol amser amherffaith y ferf 'gallu', wrth gwrs, gan olygu bod ystyr y frawddeg wedi newid.

4.48 ST: Do I have what it takes to work with troubled young people, the disabled or the elderly? [Darn 6, ll. 12]

TT: A **allai** [alla' i] weithio gyda phobl ifanc anniddig, yr anabl neu bobl mewn oed? [Ymgeisydd 33 - Sylfaenol]

- *Orgraff enwau llefydd*

Mae'n hollbwysig i gyfieithwyr fedru sillafu enwau llefydd yn iawn, ond gwelwyd sawl enghraifft o gamsillafu yn hyn o beth. Cafwyd yr enw 'Asisi' yn lle 'Assisi' yng nghyfieithiad 30, ac roedd yn amlwg bod ymgeiswyr 60 ac 45 yn anymwybodol o'r ffurf Gymraeg ar yr enw Saesneg 'Dolaucothi'. Fe'i hysgrifennir fel dau air ar wahân yn y Gymraeg: 'Dolau Cothi'.

Fodd bynnag, mae'r gwallau hyn yn fwy na gwallau sillafu, mewn gwirionedd, gan berthyn i wybodaeth ddiwylliannol. Confensiwn diwylliannol yw penderfyniadau ynghylch Cymreigio enwau lleoedd neu gadw ffurfiau gwreiddiol neu ddilyn ffurfiau Saesneg. Mae'n dangos bod cyfieithydd nid yn gymaint yn camsillafu, ond heb fod yn gwybod beth yw'r rheolau neu'r arfer. Wrth gwrs, mewn arholiad, mae cyfyngiadau ar y ffyrdd i chwilio amdanynt.

- *Priflythrennau*

O siarad yn gyffredinol, hepgorir priflythrennau yn y Gymraeg lle mae hynny'n bosibl (Ifans 2006: 128). Ond ychwanegwyd priflythrennau yn ddiwahân gan yr ymgeiswyr. Er enghraifft, dewisodd ymgeisydd 27 ddefnyddio'r briflythyren 'H' wrth gyfeirio at 'Yr Hynafiaethydd Thomas Pennant' er bod yr enw 'hynafiaethydd' yn ddisgrifiad cyffredinol o'r dyn yn hytrach na rhan o'i deitl:

4.49 ST: It was the **antiquarian**, Thomas Pennant, who first put this hill fort on the map by declaring it "the most perfect British post I ever beheld." [Darn 7, llau. 10-11]

TT: Yr **Hynafiaethydd** [hynafiaethydd] Thomas Pennant roddodd y bryn hwn ar fap am y tro cyntaf gan ddatgan mae hi oedd "y gaer Brydeinig berffeithiaf a welais erioed." [Ymgeisydd 27 - Sylfaenol]

Yn yr un modd 'Saethwr' a gafwyd yng ngwaith ymgeisydd 30, er bod y testun yn cyfeirio at saethwyr anhysbys:

4.50 ST: In Italy the **gunmen** even have the right to invade other people's property in pursuit of their miserable sport. [Darn 9, llau. 7-8]

TT: Mae hyd yn oed hawl gan **Saethwr** [saethwr] yn yr Eidal, feddiannu eiddo pobl eraill gyda'r gorchwyl o ddilyn eu camp druenus. [Ymgeisydd 30 - Sylfaenol]

Parodd enwau llefydd hefyd drafferth i'r ymgeiswyr yn achos y defnydd o briflythrennau. Er enghraifft, defnyddiodd ymgeisydd 63 briflythyren ar gyfer y fannod yn ogystal â'r enw priod yn 'Yr Eidal', ond fel yr esbonia Ifans (2006: 129), ni roir priflythyren i'r fannod sy'n rhagflaenu enw lle pan mae'n rhan o frawddeg, fel yr oedd yn yr achos hwn.

4.51 ST: From time to time I receive picture postcards from friends on holiday in **Italy**. [Darn 9, ll. 1]

TT: O dro i dro rwy'n derbyn cardiau lluniau gan ffrindiau sydd ar eu gwyliau yn **Yr Eidal** [yr Eidal]. [Ymgeisydd 63 - Sylfaenol]

Roedd tri ymgeisydd yn ansicr eu defnydd o'r briflythyren yn yr ymadrodd 'gogledd Cymru'.

4.52 ST: On Monday the sun shone in a cold sky and I went off in pursuit of a Roman road that crosses the moors of **North Wales**. [Darn 1, llau. 1-2]

TT: Ddydd Llun, disgleiriodd yr haul mewn wybren oer a chychwynnais i hela ffordd Rufeinig sy'n croesi rhostiroedd **Gogledd Cymru** [gogledd Cymru]. [Ymgeisydd 52 - Sylfaenol]

Penderfynodd y tri ohonynt (ymgeiswyr 25, 31 a 52) roi'r briflythyren i 'gogledd' ond ni roddir priflythrennau i'r ymadroddion 'dde/gogledd Cymru', fel rheol (Ifans 2006: 130).

At ei gilydd, dangosodd yr enghreifftiau o gamsillafu uchod nad oedd gan yr ymgeiswyr afael cadarn ar reolau sillafu'r Gymraeg. Ond roeddynt yn ansicr hefyd ynghylch confensiynau atalnodi yn y Gymraeg.

4.3.3 Cam-atalnodi

Nododd un o'r arholwyr fod atalnodi yn cael ei anwybyddu'n aml iawn wrth gyfieithu ac os bydd y cyfieithydd yn cofio atalnodi o gwbl, tuedda i ddilyn y testun gwreiddiol. Fodd bynnag, fel mae'n esbonio wrth drafod gwaith ymgeisydd 24, 'Nid dilyn y testun gwreiddiol yw diben atalnodi bob amser, ond yn hytrach gwneud yr ystyr yn glir i'r darlennydd ar unwaith'. Dylai'r cyfieithiad gael ei atalnodi, felly, yn ôl confensiynau'r testun targed yn hytrach na chonfensiynau'r testun gwreiddiol. Rhaid gofyn, yn hyn o beth, a yw cyfieithwyr yn ymwybodol bod confensiynau'n wahanol ym mhob iaith?

Nododd yr adroddiadau unigol ac adroddiadau'r Prif Arholwr fod 'diffygion atalnodi yn amlwg iawn' yn y gwaith cyfieithu (APAAS11G), gan ddweud bod 'angen i sawl ymgeisydd roi sylw dyladwy i atalnodi' (APAAG08G). Pa fath o ddiffygion a ddaeth i'r amlwg yng nghyfieithiadau'r corpws, felly? Mae'n bosibl dirnad tri chategori. Yn gyntaf, dilynodd nifer o ymgeiswyr atalnodi'r gwreiddiol. Yn ail, roedd enghreifftiau o atalnodi'n anghywir ond heb fod dylanwad y testun gwreiddiol i'w weld; ac yn olaf roedd enghreifftiau lle, i raddau helaeth, anwybyddwyd atalnodi gan yr ymgeiswyr.

- *Dilyn atalnodi'r gwreiddiol*

Nododd adroddiad APAAS11G fod “rhai [o'r ymgeiswyr] yn credu mai dilyn yr atalnodi yn y gwreiddiol oedd yn dderbynol”, ond fel yr eglurodd adroddiad APAAS08G: “Mae'r darn gwreiddiol yn aml yn ddiffygiol ei atalnodi”. Eto “ychydig o ymdrech a wneir gan ymgeiswyr i atalnodi'r cyfieithiad yn briodol”. Cafwyd enghraifft dda o hyn yng ngwaith ymgeiswyr 30 a 63, lle roedd gwall atalnodi yn y gwreiddiol, a chopiodd y ddau ymgeisydd yr atalnodi gwallus yn ddifeddwl (sef atalnod llawn ar ddiwedd y frawddeg yn lle'r marc cwestiwn priodol):

- 4.53 ST: Why can't they impose restrictions on shooting to bring it in line with the shooting laws of Northern Europe. [Darn 9, llau. 11-12]

TT: Pam na allent osod cyfyngiadau ar saethu er mwyn bod yn gyson â rheolau saethu Gogledd Ewrop. (**angen marc cwestiwn**) [Ymgeisydd 30 - Sylfaenol]

- *Atalnodi'n anghywir heb fod dylanwad y testun gwreiddiol i'w weld*

Mae'n wir dweud i'r rhan fwyaf o achosion o atalnodi'n anghywir ddigwydd o ganlyniad i gamddefnyddio'r coma. Yn ôl APAAS11G, “roedd ychydig yn defnyddio coma fel petaent yn rhoi halen ar sglodion”. Cafwyd enghreifftiau o sawl coma mewn man rhyfedd (gw. 4.54) a sawl coma ar goll ar ben hynny (gw. 4.55).

- 4.54 ST: And another is that no child in this Carmarthenshire village needs to be told what a manger is. [Darn 18, ll. 9]

TT: Ac un arall yw nad oes angen dweud wrth unrhyw blentyn yn y pentref hwn yn Sir Gaerfyrddin, (**comma mewn lle rhyfedd**) beth yw preseb. [Ymgeisydd 17 - Sylfaenol]

- 4.55 ST: There is a welcoming friendliness everywhere and it is especially refreshing to be guided round by enthusiastic young students who really do seem to want you to have a good day. [Darn 5, llau. 15-16]

TT: Mae pawb yn groesawgar yma (**angen coma**) ac mae'n deimlad braf cael eich tywys gan fyfyrwyr ifanc (**angen coma**) brwdfrydig sydd wir yn ymddangos fel eu bod am i chi gael diwrnod wrth eich bodd. [Ymgeisydd 45 - Sylfaenol]

Hefyd, roedd amryw yn methu defnyddio ail goma mewn parenthesis. Roedd hyn i'w weld yng ngwaith ymgeisydd 24, lle cafwyd y frawddeg:

4.56 ST: Bethlehem, Carmarthenshire, is transformed in December. [Darn 18, ll. 1]

TT: Caiff Bethlehem, Sir Gaerfyrddin (**angen coma**) ei weddnewid ym mis Rhagfyr. [Ymgeisydd 24 - Sylfaenol]

Fel y nododd yr arholwr, “mae angen rhoi coma ar ôl ‘Gaerfyrddin’ hefyd i dangos parenthesis”. Roedd y gwall hwn yn bresennol hyd yn oed yn un o'r cyfieithiadau llwyddiannus yn y corpws ac atgoffwyd yr ymgeisydd (rhif 50) gan yr arholwr: “Cofier hefyd ei bod yn rhaid dangos y ddau goma mewn parenthesis. Yr arfer yn aml yw defnyddio un yn unig, e.e. ‘Yno, ar gefn fy nghadair y safai tylluan’. Os defnyddiwch goma cyn y cymal ‘ar gefn fy nghadair’, rhaid cael coma hefyd ar ddiwedd y cymal, ‘Yno, ar gefn fy nghadair, y safai tylluan”.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos nad oes gan yr ymgeiswyr wybodaeth ddigonol o'r rheolau atalnodi.

- *Anwybyddu'r atalnodi*

Yn olaf, dewisodd sawl ymgeisydd anwybyddu atalnodi, neu “anwybyddu grym atalnodi” fel y noda adroddiad APAAS07H. Yn wir, sylwodd yr arholwyr yn adroddiad APAAS11G fod “llawer o'r ymgeiswyr yn dewis peidio ag atalnodi o gwbl - ar wahân i roi atalnod llawn ar ddiwedd brawddeg” (gw. 4.57 isod). Ond roedd sawl enghraifft yng ngwaith y cyfieithwyr lle nad oedd hyd yn oed atalnod llawn ar ddiwedd brawddeg, e.e. yng nghyfieithiadau ymgeiswyr 17 a 33.

4.57 ST: The history of such a mine can be problematical but the experts have got some of it sorted out and it is very satisfying to be taken below ground and have things explained down there in a world of colourful rocks and dripping water. [Darn 5, llau. 8-10]

TT: Gall hanes gloddfa o'r fath fod yn ddadleuol ond mae'r arbenigwyr wedi llwyddo i roi trefn ar rywfaint ohono ac mae'n foddhad mawr cael mynd o dan y ddaear a chael eglurhad o bethau mewn byd o greigiau lliwgar â sŵn dŵr yn diferu. [Ymgeisydd 33 - Sylfaenol]

Arwyddocâd atalnodi anghywir

Mae rhai yn dadlau nad yw atalnodi yn bwysig, gan ddweud ei fod “yn aml yn fater o chwaeth bersonol” (marciwr gwaith ymgeisydd 11). Eto, fel y dengys Rhiannon Ifans (2006: 105), gall un coma newid ystyr brawddeg yn llwyr:

Cawsom gacen siocled a chaws i de.

Cawsom gacen, siocled, a chaws i de.

Amlygwyd hyn yng ngwaith ymgeisydd 53, lle y nododd yr arholwr: “Mae diffyg o ran atalnodi ... ac mae hynny’n cymylu’r ystyr”. Mae’n dilyn, felly, y dylai’r gallu i atalnodi’n gywir fod yn un o sgiliau craidd unrhyw un sydd am fod yn gyfieithydd proffesiynol.

Gwallau o bwys?


A yw’r gwallau hyn i gyd yn wallau difrifol, mewn gwirionedd? Ai eu nifer sy’n eu gwneud nhw’n ddifrifol? Yn ôl adroddiad APAAS09G, roedd yn “drueni gweld gwallau mor elfennol yn britho gwaith sydd fel arall yn addawol”, ac er y cydnabyddir y byddai ambell wall o’r fath “yn ddigon dealladwy dan amodau arholiad”, noda’r adroddiad fod “nifer sylweddol o wallau o’r math hwn i’w gweld yng ngwaith sawl ymgeisydd ac roedd hynny’n naturiol yn amharu ar y cyfanwaith”. Yn wir, dywed APAAS10G y “byddai rhagor o ymgeiswyr wedi llwyddo petaent wedi darllen eu sgriptiau’n ofalus cyn cyflwyno’r gwaith, wedi atalnodi’n synhwyrol ac wedi cywiro’r gwallau amlycaf a’r gwallau teipio”. Felly, roedd gwallau orgraff yn sicr yn un o resymau dros fethiant nifer o’r ymgeiswyr. Ond ydy’r gwallau hyn yn bwysig ym myd proffesiynol cyfieithwyr? Mae rhai arholwyr yn dadlau bod gwallau cyfieithu yn fwy difrifol na gwallau orgraff, ond gwallau orgraff yw’r gwallau mwyaf amlwg i’r cwsmer, fel y noda Williams (2009: 5-6):

Elegant style is considered essential by some evaluators, but not by others. Some evaluators consider typos and spelling and punctuation errors to be peccadillos and ignore them in their overall assessment, while others will regard them as serious because they are precisely the errors that the client/end user will detect.

Mae hyn yn sicr yn wir yn achos y Gymraeg. Mae arwyddion gyda geiriau wedi'u camsillafu i'w gweld ym mhobman ac yn dod ag embaras i'r cwsmer. Nid bai'r cyfieithydd bob tro yw'r gwallau sillafu hyn, gan fod y broses darllen proflenni neu'r argraffu yn gallu bod ar fai hefyd, ond mae'n dangos pa mor bwysig yw ceisio osgoi gwallau orgraffyddol wrth gyfieithu.

PENNOD 5

CANLYNIADAU II: GWALLAU CYFIEITHU



Ffigwr 16: Cainc 2 o'r goeden wallau: gwallau cyfieithu

Dro ar ôl tro yn adroddiadau marcwyr arholiadau CCC Cyf gresynwyd bod mynegiant trwsogl ac ymadroddi lletchwith wedi amharu ar rediad naturiol y cyfieithiadau, a hynny, bron yn ddi-ffael, o ganlyniad i gyfieithu'n llythrennol gan yr ymgeiswyr. Tynnodd y Prif Arholwr yntau sylw at y duedd hon yn adroddiad APAAG08H, gan bwysleisio na ddylai cyfieithwyr ildio i'r temtasiwn o ddilyn y testun gwreiddiol yn gaeth:

Cyfathrebu'n llwyddiannus yw nod pob cyfieithydd. Ni ddylai, yn ei gyfieithiad, gael ei lyffetheirio gan union gyfluniad pob uned gyfathrebu yn y testun gwreiddiol, boed yr uned gyfathrebu honno'n baragraff, yn frawddeg, yn gymal, yn ymadrodd, yn air, yn forffem, yn atalnod, yn idiom, yn ddihareb, yn gyflythrennu ... Nid yw pob ymgeisydd wedi dysgu'r wers sylfaenol hon a'r canlyniad, yn anffodus, yw cyfathrebu cloff.

Nid yw hynny'n golygu, wrth gwrs, fod cyfieithu llythrennol bob amser yn annerbyniol. Yn wir, mae Newmark (1988: 76, 81), sydd yn un o ladmeryddion mwyaf blaenllaw dros gyfieithu'n llythrennol, yn mynnu mai dyma'r dull cyfieithu pwysicaf oll a'r cam cyntaf yn y broses o drosi. Ond mae hyd yn oed Newmark (*ibid*: 70) yn cyfaddef ei bod yn fwy anodd creu cyfieithiad llwyddiannus os ceisir cyfieithu'n llythrennol uwchlaw lefel y gair, sef fesul cymal/brawddeg:

I believe literal translation to be the basic translation procedure, both in communicative and semantic translation, in that translation starts from there. However, above the word level, literal translation becomes increasingly difficult.

Yn sicr, o edrych ar y data Saesneg/Cymraeg a gafwyd yn y corpws cyfochrog, ac o ddarllen sylwadau'r arholwyr, mae'n eglur i nifer o'r ymgeiswyr yn arholiadau CCC Cyf faglu wrth geisio cyfieithu'r testunau gwreiddiol air am air (gw. Tabl 8 isod). Wrth adrodd ar waith ymgeisydd 63, er enghraifft, nododd yr arholwr: "Byddai wedi elwa o gyfieithu'r darn fesul cymal, gan gyfleu'r ystyr yn glir a defnyddio cystrawennau mwy naturiol." A rhoddwyd y cyngor canlynol i ymgeisydd 26: "I sicrhau cyfieithiadau o safon uwch, mae angen craffu ar union ystyr pob brawddeg, a cheisio cyfleu'r ystyr hwnnw ar lefel y frawddeg, yn hytrach na chyfieithu fesul gair." Yn yr un modd, y prif wendid yng ngwaith ymgeisydd 30 oedd "diffyg tystiolaeth o allu'r ymgeisydd i ymryddhau o gyfluniad y darn gwreiddiol ac osgoi dilyn patrymau cystrawennau'r testun Saesneg ... cafwyd enghreifftiau o gyfieithu geiriau'n unigol a'u rhestru fel yr ymddangosent yn y darn gwreiddiol, yn hytrach na chyfieithu'r darn fesul cymal gan gyfleu'r ystyr yn glir a

defnyddio cystrawennau naturiol.” Gwelwyd, felly, ymadroddion a chystrawennau fel y canlynol:

- ... ceir lobi Eidalaidd sydd ar ei dyfiant yn erbyn anwahaniaeth yn y lladdfa o adar ...
(... there is now a growing Italian lobby against the indiscriminate slaughter of birds ...)
- ... drwy gyfrwng rhyngdoriad anghyfreithlon eitemau drwy'r post ...
(... via the unlawful interception of mail items ...)

Fodd bynnag, nid yw cynghori'r ymgeiswyr i beidio â chyfieithu air am air yn help mawr iddynt heb allu nodi cyd-destunau penodol lle nad yw cyfieithu llythrennol yn dderbyniol yn Gymraeg. (A chofio bod nifer o gyd-destunau lle mae cyfieithu llythrennol yn bosibl ac yn dderbyniol.)

Dadansoddwyd, felly, y brawddegau trwsogl a'r ymadroddion lletchwith a gafwyd yn y corpws i geisio dod o hyd i unrhyw elfennau cyffredin a oedd wedi achosi'r patrymau annaturiol, a darganfuwyd 4 elfen y dylai cyfieithwyr Cymraeg fod yn wylidwrus ohonynt os ydynt am ymryddhau o gyfluniad y darn gwreiddiol Saesneg.

Tabl 8: Nifer y gwallau o ganlyniad i gyfieithu llythrennol

	Cyfieithiadau Ymgeiswyr Aflwyddiannus (S-C)		Cyfieithiadau Ymgeiswyr Llwyddiannus (S-C)	
	Aelodaeth Sylfaenol	Aelodaeth Gyflawn	Aelodaeth Sylfaenol	Aelodaeth Gyflawn
Enwau	20	15	2	1
Ansoddeiriau	6	5	2	1
Berfau ymadroddol	9	4	1	1
Priod-ddulliau a throsiadau	15	10	2	1
Is-gyfanswm	50	34	7	4
Cyfanswm	84		11	

O siarad yn gyffredinol, dylai cyfieithwyr fod yn wylidwrus wrth geisio trosi unrhyw enwau/ymadroddion enwol a geir yn y testun Saesneg yn llythrennol **(5.1)**. Rhaid iddynt hefyd fod yn ofalus wrth drosi ansoddeiriau **(5.2)**. Yn yr un modd, mae angen iddynt fod yn effro wrth ymdrin â berfau ymadroddol **(5.3)**. Ac yn olaf, mae trosi

priod-ddulliau a throsiadau yn llythrennol yn gallu fod yn annerbyniol (5.4). Manylir ar bob un yn yr adran sy'n dilyn.

5.1 Enwau

Noda ymchwil diweddar gan Leech et al. (2009: 218) duedd gynyddol i ddefnyddio enwau yn Saesneg, gan sôn am “the increasing ‘nouniness’ of written English”. Ond ymddengys nad yw'r Gymraeg wedi datblygu yn yr un ffordd. Yn wir, ceir tri chyd-destun penodol lle mae angen i gyfieithwyr gofio na ddylent ddilyn y Saesneg yn slafaid wrth drosi enwau.

Yn gyntaf, nid yw'n bosibl bob tro gyfieithu cyfres o enwau, sef ymadroddion enwol, gyda chyfres o enwau yn y Gymraeg; mae rhaid i gyfieithwyr ddadbacio'r ymadroddion ac ychwanegu arddodiaid neu elfennau eraill. Yn ail, mewn rhai cyd-destunau lle mae'r Saesneg yn defnyddio'r enw mae'r Gymraeg yn tueddu i ffafrio'r berfenw. Ac yn olaf, nid oes cyfatebiaeth lwyr yn y ddwy iaith rhwng defnydd ffurf unigol enwau a defnydd ffurf luosog enwau.

Ymhelaethir isod ar y gwallau a welwyd yn y corpws wrth i'r cyfieithwyr ddewis trosi enwau air am air ym mhob un o'r cyd-destunau penodol hyn.

5.1.1 Ymadroddion enwol

Ymddengys fod y cynnydd yn y defnydd o enwau yn yr iaith Saesneg wedi dod ar draul cwmp yn y defnydd o arddodiaid (Leech et al. 2009: 209), fel y gellir gweld yn yr ymadrodd enwol Saesneg isod:

Care Home Sector Sustainability Report
[A Report **on** the Sustainability **of** the Care Home Sector]

Sylwyd ar y duedd hon yn gyntaf yn y wasg, lle roedd problemau gofod yn ddiau wedi dylanwadu ar y broses, ond erbyn hyn mae'r duedd i'w gweld yn ysgrifennu cyffredinol ac yn ysgrifennu academaidd yn ogystal. Fodd bynnag, a barnu yn ôl sylwadau'r arholwyr, a chronfeydd termau Cymraeg cyfredol, nid yw'r Gymraeg wedi datblygu yn yr un modd. Un esiampl yn unig o hyn yw'r term 'Children's Rights Impact

Assessment' sy'n cael ei gofnodi fel 'Asesiad **o'r** Effaith **ar** Hawliau Plant' yn *TermCymru*.⁵⁸ Hynny yw, nid yw'r term Cymraeg wedi cael ei chwtdogi drwy hepgor yr arddodiaid fel yn y term Saesneg.

Wrth drosi, felly, mae angen i gyfieithwyr gofio dadbacio'r ymadroddion enwol a geir yn y testun Saesneg ac ychwanegu arddodiaid neu rannau ymadrodd eraill wrth lunio ymadroddion cyfatebol yn y testun Cymraeg. Er enghraifft, yn 5.1 isod, disgwylir cael yr arddodiad 'ar' yn yr ymadrodd enwol Cymraeg 'ymgyngoriad cyllideb', sef 'ymgyngoriad **ar** y gyllideb', a hynny gan fod rhaid ymgynghori 'ar' rywbeth bob tro yn Gymraeg.

- 5.1 ST: This year's **budget consultation** provided excellent results and helped the County Council decide its spending plans for 2008/2009. [Darn 26, llau. 1-2]

TT: Cafwyd canlyniadau gwyh **i'r ymgynghoriad cyllideb** [i'r ymgynghoriad ar y gyllideb] eleni, a bu'n gymorth i'r Cyngor Sir benderfynu ar ei gynlluniau gwariant ar gyfer 2008/2009. [Ymgeisydd 46 - Cyflawn]

Yn yr un modd, trosodd ymgeisydd 30 yr ymadrodd enwol Saesneg 'loan account information' yn 'wybodaeth cyfrif benthyciad', ond nid yw'r ystyr yn eglur yn y Gymraeg ac nid yw'n llifo'n naturiol ychwaith (gw. 5.2 isod). Mae angen ychwanegu'r arddodiad 'am' yn yr ymadrodd Cymraeg, sef 'gwybodaeth **am** gyfrif benthyciad'. Noder hefyd y dylai 'benthyciad' gael ei drosi yn 'fenthycia', sef y berfenw, ond trafodir hyn ymhellach wrth ystyried cyfatebiaeth enwau a berfenwau isod.

- 5.2 ST: Some 70,000 families have experienced the pain of discovering that a loved one had been impersonated after their death – via the unlawful interception of mail items such as credit cards, bank statements and **loan account information**. [Darn 10, llau. 3-5]

TT: Mae rhyw 70,000 o deuluoedd wedi cael y profiad o'r boen o ddarganfod bod anwyliaid iddynt wedi cael eu dynwared ar ôl eu marwolaeth - drwy gyfrwng rhyngdoriad anghyfreithlon eitemau drwy'r post fel cardiau credid, datganiadau banc a **gwybodaeth cyfrif benthyciad** [gwybodaeth am gyfrif benthycia]. [Ymgeisydd 30 - Sylfaenol]

⁵⁸ Cyrchwyd 11.02.2014.

Yn ddamcaniaethol, gallai'r gyfres o enwau Saesneg gynyddu yn ddiderfyn mewn ymadroddion enwol o'r fath hon, ond cyfres o 8 enw oedd y rhediad hiraf y daethpwyd o hyd iddo yn ymchwil Leech (2009: 217) a chyfres o 4 enw y daethpwyd o hyd iddi yn y corpws cyfochrog, sef 'lump sum death benefit' (gw. 5.3 isod). Dewisodd ymgeisydd 13 drosi'r ymadrodd gan ddefnyddio cyfres o enwau, sef 'fudd-dal marwolaeth cyfandaliad', sy'n swnio'n chwithig iawn, ac awgrymodd yr arholwr y dylai fod wedi defnyddio 'budd-dal marwolaeth **ar ffurf** cyfandaliad' yn lle.

- 5.3 ST: It should be clear from the correspondence regarding the **lump sum death benefit** whether it is being paid to a deceased member's estate or at the Trustees' discretion. [Darn 32, llau. 22-24]

TT: Dylai'r ohebiaeth ynglŷn â'r **budd-dâl marwolaeth cyfandaliad** [budd-dâl marwolaeth ar ffurf cyfandaliad] egluro pa un a yw'n cael ei dalu i ystâd yr aelod neu yn ôl doethineb yr Ymddiriedolwyr. [Ymgeisydd 13 - Cyflawn]

Fodd bynnag, yn ogystal â chofio defnyddio arddodiaid a rhannau ymadrodd eraill wrth drosi ymadroddion enwol o'r fath hon o'r Saesneg, mae angen i gyfieithwr hefyd fod yn ofalus iawn gyda threfn geiriau. Amlyga'r enghraifft olaf yn yr adran hon, 5.4 isod, sy'n dod o waith un o'r ymgeiswyr llwyddiannus, y fath o beryglon a all godi. Dywedodd yr arholwr, wrth sylwi ar y cyfieithiad a gafwyd: "... mae 'cadeirydd pwyllgor newid hinsawdd y llywodraeth' yn enghraifft arbennig o wael o ddilyn trefn geiriau'r Saesneg gan gyfleu ystyr hollol chwerthinllyd, sef pwyllgor sy'n ymwneud â'r newid yn hinsawdd y llywodraeth ... 'Cadeirydd pwyllgor y llywodraeth ar newid yn yr hinsawdd' yw'r ystyr cywir."

- 5.4 ST: For that target to be met, 40% of all vehicles in Britain would have to be electric according to Lord Turner of Ecchinswell, **chairman of the government's climate change committee**. [Darn 14, llau. 6-8]

TT: Er mwyn cyflawni hynny, byddai angen i 40% o holl gerbydau Prydain fod yn rhedeg ar drydan, yn ôl yr Arglwydd Turner o Ecchinswell, **cadeirydd pwyllgor newid hinsawdd y llywodraeth** [cadeirydd pwyllgor y llywodraeth ar newid yn yr hinsawdd]. [Ymgeisydd 29 - Sylfaenol]

Yn arwyddocaol, mae TermCymru, sef y gronfa derminoleg y mae cyfieithwyr Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio, yn nodi y dylid defnyddio 'newid hinsawdd' fel term, ond 'y newid yn yr hinsawdd' mewn testun.⁵⁹

Ond fel y gwelwyd yn enghraifft 5.2 uchod, weithiau mae angen defnyddio berfenw yn lle un neu ragor o'r enwau mewn ymadroddion enwol o'r fath hon ac felly ystyrir y gyfatebiaeth rhwng enwau Saesneg a berfenwau Cymraeg yn yr adran nesaf.

5.1.2 Cyfatebiaeth enwau Saesneg a berfenwau Cymraeg

Dangosodd ymchwil Wooldridge (2011: 102-111) y defnyddir berfenwau yn y Gymraeg pan ddefnyddir enwau proses yn y Saesneg, ond cedwir yr enw pan ddefnyddir enw canlyniad yn y Saesneg. Fodd bynnag, cafwyd nifer o enghreifftiau yn y corpws lle roedd y cyfieithwyr wedi dilyn y testun Saesneg, gan ddewis cadw enw yn y testun Cymraeg.

5.1.3 Cyfatebiaeth enwau unigol/lluosog

Er mwyn dewis y geiriau iawn wrth drosi, weithiau mae angen newid rhwng ffurf unigol a ffurf luosog yr enw. Yn y Gymraeg defnyddir ffurf luosog yr enw yn aml pan ddefnyddia'r Saesneg y ffurf unigol. Noda Gruffudd (2005: 27) fod hyn i'w weld amlaf pan gaiff yr enw unigol ei ddefnyddio'n ansoddeiriol, e.e. S. 'bookshop' > C. 'siop lyfrau'.

Fodd bynnag, nid rheol yw hon. Gall y gwrthwyneb fod yn wir, lle y defnyddir y ffurf unigol yn y Gymraeg pan fyddai'r Saesneg yn ffafrio defnyddio'r ffurf luosog, e.e. S. 'equal opportunities' > C. 'cyfle cyfartal' (Gruffudd 2005: 27). A chyngor CCC Cyf yw: "Nid oes rhaid dewis enw lluosog bob tro yn y Gymraeg dim ond oherwydd bod y Saesneg wedi dewis enw lluosog."⁶⁰

Cafwyd enghraifft o hyn yn y corpws, lle roedd rhestr o wahanol fathau o adar yn y testun Saesneg (gw. 5.5 isod) a sylwodd yr arholwr: "wrth restru'r gwahanol fathau o adar, byddai defnyddio'r ffurf unigol wedi bod yn fwy naturiol o lawer na defnyddio'r ffurf luosog".

⁵⁹ Gw. <http://www.termcymru.cymru.gov.uk/fulldetailsw.asp?ID=6011> Cyrchwyd 11.02.2014.

⁶⁰ Gweler y llyfryn 'Cyfieithu Llwyddiannus ac Aflwyddiannus' (td. 16) sydd ar gael ar wefan y Gymdeithas o dan 'Adnoddau' yn <http://www.cyfieithwrycymru.org.uk/> Cyrchwyd 11.02.2014.

5.5 ST: Heaven knows, we are far from perfect in our treatment of wild birds, but at least we don't shoot **robins, swallows, nightingales** and other songsters. [Darn 9, llau. 13-14]

TT: Duw a wŷr ein bod ymhell o fod yn berffaith yn ein triniaeth o adar gwyllt, ond o leiaf nad ydym o leiaf yn saethu **brongochiaid, gwenoliaid, eosiad** [y frongoch, y wennol, yr eos] nac adar swynol eraill. [Ymgeisydd 30 - Sylfaenol]

Enghraifft arall oedd cyfieithu 'views' yn 'farnau' (5.6). Fel y nododd yr arholwr, "Cofier nad oes yn rhaid cael gair lluosog bob tro yn y Gymraeg dim ond oherwydd bod y Saesneg yn lluosog. Mae 'barnau' yn chwithig a byddai 'barn' yn dderbyniol - gall gynnwys mwy nag un farn. Fel arall, mae gair fel 'safbwyntiau' yn bosibl."

5.6 ST: Councillors considered the **views** and the issues raised, prior to taking the final decisions on the level of expenditure and its distribution between the various council services. [Darn 26, llau. 2-4]

TT: Bu'r Cynghorwyr yn ystyried y **barnau** [barn] a'r materion a godwyd, cyn gwneud y penderfyniadau terfynol ar lefel y gwariant a'i ddosbarthiad rhwng gwahanol wasanaethau'r cyngor. [Ymgeisydd 46 - Cyflawn]

Yn ddiddorol, cafwyd trafodaeth am y pwnc hwn yn ddiweddar ar W-T-C, sef y fforwm trafod termau a geirfa ar y we a ddefnyddir gan gyfieithwyr Cymru (gw. Ffigur 17 isod). O ddarllen y sylwadau, mae'n amlwg bod nifer o'r cyfieithwyr yn dilyn eu clustiau neu'u greddf wrth droi (gw. sylwadau Cyfieithydd B, yn enwedig), ond bod ymgais gan rai i resymoli eu dewisiadau. Ond yn yr achos penodol hwn, *nid* oes modd esbonio pam y defnyddir yr unigol yn lle'r lluosog, ac mae ateb Cyfieithydd D yn llygad ei le: "Efallai mai'r rheswm [am y duedd i ddefnyddio'r ffurf unigol ar y gair 'barn' yn lle'r ffurf luosog] yw bod y Gymraeg yn iaith ynddi ei hun, nid dim byd ond cyfieithiad o'r Saesneg." Fel yr esbonia Cyfieithydd Dd, "Cyfieithu esgorodd ar ... sawl lluosog trwsgl di-angen."

Ffigwr 17: Rhan o'r drafodaeth am 'eich barnau' ar W-T-C⁶¹

Cyfieithydd A

Pnawn da gyfeillion

Ceisio esbonio wrth rywun pam bod dweud 'barn' yn well na 'barnau' hyd yn oed os mai 'views' sy yn Saesneg. A chymryd eich bod chi'n cytuno, oes "rheswm" am hyn? Ac oes na enghreifftiau eraill? (Mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd wrth gwrs - alla i ddim meddwl am enghraifft ond weithiau mae enw unigol yn y gwreiddiol Saesneg yn well o'i ddweud gydag enw lluosog yn Gymraeg...)

Cyfieithydd B

Barn fydda i'n ei ddeud (bron) bob gafael hefyd ond sgin i ddim syniad pam, yn fy nghlustia mae'r rheswm nid yn fy mhen.

Cyfieithydd C

Rwy newydd wneud hyn yn y frawddeg ddiwetha un i mi ei chyfieithu - share views > rhannu barn. "Barn" yn swnio'n fwy cyffredinol, am wn i - er y gall rhywun gael sawl gwahanol farn ac mae gan y gair dri lluosog - barnau, barnion a beirn. Beth yw'ch beirn chi am y peth?

Cyfieithydd Ch

Dw i bron yn siŵr mai natur 'haniaethol' y gair sy'n gyfrifol - y tri gair sydd gan Peter Wynn Thomas yn enghreifftiau o enwau haniaethol yw 'prydfferthwch', 'hiraeth' a 'rhyddid'. Fyddai neb yn rhoi ffurf lluosog i'r un o'r rhain chwaith. E.e. The freedoms gained = rhyddid.

Cyfieithydd D

Efallai mai'r rheswm yw bod y Gymraeg yn iaith ynnddi ei hun, nid dim byd ond cyfieithiad o'r Saesneg. Gallech bob amser gynnig "sylwadau" yn lle "barn".

Cyfieithydd Dd

Tan y saithdegau roedd cyfle yn cyfleu'r unigol neu'r lluosog. Cyfieithu esgorodd ar cyfleoedd fel sawl lluosog trwsgl arall di-angen na allaf eu cofio ar y funud.

Ond nid enwau yw'r unig ran ymadrodd a all fod yn faen dramgwydd i gyfieithwyr S-C. Gall ansoddeiriau Saesneg hefyd fod yn broblemus.

⁶¹ Gellir cyrchu'r drafodaeth lawn drwy chwilio am 'eich barnau' yn archifau W-T-C sydd ar gael yn <https://www.jiscmail.ac.uk/cgi-bin/webadmin?A0=WELSH-TERMAU-CYMRAEG>. Cynhaliwyd y drafodaeth rhwng 11.06.2014 a 24.06.2014.

5.2 Ansoddeiriau

5.2.1 Ansoddeiriau sy'n dangos cenedligrwydd

Achosodd ansoddeiriau sy'n dangos cenedligrwydd drafferthion i sawl ymgeisydd oherwydd ei bod yn arferol yn Gymraeg gwahaniaethu rhwng ystyr cyffredinol ansoddeiriau o'r fath a'u hystyr ieithyddol. Felly, mae 'Welsh lamb' yn 'oen Cymreig' nid 'oen Cymraeg' a defnyddir 'o Gymro' wrth gyfeirio at bobl. Ond baglodd rhai ymgeiswyr, fel y dengys 5.7 isod:

5.7 ST: It was at this time of year that I once heard a **Welsh hill farmer** use the expressive word *hirlwm*. [Darn 11, ll. 1]

TT: Yr adeg hon o'r flwyddyn oedd hi pan glywais **ffarmwr mynydd Cymreig** [ffarmwr mynydd o Gymro] yn defnyddio'r gair mynegol *hirlwm*. [Ymgeisydd 65 - Sylfaenol]

Sylwodd yr arholwr: "Roedd hi'n syndod faint o ymgeiswyr a gafodd drafferth â'r ymadrodd hwn. Roedd yr ymgais hwn yn rhagori ar rai fel 'ffermwr Cymraeg o'r bryn'".

Yn yr un modd, mae'n fwy naturiol defnyddio enw'r wlad yn hytrach na'r ansoddair wrth gyfeirio at gynnyrch neu sefydliadau sy'n unigryw i'r wlad honno, er enghraifft S. 'French wines' - C. 'gwinoedd Ffrainc', S. 'the Canadian parliament' - C. 'senedd Canada' (Griffiths a Jones 1995) ond methodd sawl ymgeisydd â newid yr ansoddair i'r enw cyfatebol yn eu cyfieithiadau:

5.8 ST: We may console ourselves that adventures after **Welsh gold** have seldom lasted long. [Darn 15, llau. 12-13]

TT: Gallwn gysuro'n hunain nad yw'r anturiaethau i ddod o hyd i **aur Cymreig** [aur Cymru] wedi para'n hir. [Ymgeisydd 43 - Sylfaenol]

5.2.2 Cyfatebiaeth ffurf gymharol a ffurf eithaf yr ansoddair

Enghraifft arall sy'n nodweddiadol o'r Gymraeg yw'r ffordd y defnyddir ffurf eithaf ar ansoddair pan ddefnyddir y ffurf gymharol yn y Saesneg (Griffiths a Jones 1995) a sylwodd yr arholwr wrth drafod cyfieithiad 5.9 isod, "dylanwad y Saesneg a geir yma wrth ddefnyddio 'is'. 'Isaf' sy'n naturiol yn y Gymraeg."

- 5.9 ST: But the **lower** end of the chart is saddening: more than half the world's languages have fewer than 5,000 speakers, and 1,000 have fewer than a dozen – which means they're about to die. [Darn 31, llau. 5-7]

TT: Er hyn, peri tristwch wna pen **is** [isaf] y siart: mae nifer siaradwyr dros hanner ieithoedd y byd yn llai na 5,000, ac yn achos 1,000 o ieithoedd, mae llai na dwsin yn eu siarad – sy'n golygu bod y rhain ar fin trengi. [Ymgeisydd 56 - Cyflawn]

5.3 Berfau ymadroddol

Mae berfau ymadroddol (S. 'phrasal verbs') yn ferfau y mae adferfolion penodol yn cyddigwydd â hwy'n aml, megis 'mynd i ffwrdd' a 'cherdded i mewn' (Thomas 1996: 560). Yn ôl Thim maent yn gyffredin iawn yn Saesneg ac yn cael eu hystyried yn un o nodweddion amlycaf yr iaith honno: "only few properties of English are commonly seen as more typical of the language than the phrasal verb" (2012: 1). Byddid yn disgwyl dod o hyd i nifer ohonynt mewn testunau Saesneg eu hiaith, felly, a disgwyl hefyd y byddent efallai yn achosi problemau wrth gyfieithu.

Fodd bynnag, fel y dengys Thomas (1996: 560-1) a Rottet (2005: 66-7), mae gan y Gymraeg hithau nifer sylweddol o ferfau ymadroddol, y rhai hynny y mae modd eu deall yn llythrennol (megis 'cerdded i mewn') a'r rhai hynny sydd yn idiomatig eu hystyr (megis 'gwneud i ffwrdd â' = 'lladd'). Er i'r ddau fath ddatblygu'n annibynnol ar ddylanwad y Saesneg yn wreiddiol, mae'n eglur nad oes modd osgoi'r dylanwad hwnnw ar y Gymraeg fodern, fel y noda Rottet (*ibid*):

It is impossible to miss the fact that most of the attested idiomatic verb-adverb combinations in modern Welsh have more or less exact English equivalents, making it clear that even if the original Welsh use of the pattern was not inspired by English, the pattern did not continue to remain free of English influence.

Serch hynny, noda Thomas fod y rhai hynny sydd wedi eu trosi o'r Saesneg, e.e. 'llenwi allan', 'eistedd i lawr' ac 'ysgrifennu i lawr', yn cael eu defnyddio *ar lafar* ac *mewn Cymraeg anffurfiol* fel arfer — y berfenwau *heb yr adferfolion* a ddefnyddir mewn arddulliau mwy ffurfiol (1996: 561).

Ond methu cofio hwnnw a wnaeth nifer o'r ymgeiswyr yn arholiadau CCC Cyf. Gwelwyd yn 5.10 isod, er enghraifft, gyfieithiad llythrennol o'r berfau ymadroddol 'to

catch up' a 'to bubble over', a sylwodd yr arholwr: "Wrth gyfieithu i'r Gymraeg mae'n hollbwysig sicrhau nad yw cystrawennau'r Saesneg yn cael dylanwad gormodol."

- 5.10 ST: But I never got there because I **caught up with** a man whose conversation was all about Welsh gold and who was bubbling over with the history of the local mine. [Darn 3, llau. 4-5]

TT: Ond ni chyrhaeddais yno, oherwydd imi **ddal i fyny gyda** [ddal] dyn oedd a'i sgwrs cyfan am aur Cymreig, a oedd hefyd yn **byrlymu drosodd** [byrlymu] gyda hanes y mwynglawdd lleol. [Ymgeisydd 70 - Sylfaenol]

Yn yr un modd, cynigiwyd cyfieithiad gair am air am y ferf ymadroddol 'to light up' yn 5.11 isod, tra byddai'r Gymraeg ffurfiol yn tueddu i ddefnyddio'r ferf heb yr adferf:

- 5.11 ST: Try it out - go back to the Home Page, put the cursor on the map of Wales and see the names of the volunteer bureaux **light up**. [Darn 6, llau. 16-18]

TT: Triwch - ewch yn ôl i'r dudalen cartref a rhwch y cyrchwr ar y map o Gymru a gallwch weld enwau'r canolfannau gwirfoddoli yn **goleuo i fyny** [goleuo]. [Ymgeisydd 60 - Sylfaenol]

Yr hyn sy'n eglur, felly, yw bod yr ymgeiswyr naill ai wedi cyfieithu'r testun ffynhonnell yn slafaid, heb feddwl am y gwahaniaethau rhwng y Saesneg a'r Gymraeg, neu wedi defnyddio'r ffurfiau y byddent yn eu defnyddio ar lafar.

Priod-ddulliau a throsiadau oedd y grŵp arall a droswyd yn llythrennol gan rai o'r cyfieithwyr ac fe'u hystyrir nesaf.

5.4 Priod-ddulliau a throsiadau⁶²

Ceir ym mhob iaith briod-ddulliau a throsiadau i gyfoethogi'r ffordd y mae ystyr yn cael ei fynegi. Weithiau mae ieithoedd yn defnyddio'r un priod-ddulliau, er enghraifft, S. 'to

⁶² Gellir diffinio 'priod-ddull' mewn sawl ffordd, ond ym maes ieithyddiaeth fe'i diffinnir fel a ganlyn: "An idiom is ... a complex lexical item which is longer than a word form but shorter than a sentence and which has a meaning that cannot be derived from the knowledge of its component parts. Meaning is thus the decisive, if not the only, criterion for idioms" (Gramley a Pätzold 2004: 55). Diffinnir trosiad fel "... a word or expression that is used to talk about an entity or quality other than that referred to by its core, or most basic meaning" (Deignan 2005: 34).

go to the dogs' -> C. 'mynd i'r cŵn' (Gruffudd 2005: 53) neu S. 'to gain ground' sef 'to make progress' -> C. 'ennill tir' (Cownie 2001: 181), ond nid yw hynny'n digwydd yn aml. Fel arfer, mae'n rhaid i'r cyfieithydd chwilio am briod-ddulliau amgen yn yr iaith darged neu aralleirio os nad oes priod-ddulliau tebyg ar gael yn yr iaith honno (Nida a Taber 2003: 106). Cafwyd sawl priod-ddull a throsiad lliwgar yn y darnau Saesneg yn y corpws, ond ni lwyddodd pob ymgeisydd i'w trosi'n fedrus, gan ddewis eu trosi'n llythrennol yn lle, fel y trafodir isod.

Gwelir yn 5.12 isod, er enghraifft, gyfieithiad llythrennol o'r priod-ddull Saesneg 'to fall for', gyda'r cyfieithydd yn dilyn union eiriad y testun ffynhonnell yn hytrach na defnyddio ymadrodd megis 'llyncu'r pethau'r hyn' a fyddai wedi bod yn "fwy idiomatig" ym marn yr arholwr:

5.12 ST: Older, lonely people easily **fall for these things** and part with what little money they have on bogus offers. [Darn 10, llau. 12-13]

TT: Mae pobl hŷn neu rhai sy'n unig **yn syrthio am y pethau hyn** [yn llyncu'r pethau hyn] ac yn gwario'r ychydig bres sydd ganddynt ar y cynigion ffug. [Ymgeisydd 63 - Sylfaenol]

Trosiad anarferol a gyfieithwyd yn llythrennol gan sawl ymgeisydd oedd 'salad days', gw. 5.13 isod, a sylwodd yr arholwyr: "Rhaid gofyn pam y defnyddiodd yr awdur yr ymadrodd hwn – yn drosiadol, mae'n debyg? Rhywbeth fel 'oes aur' oedd yn taro orau. Nid yw 'dyddiau salad' yn taro."

5.13 ST: The real **salad days** of the oyster came at the end of the 19th century, when the whole country was in the grip of oyster fever. [Darn 23, llau. 11-12]

TT: Daeth gwir **ddyddiau salad** [oes aur] yr wystrysen ddiwedd y Bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan oedd y wlad gyfan wedi'i meddiannu gan obsesiwn ag wystrys. [Ymgeisydd 01 - Cyflawn]

Yn amlwg, nid oedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi dod ar draws y trosiad o'r blaen — er bod hanes hir iddo, gan ddyddio yn ôl i oes Shakespeare⁶³ — ac, o ganlyniad, ymddengys fod rhai ymgeiswyr (gw. 5.14 isod) wedi troi at y geiriadur i chwilio am derm Cymraeg addas, gan ddod o hyd i ymadroddion megis 'dyddiau glaslencyndod',

⁶³ Gw. OED Online. Cyrchwyd 1.07.2015.

'dyddiau glas' a 'glasoed' (gw. GyrA td. 1205). Mae'r termau hyn i gyd yn cyfateb i'r diffiniad 'days of youthful inexperience' a geir yn OED.

5.14 ST: The real **salad days** of the oyster came at the end of the 19th century, when the whole country was in the grip of oyster fever. [Darn 23, llau. 11-12]

TT: Diwedd y 19eg ganrif oedd **dyddiau glas** [oes aur] go iawn wystrys, pan aeth y wlad gyfan yn wyllt amdanynt. [Ymgeisydd 68 - Cyflawn]

Fodd bynnag, yr hyn a geir yma mewn gwirionedd yw enghraifft berffaith o'r math o beryglon a all godi o ddefnyddio geiriaduron yn ddifeddwl a heb ystyried ystyr y testun yn ei gyfanrwydd; mae'r priod-ddull arbennig hwn wedi magu ystyr newydd yn ddiweddar, sef 'heyday' neu 'glory days' a dyna'i ystyr yn y darn Saesneg dan sylw. (Byddai chwilio'r we wedi rhoi'r wybodaeth hon i'r ymgeiswyr, ond wrth gwrs nid oedd modd i'r ymgeiswyr gysylltu â'r we yn ystod yr arholiad.)

Mae'r enghraifft hon, felly, yn amlygu pwysigrwydd ystyried y cyd-destun bob tro wrth gyfieithu achos yn y paragraff dilynol cafwyd y frawddeg: "**The days of glory** were quickly followed by a devastating fall from grace" a oedd yn dangos ystyr y priod-ddull 'salad days' yn glir (gw. Atodiad 4, Darn 23 am y cyd-destun llawn, tt. 145-6). Felly hyd yn oed heb allu dod o hyd i ystyr cywir y priod-ddull yn y geiriadur, dylai'r ymgeiswyr fod wedi defnyddio'r cyd-destun i ddyfalu ei ystyr.

Gwelwyd enghraifft arall o ymgeisydd yn derbyn cynnig geiriadur yn ddifeddwl yn achos y priod-ddull Saesneg "to get away scot free". Mae gan y priod-ddull sawl ystyr, sef "to get off completely free from harm, restraint, punishment, or obligation"⁶⁴ ac adlewyrchir hyn yn y dewis o ystyron a roir yn GyrA td 1224, o dan y cofnod 'scot²':

(=*unhurt*): dianc yn ddianaf

(=*unpunished*): dianc yn ddi-gosb/ddigerydd, mynd yn groeniach

(=*without paying*): mynd/dianc heb dalu

⁶⁴ Gw. OED Online. Cyrchwyd 1.07.2015.

Ond yn anffodus, ymddengys i'r ymgeisydd ddewis yr ymadrodd cyntaf yn y rhestr sef 'dianc yn ddianaf' (gw. 5.15 isod) er bod y cyd-destun yn dangos yn glir nad 'dianaf' oedd yr ystyr ond 'di-gosb':

5.15 ST: While they have been branded criminals by a system that means drivers can tot up to 12 points for a series of relatively minor infringements, the worst offenders appear **to be getting away scot free**. [Darn 22, llau. 7-9]

TT: Tra eu bod hwy wedi cael eu galw yn droseddwr gan system sy'n golygu y gall gyrwyr grynhoi hyd at 12 o bwyntiau am gyfres o droseddau cymharol ddibwys, mae'n ymddangos fod y troseddwr gwaethaf **yn dianc yn ddianaf** [yn dianc yn ddi-gosb]. [Ymgeisydd 32 - Cyflawn]

Pwysleisia ymchwil diweddar Schmidt (2008: 215-6) pa mor bwysig yw ystyried y cyd-destun wrth gyfieithu. Gan ddefnyddio'r priod-ddull Saesneg 'to be in the club' (C: 'disgwyl'), dengys gyda chymorth y British National Corpus sut y mae'r cyd-destun yn ei gwneud yn amlwg pan fydd angen cyfieithiad llythrennol o'r geiriau a phryd, ar y llaw arall, y bydd angen cyfieithiad idiomatig. Yn y ddwy frawddeg gyntaf isod mae'n eglur bod y geiriau yn gyfystyr â 'a member of the club' (C: 'aelod o'r clwb').

- **He** has been *in the club* since May.
- She has been *in the club* **for twenty years**.
- I'm **a lady-in-waiting**. When you're *in the club*...

Hynny yw, mae'r rhagenw 'he' a'r ymadrodd 'for twenty years' yn rhoi cliw bod y ddwy frawddeg i'w deall yn llythrennol - gwyddys nad yw dynion yn disgwyl a gwyddys hefyd nad yw merched yn disgwyl am gyfnod o ugain mlynedd. Fodd bynnag, mae'r ymadrodd 'a lady-in-waiting' yn y drydedd frawddeg yn dynodi bod yr ymadrodd 'in the club' yn cael ei ddefnyddio'n idiomatig gan y siaradwr a bod angen cyfieithiad idiomatig yn yr achos hwnnw.

Mae'n bwysig cofio hefyd nad oes rhaid (ac nid yw'n bosibl chwaith) cyfieithu pob priod-ddull a geir yn y testun ffynhonnell gyda phriod-ddull tebyg yn y testun targed. Weithiau bydd angen defnyddio priod-ddull hollol wahanol, ond dro arall bydd angen aralleirio gan gollu'r priod-ddull i bob diben. Ond noda Nida a Taber (2003: 106)

fod modd cyflwyno priod-ddulliau mewn mannau eraill yn y cyfieithiad i wneud yn iawn am y golled honno a gresynant nad yw hynny'n digwydd yn ddigon aml:

What one must give up in order to communicate effectively can, however, be compensated for, at least in part, by the introduction of fitting idioms. One of the difficulties is that too often translators are not sufficiently sensitive to the possibilities of idiomatic expressions, and hence the end result is a weakening of the figurative force of the translation, since they do not compensate for loss of certain idioms by the introduction of others.

Yn arwyddocaol, nid oedd hyn yn wir yn achos y cyfieithwyr yr oedd eu gwaith wedi'u cynnwys yn y corpws. Yn wir, roeddynt yn awyddus iawn defnyddio priod-ddulliau yn eu cyfieithiadau ond nid oeddynt bob tro yn gweddu i'r darn. Troswyd 'all' yn 'bob copa walltog' gan un ymgeisydd (gw. 5.16 isod), er enghraifft, ond fel y sylwodd yr arholwr, "Rhaid gofalu bod unrhyw idiomau a ddefnyddir yn addas. Er bod 'pob copa walltog' yn gywir, mae'r ergyd gryn dipyn yn gryfach na'r hyn a geir yn y gwreiddiol, ac felly'n anaddas. Buasai 'pawb' yn llawn digon, ac yn llawer mwy addas."

5.16 ST: Changing your gas supplier may sound straightforward but we **all** know it isn't. [Darn 8, llau. 5-6]

TT: Efallai bod newid cyflenwr nwy yn swnio'n hawdd ddigon ond fe wŷyr **pob copa walltog** [pawb] nad felly y mae hi. [Ymgeisydd 16 - Sylfaenol]

Dro arall, ceisiodd yr ymgeisydd gyflwyno'r priod-ddull 'oes yr arth a'r blaidd', ond defnyddiodd 'dyn yr oes a'r blaidd' ar gam:

5.17 ST: You can go for miles across the most popular mountain, including Snowdon, and see hardly a trace of **ancient man**. [Darn 7, llau. 4-5]

TT: Fe ellwch chi grwydro am filltiroedd ar y mynydd mwyaf poblogaidd, gan gynnwys yr Wyddfa, heb weld fawr o olion **dyn yr oes a'r blaidd** [dyn o oes yr arth a'r blaidd]. [Ymgeisydd 16 - Sylfaenol]

Fel y nododd yr arholwr, "mae'n hanfodol bod unrhyw idiomau a ddefnyddir yn gywir! 'Oes yr arth a'r blaidd' yw'r ymadrodd, felly mae defnyddio 'dyn yr oes a'r blaidd' yn wall anffodus."

Baglodd hyd yn oed rai o'r cyfieithwyr llwyddiannus yn hyn o beth, gan 'dreisio idiomaau' yng ngeiriau'r arholwr. Penderfynodd un ohonynt ddefnyddio'r priod-ddull 'pen na chynffon' i gyfieithu 'digest' yn 5.18 isod, ond defnyddiodd 'pen a chynffon' yn lle. At hynny mae'r priod-ddull ynghlwm, fel rheol, wrth olyniad o fath 'methu gwneud', felly wrth dreisio'r idiom, roedd wedi colli grym ystyr y gwreiddiol, wedi colli grym cystrawen yr iaith darged, wedi colli grym cywair y gwreiddiol yn yr iaith darged ac wedi colli cywirdeb.

5.18 ST: Most of us know this and **digest the daily tips** on how to go about switching to a better deal. [Darn 8, ll. 3]

TT: Mae'r rhan fwyaf ohonom yn ymwybodol o hyn, ac yn **ceisio gwneud pen a chynffon o'r awgrymiadau dyddiol** [ystyried yr awgrymiadau dyddiol] ar sut i gael bargaen well. [Ymgeisydd 69 - Sylfaenol]

Dengys hyn oll fod ansicrwydd ynglŷn â'r defnydd o briod-ddulliau a throsiadau ymysg yr ymgeiswyr, ond hefyd fod methiant i ystyried y cyd-destun agos wrth gyfieithu. Amlygodd y gwallau hefyd nad oedd y cyfieithwyr wedi llwyr feistrolï'r iaith darged gan fethu cynhyrchu cyfieithiad mewn iaith goeth a graenus.

PENNOD 6

DIWEDDGLO

Prif nod y prosiect ymchwil hwn oedd cyflwyno dadansoddiad o'r gwallau a geir mewn cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg.

Seiliwyd yr ymchwil ar ddata o gorpws cyfochrog o 140 o gyfieithiadau Saesneg-Cymraeg a gafodd ei greu yn unswydd ar gyfer yr astudiaeth hon; cynhyrchwyd y cyfieithiadau o dan amodau arholiad, a hynny rhwng 2007 a 2011.

Cyflwynir yn y bennod olaf hon brif gasgliadau'r ymchwil. I ddechrau rhoddir crynodeb o'r canlyniadau gyda thrafodaeth am faterion o bwys **(6.1)**. Wedyn, wrth gloi'r traethawd, awgrymir sawl maes lle y gellid cynnal ymchwil pellach **(6.2)**.

6.1 Crynodeb o'r canlyniadau

O ystyried yr ystod o wallau a gafwyd yn y cyfieithiadau S-C, mae'n eglur nad peth hawdd mo cyfieithu a bod rhaid i bobl ddwyieithog sydd â'u bryd ar gyfieithu gael hyfforddiant cyn mentro i'r maes. Fel y datgana Fernando a Flavell (1981: 85): "Translation is an exacting art."

Fodd bynnag, gwelwyd nad oes hyfforddiant addas ar gael bob tro i gyfieithwyr; argymhellir, ar sail canfyddiadau'r ymchwil hwn, y dylai unrhyw hyfforddiant newydd fynd i'r afael â'r meysydd canlynol o ran **gramadeg y Gymraeg**, fel y trafodwyd ym Mhennod 4.

- **Treiglo (4.1)**

Yn enwedig treiglo swyddogaethol, lle mae rhaid i gyfieithwyr allu dadansoddi'r frawddeg Gymraeg i ddeall sut i dreiglo.

Gwelwyd hefyd ansicrwydd o ran treiglo ar ôl y rhagenwau blaen trydydd person, 'ei' (unigol gwrywaidd), 'ei' (unigol benywaidd) ac 'eu' (lluosog).

- **Y defnydd o'r Fannod (4.2.1)**

Rhaid i gyfieithwyr ddysgu sut y defnyddir y fannod nid yn unig yn y Gymraeg (y genidol, yn enwedig) ond sut y'i defnyddir yn y Saesneg hefyd, a hynny er mwyn gwneud yn siŵr nad yw cystrawen y Saesneg yn dylanwadu ar y cyfieithiad.

- **Llunio is-gymalau (4.2.2)**

Mae diffyg gwybodaeth ynglŷn â'r geirynnau a ddefnyddir i gyflwyno is-gymalau yn y Gymraeg.

- **Cyflenwi berfau, enwau ac ansoddeiriau (4.2.3)**

Mae dylanwad cystrawen y Saesneg i'w weld yn eglur a dylai darpar gyfieithwyr ddysgu sut y mae berfau, enwau ac ansoddeiriau yn cael eu cyflenwi yn y Gymraeg. At hynny, mae'n rhaid iddynt allu gwahaniaethu rhwng y defnydd o arddodiaid ansafonol a'r defnydd o arddodiaid safonol.

- **Orgraff (4.3)**

Mae tuedd i anghofio'r orgraff wrth drafod cyfieithu. Ond cafwyd gwallau niferus yn y corpws.

Credid weithiau fod cyfieithwyr o bosib yn gyfarwydd â'r meysydd uchod ond eu bod yn esgeulus wrth gyfieithu. Dylai unrhyw hyfforddiant, felly, ymdrin â sut i brawfddarllen a golygu gwaith cyfieithu.

Wedyn dylai'r hyfforddiant gynnwys y canlynol o ran **sgiliau cyfieithu**:

- **Sut i ddefnyddio adnoddau**

Mae'n bwysig bod cyfieithwyr yn cael hyfforddiant o ran sut i ddefnyddio geiriaduron, corpora cyfochrog a gwirwyr sillafu a gramadeg.

- **Darllen a meddu ar wybodaeth gyffredinol/ddiwylliannol**

Dylai hyfforddiant bwysleisio'r pwysigrwydd o ddarllen Saesneg a Chymraeg yn ddyddiol — darllen cyffredinol a darllen mewn meysydd arbenigol — gan ei wneud yn rhan o'r cwrs.

- **Strategaethau cyfieithu**

Nid oes un strategaeth gyfieithu yn gweithio bob tro - rhaid i'r cyfieithydd allu dewis. Weithiau bydd modd cyfieithu'r rhan fwyaf o'r darn yn llythrennol, ond wedyn bydd paragraff sy'n galw am gyfieithu rhydd/addasu. Cafwyd yr argraff bod cyfieithwyr S-C yn gweithio'n reddfol yn hytrach na bod yn ymwybodol o'r dewisiadau y maent yn eu gwneud.

O ystyried natur ac ystod y gwallau iaith yn y corpws, ymddengys bod gwybodaeth ieithyddol cyfieithwyr Saesneg-Cymraeg yn wannach na'r disgwyl, a bod y defnydd o adnoddau technoleg iaith wedi 'cuddio' eu diffyg gwybodaeth yn fwy. Yn wir, gellir dweud bod gan yr ymgeiswyr ddiffyg meistrolaeth ar Gymraeg ysgrifenedig raenus.

Gall hyn fod oherwydd bod y Gymraeg yn iaith leiafrifol, ac o'r herwydd, cafwyd cyfieithiadau a oedd yn drwm dan ddylanwad y testun Saesneg, a gwelwyd ôl yr iaith Saesneg ym mhobman. Ond gall hefyd fod oherwydd diffyg dysgu gramadeg yn y system addysg.

Gwelwyd bod hyd yn oed rhai o'r gwallau cyfieithu yn deillio o ddiffyg gwybodaeth o'r iaith darged, sef y Gymraeg. Amlygodd y llu o enghreifftiau o gyfieithu llythrennol nad oedd y cyfieithwyr yn sicr eu defnydd o'r Gymraeg a'i theithi, gan greu cyfieithiadau lletchwith o ganlyniad.

6.2 Ymchwil pellach posibl

Credir bod sawl maes gwahanol lle y gellid cynnal ymchwil pellach. Yn gyntaf, byddai modd agor y maes drwy ymchwilio i'r hyn sy'n digwydd wrth gyfieithu i ieithoedd lleiafrifol eraill. Canolbwyntiodd y gwaith ymchwil hwn ar gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, a gwelwyd bod mwy o wallau ieithyddol na'r disgwyl wrth gymharu â chyfieithu i brif iaith (Kussmaul 1995: 6). Byddai'n ddefnyddiol, felly, cynnal ymchwil i'r gwallau a geir wrth gyfieithu i ieithoedd lleiafrifol eraill, er mwyn gweld a oes cynifer o wallau ieithyddol ynteu a ydy'r canlyniadau hyn yn unigryw i'r Gymraeg?

Yn ail, un o rannau pwysig o'r ymchwil hwn oedd ceisio dod o hyd i achos y gwallau, a hynny er mwyn cynnig argymhellion o ran hyfforddiant. Ond pwysleisiwyd nad oedd modd bod yn sicr bob tro pam roedd y cyfieithwyr wedi baglu ac felly byddai astudiaeth debyg a fyddai'n defnyddio'r fethodoleg 'meddwl yn uchel', lle yr astudir yr hyn sy'n digwydd ym meddwl y cyfieithydd wrth drosi, yn amlygu o bosib nifer o broblemau eraill y byddai modd ceisio eu datrys wrth hyfforddi cyfieithwyr.

Yn olaf, mae rhai pobl yn honni bod y Cymry Cymraeg, yn rhinwedd eu dwyieithrwydd, yn aml yn wynebu'r un heriau wrth gynhyrchu'r Gymraeg â'r rhai sy'n cyfieithu. Dywed Williams (1999: 49):

...Un o broblemau mwyaf yr iaith Gymraeg yw bod pawb sy'n ei siarad yn ddwyieithog. Problem bellach yw bod ail iaith y rhan fwyaf ohonom yn digwydd bod yn un o'r ieithoedd cryfaf yn y byd, sef y Saesneg. Mae'r Saesneg wedyn yn cael effaith ar y ffordd yr ydym yn meddwl a'r ffordd yr ydym yn sgrifennu. Er nad ydym bob tro yn cyfieithu brawddeg Saesneg, rydym yn aml yn meddwl yn Saesneg ac wedyn yn gwneud yr un camgymeriadau ag y bydd rhai'n eu gwneud wrth gyfieithu.

Byddai'n werthfawr, felly, cynnal ymchwil cyferbyniol ym maes ieithyddiaeth i ddylanwad y Saesneg ar iaith ysgrifenedig y Cymry Cymraeg — gan greu corpora newydd — i ganfod a ydy'r Cymry Cymraeg mewn gwirionedd yn gwneud "yr un camgymeriadau" â'r rhai a welir yng ngwaith cyfieithwyr, ac, os felly, i ystyried goblygiadau hynny ym maes addysg.

* * *

Cyn i'r traethawd hwn ddirwyn i ben, fodd bynnag, mae'n rhaid pwysleisio nad oedd y cyfieithiadau a gafwyd yn y corpws yn wallau i gyd. Oherwydd natur yr ymchwil nid oedd modd ymhelaethu yn y traethawd am y pethau da a gafwyd yn y cyfieithu, ond roedd cynigion creadigol iawn a brawddegau ardderchog yn nifer fawr o'r cyfieithiadau yn y corpws. Felly, rhaid cofio y byddai unrhyw hyfforddiant yn y maes yn gallu adeiladu ar sylfeini cryf.

LLYFRYDDIAETH

Sylwer nad yw rhai o'r llyfrau ac erthyglau a restrir isod ond ar gael yn electronig ac felly mae'n bosibl na fydd rhifau'r tudalennau a nodir yn y traethawd yn cyfateb bob tro, a hynny oherwydd yr ystod o ddyfeisiau a ddefnyddir i'w darllen. Cynghorir y darllenydd, felly, i wneud chwiliad electronig o fewn y llyfr/erthygl i ddod o hyd i unrhyw ddyfyniad.

* * *

Adroddiad Blynyddol Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru 2013-14. [Heb ei gyhoeddi.]

Al-Jarf, R.S. (2007) SVO word order errors in English-Arabic translation. *Meta: Journal des Traducteurs / Meta: Translators' Journal*, cyf. 52 (2): 299-308. Ar gael ar-lein yn <http://id.erudit.org/iderudit/016072ar> [Cyrchwyd 11.11.2014].

Andrews, T. (2010) *Current practice in website localization and its application to Welsh*. Traethawd PhD, Prifysgol Bangor.

Atkins, S., Clear, J. & Ostler, N. (1992) Corpus design criteria. *Literary and linguistic computing*, 7 (1): 1-16.

Aveling, H. (2003) "Mistakes" in translation: a functionalist approach. *CELT: A Journal of Culture, English Language Teaching & Literature*, 3 (1): 1-12.

Baker, C. (2011) *Foundations of bilingual education and bilingualism*. Bristol and New York: Multilingual Matters.

Baker, M. (1993) Corpus linguistics and translation studies: implications and applications. Yn Baker, M., Francis, M.G., & Tognini-Bonelli, E. (gol.) *Text and technology. In honour of John Sinclair*. 233-250. Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.

Baker, M. (1995) Corpora in translation studies. An overview and some suggestions for future research. *Target*, 7 (2): 223-243.

Baker, M. (1996) Corpus-based translation studies: the challenges that lie ahead. Yn Somers, H. (gol.) *Terminology, LSP and translation: studies in language engineering in honour of Juan C. Sager*. 175-186. Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.

Baker, M. (2011 - ail argraffiad) *In other words: a coursebook on translation*. London and New York: Routledge.

Baker, M. & Saldanha, G. (2009 - ail argraffiad) *Routledge encyclopedia of translation studies*. London and New York: Routledge.

Baker, P. (2006) *Using corpora in discourse analysis*. London and New York: Continuum.

Ball, M.J. (1988) Variation in the use of initial consonant mutations. Yn Ball, M.J. (gol.) *The use of Welsh: a contribution to sociolinguistics*. 70-81. Clevedon: Multilingual Matters.

Ball, M.J. & Müller, N. (2002) *Mutation in Welsh*. Hoboken: Taylor & Francis.

Biber, D. (1988) *Variation across speech and writing*. Cambridge: Cambridge University Press.

- Biber, D., Conrad, S. & Reppen, R. (1998) *Corpus linguistics: investigating language structure and use*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Blum-Kulka, S. & Levenston, E.A. (1983) Universals of lexical simplification. Yn Faerch, C. & Kasper, G. (gol.) *Strategies in interlanguage communication*. 119-139. London: Longman.
- Borsley, R.D. & Roberts, I. (gol.) (2005) *The syntax of the Celtic languages: a comparative perspective*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Borsley, R.D., Tallerman, M. & Willis, D. (2007) *The syntax of Welsh*. Cambridge and New York: Cambridge University Press.
- Burston, J. (1995-6) A comparative evaluation of French grammar checkers. *CALICO Journal*, 13 (2 & 3): 104-111.
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2006) *Strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygu'r proffesiwn cyfieithu Cymraeg/Saesneg*. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Chamizo-Domínguez, P.J. (2008) *Semantics and pragmatics of false friends*. London and New York: Routledge.
- Chriss, R. (2006) *Translation as a profession*. London: Lulu.
- Cownie, A. (2001) *A dictionary of Welsh and English idiomatic phrases*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Cronin, M. (1995) Altered states: translation and minority languages. *TTR: traduction, terminologie, rédaction*, 8 (1): 85-103. Ar gael ar-lein yn <http://id.erudit.org/iderudit/037198ar> [Cyrchwyd 02.02.2015].
- Culler, J. (1976) *Saussure*. Glasgow: Fontana/Collins.
- Davies, E.E. (2007) Leaving it out: on some justifications for the use of omission in translation. *Babel*, 53 (1): 56-77.
- Davies, P.G.C. (2010) *Identifying word-order convergence in the speech of Welsh-English bilinguals*. Traethawd PhD, Prifysgol Bangor.
- Deeb, Z.A. (2005) *A taxonomy of translation problems in translating from English to Arabic*. Traethawd PhD, Prifysgol Newcastle. Ar gael ar-lein yn: <http://hdl.handle.net/10443/229> [Cyrchwyd 25.01.2013].
- Deignan, A. (2005) *Metaphor and corpus linguistics*. Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.
- Delisle, J., Lee-Jahnke, H. & Cormier, M.C. (gol.) (1999) *Terminologie de la traduction / Translation Terminology / Terminología de la traducción / Terminologie der Übersetzung*. Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.
- Deuchar, M., Davies, P., Herring, J., Parafita Couto, M. & Carter, D. (2014) Building bilingual corpora. Yn Thomas, E.M. & Mennen, I. (gol.) *Advances in the study of bilingualism*. 93-111. Bristol: Multilingual Matters.

- Dollerup, C. (1996) The emergence of the teaching of translation. Yn Dollerup, C. & Appel, V. (gol.) *Teaching translation and interpreting* 3. 19-30. Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.
- Duff, A.Mc. (2001) Undertranslation. Yn Chan, S-W. & Pollard, D.E. (gol.) *An encyclopaedia of translation*. 1108-1118. Hong Kong: The Chinese University Press.
- Dukâte, A. (2009) *Translation, manipulation, and interpreting*. Frankfurt: Peter Lang.
- Ellis, N.C., Roberts, D. & O'Dochartaigh, C. (2000) IT for the Welsh language: the Cysill project. Yn Thomas, P.W. & Mathias, J. (gol.) *Developing minority languages: proceedings of the fifth international conference on minority languages*. 698-721. Caerdydd: Gomer Press.
- Ellis, N.C., O'Dochartaigh, C., Hicks, W., Morgan, M. & Laporte, N. (2001) *Cronfa Electroneg o Gymraeg (CEG): Cronfa ddata eirfaol, miliwn o eiriau, sy'n cyfrif amllder defnydd geiriau yn y Gymraeg*. Ar gael ar-lein yn: <http://www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/ceg.php.cy> [Cyrchwyd 14.03.2015]
- Ellis, R. (1999) *Second language acquisition*. Oxford: Oxford University Press.
- Facchinetti, R. (2007) *Corpus linguistics 25 years on*. Amsterdam: Rodopi.
- Fernando, C. & Flavell, R. (1981) *On idiom: critical views and perspectives*. Exeter Linguistic Studies 5, Exeter University.
- Finegan, E. (2008) *Language: its structure and use*. Boston: Thomson Wadsworth.
- Francis, W. (1982) Problems of assembling and computerizing large corpora. Yn Johansson, S. (gol.) *Computer corpora in English language research*. 7-24. Bergen: Norwegian Computing Centre for the Humanities.
- Frawley, W. (1984) Prolegomenon to a theory of translation. Yn Frawley, W. (gol.) *Translation: literary, linguistic and philosophical perspectives*. 159-175. London and Toronto: Associated University Presses.
- Gardner-Chloros, P. (1991) *Language selection and switching in Strasbourg*. Oxford: Oxford University Press.
- Gavioli, L. (2005) *Exploring corpora for ESP learning*. Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.
- Gellerstam, M. (1986) Translationese in Swedish novels translated from English. Yn Wollin, L. & Lindquist, H. (gol.) *Translation Studies in Scandinavia*. 88-95. Lund: CWK Gleerup.
- Gentzler, E. (2001) *Contemporary translation theories*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Gile, D. (2009) *Basic Concepts and models for interpreter and translator training*. Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.
- Gouadec, D. (2007) *Translation as a profession*. Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.

- Gramley, S. & Pätzold, K-M. (2004, ail argraffiad) *A survey of modern English*. London: Routledge.
- Griffiths, B. & Jones, D. (gol.) (1995) *Geiriadur yr Academi*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Griffiths, B. (2014) Ystyriaethau gramadegol wrth lunio Geiriadur yr Academi. Yn Prys, D. (gol) *Ysgrifau ar ieithyddiaeth a geiriaduraeth Gymraeg*. 22-31. E-argraffiad: Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ar gael ar-lein yn <https://llyfrgell.porth.ac.uk/media/ysgrifau-ar-ieithyddiaeth-a-geiriaduraeth-gymraeg-> [Cyrchwyd 11.02.2015]
- Grimshaw, J.B. (1990) *Argument structure*. Cambridge: MIT Press.
- Gruffudd, H. (2005) *Dechrau cyfieithu: llyfr ymarferion i rai sy'n dechrau ymddiddori mewn cyfieithu*. Aberystwyth: Y Ganolfan Astudiaethau Addysg.
- Gurevich, O., Crouch, R., King, T.H., de Paiva, V. (2006) Deverbal nouns in knowledge representation. Yn *FLAIRS proceedings*. 670-675. Melbourne, Florida.
- Hansen, G. (2010) Translation 'errors'. Yn Gambier, Y. & van Doorslaer, L. (gol.) *Handbook of translation studies : Volume 1*. 385-388. Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.
- Harris, B. (1973) La traductologie, la traduction naturelle, la traduction automatique et la sémantique. Yn McA'Nulty, J. (gol.) *Problèmes de sémantique* (Cahier de linguistique 2). 133-146. Montreal: Presses de l'Université du Québec. Ar gael ar-lein yn <http://id.erudit.org/iderudit/800013ar> [Cyrchwyd 30.07.2014].
- Hatim, B. & Munday, J. (2004) *Translation: an advanced resource book*. London: Routledge.
- Havlásková, Z. (2010) *Interference in students' translations*. Traethawd Meistr, Prifysgol Masaryk.
- Hawke, A. (2014) Geiriadur Prifysgol Cymru: ar seiliau cadarn? Geiriaduron hanesyddol, disgrifiadol, a rhagnodol. Yn Prys, D. (gol) *Ysgrifau ar ieithyddiaeth a geiriaduraeth Gymraeg*. 32-46. E-argraffiad: Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ar gael ar-lein yn <https://llyfrgell.porth.ac.uk/media/ysgrifau-ar-ieithyddiaeth-a-geiriaduraeth-gymraeg-> [Cyrchwyd 11.02.2015]
- Hickey, R. (2003) *Corpus presenter: software for language analysis*. Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.
- Hicks, W.J. (2004) Welsh proofing tools: making a little NLP go a long way. Yn *Proceedings of the 1st workshop on international proofing tools and language technologies*. Greece. EURAC Research.
- Holmes, J.S. (1988) The name and nature of translation studies. Yn Holmes, J.S., *Translated! Papers on literary translation and translation studies*. 67-80. Amsterdam: Rodopi.

Hopkinson, C. (2007) Factors in linguistic interference: a case study in translation. *Skase Journal of Translation and Interpretation*, cyf. 2 (1): 13-23. Ar gael ar-lein yn http://www.skase.sk/Volumes/JTI02/pdf_doc/2.pdf [Cyrchwyd 02.09.2010].

House, J. (1997) *Translation quality assessment: a model revisited*. Tübingen: Gunter Narr Verlag.

Humphreys, Ll. (2009) Automated English subtitling of Welsh TV programmes. Yn Alegria, I., Forcada, M.L. & Sarasola, K. (gol.) *Information retrieval and information extraction for less resourced languages*. 63-72. The Basque Country: SALTMIL.

Hung, E. (2001) Translation editing. Yn Chan, S. & Pollard, D.E. (gol.) *An encyclopaedia of translation*. 183-189. Hong Kong: The Chinese University Press.

Ifans, R. (2006) *Y golygiadur: llawlyfr i awduron a golygyddion*. Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion Gyf.

James, C. (1998) *Errors in language learning and use: exploring error analysis*. London and New York: Longman.

Jespersen, O. (1961) *A modern English grammar on historical principles*. Cyfrol 2. London: Allen and Unwin.

Johns, T. (1997) Contexts: the background, development and trialling of a concordance-based CALL program. Yn Wichmann, A., Fligelstone, S., McEnery, T. & Knowles, G. (gol.) *Teaching and language corpora*. 100-115. New York: Addison Wesley Longman.

Jones, B.P. (2005a) *Hanes cyfieithu yng Nghymru*. Papur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd 'Cerrig Milltir' y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn Aberystwyth. Ar gael ar-lein yn http://www.cyfieithwycymru.org.uk/content/uploads/documents/Cyfieithu_yng_Nghymru.pdf [Cyrchwyd 06.12.2011].

Jones, B.P. (2005b) *Translation in Wales*. Anerchiad i gynhadledd yr Institute of Translating and Interpreting (ITI) yng Nghaerdydd. Ar gael ar-lein yn http://www.cyfieithwycymru.org.uk/content/uploads/documents/anerchiad_%20ITI.pdf [Cyrchwyd 06.12.2011].

Jones, D. (1997) *Cyflwyniad i ddwyieithrwydd*. Aberystwyth: Canolfan Astudiaethau Addysg.

Kaufmann, J. (2009) *Cymdeithaseg cyfieithu: dylanwad cyfieithu ar y pryd ar y defnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd*. Traethawd PhD, Prifysgol Bangor.

Kenny, D. (1998) Corpora in translation studies. Yn Baker, M. (gol.) *Routledge encyclopedia of translation studies*. 50-53. London and New York: Routledge.

Kussmaul, P. (1995) *Training the translator*. Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.

Lamberger-Felber, H. & Schneider, J. (2008) Linguistic interference in simultaneous interpreting with text. Yn Hansen, G., Chesterman, A. & Gerzymisch-Arbogast, H. (gol.)

- Efforts and models in interpreting and translation research.* 215-236. Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.
- Laviosa, S. (2002) *Corpus-based translation studies: theory, findings, applications.* Amsterdam and New York: Rodopi.
- Laviosa, S. (2003) Corpora and translation studies. Yn Granger, S., Lerot, J. & Petch-Tyson, S. (gol.) *Corpus-based approaches to contrastive linguistics and translation studies.* 45-54. Amsterdam and New York: Rodopi.
- Leech, G., Hundt, M., Mair, C. & Smith, N. (2009) *Change in contemporary English: a grammatical study.* Cambridge and New York: Cambridge University Press.
- Lewis, D.G. (1996 – argraffiad newydd) *Y treigludur: a check-list of Welsh mutations.* Llandysul: Gwasg Gomer.
- Lewis, D.G. (2007a – 3^{ydd} argraffiad) *Pa arddodiad? / A check-list of Welsh prepositions.* Llandysul: Gwasg Gomer.
- Lewis, D.G. (2007b – 5^{ed} argraffiad) *Y llyfr berfau / A check-list of Welsh verbs.* Llandysul: Gwasg Gomer.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Arddulliadur Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cynulliad Cymru.* Ar gael ar-lein yn <http://wales.gov.uk/cisd/publications/translation/styleguidewelsh/> [Cyrchwyd 15.02.2014].
- Llywodraeth Cymru (2012) *Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012-17.* Caerdydd. Ar gael ar-lein yn <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf> [Cyrchwyd 09.09.2014]
- Louw, B. (1997) The role of corpora in critical literary appreciation. Yn Wichmann, A., Fligelstone, S., McEnery, T. & Knowles, G. (gol.) *Teaching and language corpora.* 240-251. New York: Addison Wesley Longman.
- Mauranen A. & Kujamäki, P. (2004) *Translation universals. Do they exist?* Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.
- McEnery, T. & Wilson, A. (2001) *Corpus linguistics.* Edinburgh: Edinburgh University Press.
- McEnery, T., Xiao, R. & Tono, Y. (2006) *Corpus-based language studies: an advanced resource book.* London and New York: Routledge.
- Menter a Busnes (2005) *Arolwg o'r diwydiant cyfieithu yng Nghymru.* Aberystwyth: Menter a Busnes ar gyfer CCC Cyf.
- Morgan, M. (2010) *Cyrsiau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd: cipolwg ar y ddarpariaeth ym mhrifysgolion Cymru, a rhai prifysgolion yn Lloegr a mannau eraill.* [Adroddiad a baratowyd ar gyfer Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Heb ei gyhoeddi.]
- Morgan, T.J. (1952) *Y treigladau a'u cystrawen.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

- Mossop, B. (2014) *Revising and editing for translators*. Abingdon: Routledge.
- Munday, J. (2008) *Introducing translation studies: theories and applications*. London and New York: Routledge.
- Naber, D. (2003) *A Rule-based style and grammar checker*. Traethawd Meistr, Prifysgol Bielefeld.
- Nelde, P.H. (1995) Language contact. *Annual review of applied linguistics*, 15: 81-90.
- Newmark, P. (1988) *A textbook of translation*. Hemel Hempstead: Prentice-Hall International.
- Newmark, P. (1991) *About translation*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Nida, E. (1981) Translators are born not made. *The Bible Translator*. 32 (4): 401-405.
- Nida, E. (2001) *Contexts in translating*. Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.
- Nida, E. & Taber, C. (2003) *The theory and practice of translation*. Leiden: Brill NV.
- O’Keeffe, A., McCarthy, M. a Carter, R. (2007) *From corpus to classroom: language use and language teaching*. Cambridge: Cambridge University Press.
- OED Online (2015). Oxford University Press. Ar gael ar-lein yn: <http://www.oed.com/> [Cyrchwyd 1.07.2015].
- Olohan, M. (2004) *Introducing corpora in translation studies*. London: Routledge.
- Oostdijk, N. & de Haan, P. (1994) Clause patterns in modern British English: a corpus-based (quantitative) study. *ICAME Journal*, 18: 41-79.
- Presas, M. (2000) Bilingual competence and translation competence. Yn Schäffner, C. & Adab, B. (gol.) *Developing translation competence*. 19-32. Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.
